# COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

# DATGANIAD CYFRIFON GRŴP
# 2019 – 2020

**Tabl o’r Cynnwys**


Cyfrifon Grŵp Adroddiad Naratif gan y Prif Swyddog Cyllid, Kate Jackson ....................3

Datganiad o’r Cyfrifoldebau am Ddatganiad o Gyfrifon y Grŵp ....................17

Dadansoddiad o Wariant a Chyllid y Grŵp 2019-2020....................18

Dadansoddiad o Wariant a Chyllid y Grŵp 2018-2019....................19

Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr y Grŵp ....................20

Datganiad Symudiadau yng Nghronfeydd y Grŵp....................21

Mantolen y Grŵp....................22

Datganiad Llif Arian y Grŵp ....................23

Nodiadau i Ddatganiad Cyfrifon y Grŵp ....................24

Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu....................63

Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu'r Grŵp....................64

Rhestr Geirfa....................79

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-2020 ....................81

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru....................93

Crynodeb o Wariant a Chyllid Cyfalaf 2019-2020....................96

**Cyfrifon Grŵp – Adroddiad Naratif gan y Prif Swyddog Cyllid, Kate Jackson**

**CYFLWYNIAD**

Mae’r adroddiad Naratif hwn yn anelu i roi sylwebaeth ynghylch sut mae adnoddau wedi cael eu defnyddio gan y sefydliad er mwyn cyflawni ei ganlyniadau dymunol. Mae’n amodol ar graffu annibynnol gan ein harchwilwyr allanol penodedig a’r nod yw creu adroddiad sy’n deg, cytbwys a dealladwy.


I’r perwyl hwnnw mae’r adroddiad naratif yn dechrau drwy egluro cyfrifoldebau’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gydag adrannau ar Flaenoriaethau Strategol, Cyflawniad Gweithredol ac Ariannol, Rhagolwg i’r Dyfodol y sefydliad a chynnwys pwysig o ran y prif Ddatganiad o Gyfrifon sy’n dilyn o fewn yr adroddiad.

**LLYWODRAETHU A CHYFRIFOLDEBAU**

Mae 2019-2020 yn nodi wythfed flwyddyn cyflwyno Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Lloegr, yn dilyn gweithredu Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mewn egwyddor, sefydlodd y Ddeddf y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl fel corfforaethau undyn, gyda’r ddau'n endidau cyfreithiol ar wahân sy'n gallu cyflogi staff, llunio cytundebau a chymryd rhan mewn achosion cyfreithiol. Cyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw sicrhau bod yr heddlu yn effeithiol ac yn effeithlon a bydd yn comisiynu’r Prif Gwnstabl i wneud hyn. Mae’r Ddeddf hefyd wedi sefydlu Paneli’r Heddlu a Throsedd ar gyfer pob ardal blismona sydd yn gyfrifol am ddal y Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn atebol am eu penderfyniadau a’u gweithredoedd.

Yn ymarferol, mae’n ofynnol i’r ddwy gorfforaeth undyn baratoi eu Datganiad o Gyfrifon statudol endid sengl ar wahân, yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol a’r Safonau Hysbysu Ariannol Rhyngwladol perthnasol. Mae hefyd yn ofynnol i’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynhyrchu set o Gyfrifon Grŵp. Nodir y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel y sefydliad daliannol ac ystyrir y Prif Gwnstabl yn endid sydd yn eiddo’n llawn i’r sefydliad daliannol. Mae natur strwythur y grŵp wedi’i bennu mewn deddfwriaeth a chaiff cyfrifon y grŵp eu paratoi yn unol â’r arfer cyfrifyddu statudol.




Mae'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2019-2020 yn rhoi darlun o sefyllfa ariannol y grŵp ar 31 Mawrth 2020 ynghyd â chrynodeb o'r incwm a'r gwariant yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2020.

**BLAENORIAETHAU STRATEGOL GOGLEDD CYMRU**

Mae Gogledd Cymru yn cael ei hystyried fel un o’r mannau harddaf i fyw ynddi ac ymweld â hi yn y DU.

Gyda phoblogaeth o 687,500, mae ardal heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys ardal 6,300 cilomedr sgwâr a oedd yn ymestyn o Bronington yn y Dwyrain i Aberdaron yn y Gorllewin ac o Fae Cemaes yn y Gogledd i Aberdyfi yn y De.

Mae ardal yr Heddlu yn cynnwys chwe sir ddaearyddol sef Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae’n cael ei gwasanaethu gan un Bwrdd Iechyd sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gan Wasanaeth ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae’r ardal hefyd yn cael ei gwasanaethau gan yr Ymddiriedolaeth Brawf Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Mae'r ardal yn cwmpasu ardaloedd trefol a gwledig gan gynnwys dwy ddinas, Parc Cenedlaethol Eryri, dau borthladd arwyddocaol yng Nghaergybi ar Ynys Môn a Mostyn yn Sir y Fflint, rhanbarthau diwydiannol a nifer o drefi prysur. Mae'r trefi hyn yn denu llawer iawn o ymwelwyr yn ystod misoedd yr haf.

Mae prif amcanion a blaenoriaethau cyflawni wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021. Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun wedi'u datblygu mewn ymateb i'r meysydd sydd â'r bygythiad, risg a niwed mwyaf yn wynebu Gogledd Cymru yn dilyn proses ymgynghori helaeth.

Gosodwyd y meysydd blaenoriaeth canlynol o fewn Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021:

- Cam-drin Domestig
- Caethwasiaeth Fodern
- Troseddau Trefnedig
- Cam-drin Rhywiol
- Cyflawni Cymdogaethau Diogelach

Mae Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl yn gosod allan y gweithrediadau penodol y gwnaiff Heddlu Gogledd Cymru eu cymryd wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn. O bwys yw'r pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth i ymdrin â nhw.

Mae holl feysydd blaenoriaeth yn cyflwyno problemau sydd tu hwnt i blismona a gellir ond cyflwyno ymateb effeithiol mewn partneriaeth a effeithir yn y diagram isod:




Mae Cynllun Heddlu a Throsedd 2017 2021 ar gael ar wefan SCHTh https://www.northwales-pcc.gov.uk

Amlinellir 'cynllun ar ddalen' 2019-2020 y Prif Gwnstabl isod:




**<u>CYFLAWNIAD GWEITHREDOL</u>**

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawniad ariannol y flwyddyn. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig ystyried prif amcanion a chyflawniad a amlinellir yng Nghynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021. Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun wedi cael eu datblygu mewn ymateb i'r meysydd sy'n peri'r bygythiad, risg a niwed mwyaf sy'n wynebu Gogledd Cymru yn dilyn proses ymgynghori helaeth.

Rhai o'r pethau a gyflawnwyd yw:

- Cyflwyno Tîm Rhwystro'r Heddlu, er mwyn targedu grwpiau trosedd trefnedig;
- Cynyddu'r adnoddau a ddyrennir i ymdrin â throsedd difrifol a threfnedig;
- Cynyddu'r adnoddau a ddyrennir i ymdrin â cham-drin domestig;
- Cynyddu'r adnoddau a ddyrennir i reoli troseddwyr difrifol a threisgar;
- Cynyddu ymarferoldeb y tîm sy'n ymdrin â cham-fanteisio'n droseddol ar blant;
- Gwella a chynyddu gallu Taser yr Heddlu;
- Rhoi cyllid ar gyfer ymyrraeth gynnar, er mwyn cynorthwyo plant i ymdrin â phrofiadau niweidiol;
- Recriwtio Swyddogion ychwanegol mewn ymateb i'r cynnydd uchod a'r 20 swyddog cychwynnol a ddyrannwyd i Heddlu Gogledd Cymru fel rhan o gyfnod 1 Ymgyrch Uplift (cyhoeddiad y llywodraeth i gael cynnydd o 20,000 o swyddogion yn y tair blynedd nesaf). Bydd 42 o Swyddogion ychwanegol pellach wedi'u recriwtio erbyn mis Mehefin 2020.

Mae galw sylweddol wedi'i roi ar y gwasanaeth heddlu yn 2019-2020 ynghyd â gweithgarwch a bygythiadau cynyddol mewn troseddau terfysgol, cam-fanteisio rhywiol a throseddau seiber. Yn ystod chwarter olaf 2019-2020 roedd rhaid i'r Heddlu ail-alinio ei flaenoriaethau i ymdrin â gofynion plismona COVID-19, wrth hefyd warchod pobl fregus mewn cymdeithas yn unol â'r blaenoriaethau yng Nghynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn creu Adroddiad Blynyddol er mwyn manylu ar gyflawniad am y flwyddyn a geir yma. <https://www.northwales-pcc.gov.uk/en/Information/What-our-priorities-are-and-how-we-are-doing.aspx>

Mae heriau'n parhau i fodoli i'r Gwasanaeth Heddlu oherwydd y lefel o doriadau dros yr wyth mlynedd diwethaf ynghyd ag ansicrwydd parhau ynghylch arian gan y llywodraeth. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i weithredu'r strategaeth gyllidebol i gyflawni'r arbedion angenrheidiol dros y cyfnod. Fel rhan o hyn, mae wedi nodi a chyflwyno £2.8 miliwn o arbedion yn ystod 2019-2020. Fel rhan o'r strategaeth, ystyrir y lefel o gronfeydd wrth gefn a darpariaethau a

gedwir ar hyn o bryd yn ddarbodus. Mae'r gronfa wrth gefn gyffredinol o £5.189 miliwn ychydig dros 3% o'r gwariant refeniw net am y flwyddyn sydd o fewn yr ystod dderbyniol o 3% i 5% fel y diffinnir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**RISG CORFFORAETHOL**

Rhennir Fframwaith Rheoli Risg ar y Cyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl er mwyn nodi, gwerthuso a rheoli'r risgiau a wynebir gan y sefydliadau priodol. Mae'r fframwaith yn diffinio'r camau sy'n angenrheidiol i gael y ddealltwriaeth angenrheidiol i gynorthwyo gwneud penderfyniadau effeithiol.

Mae enghreifftiau o Risgiau Corfforaethol a nodwyd, olrheiniwyd ac a fonitrwyd gan y Fframwaith ar y Cyd yn ystod 2019-20 yn cynnwys: Adnoddau ariannol digonol sydd ar gael i gyflawni cynlluniau gwasanaeth: effeithiau posibl ymadael â'r UE ac effaith Covid-19 ar gyflawni gwasanaeth.

**CYFLAWNIAD ARIANNOL**

**Cyllideb 2019-2020**

Gweithredodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyda chyllideb refeniw net o £154.264 ar gyfer 2019-2020 a osodwyd yn ffurfiol mewn cyfarfod o'r Panel Heddlu a Throsedd ar 28 Ionawr 2019 ac roedd yn cyfateb i gynnydd o 5.32% i'r gyllideb refeniw sylfaenol sy'n cynnwys:

- Cynnydd o 8.42% mewn praeseptau 8.42%;
- Cynnydd o 2.10% mewn cyllid gan y Llywodraeth;

Roedd y cynyddiadau hyn yn rhoi cyd-destun am gostau chwyddiannol uwch na'r arferol o £5.223m (gan gynnwys costau cyflogwr pensiwn ychwanegol o £2.088m) a thwf ychwanegol o £2.614m. Cyflawnwyd arbedion o £2.832m hefyd yn ystod y flwyddyn a ganiataodd i £2.793m gael ei ail-fuddsoddi mewn darparu gwasanaeth.

**Alldro Refeniw Net a Throsglwyddiad Net i Gronfeydd wrth Gefn 2019-2020**

Gwnaeth gwariant gweithredu net presennol 2019-2020 alldroi ar £152.743m gan arwain at drosglwyddiad net i gronfeydd refeniw Grŵp wrth gefn o £1.521m sydd o fewn 1% o'r Gyllideb Refeniw Net o £154.264m (Ffynhonnell: Dadansoddiad Gwariant a Chyllid Grŵp 2019-2020). Rhennir y trosglwyddiad i gronfeydd wrth gefn fel yr isod:

| | £m |
|---|---|
| Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | 0.724 |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol | 0.797 |
| **Trosglwyddiad Net i Gronfeydd Grŵp wrth Gefn** | **1.521** |

Crynhoir y symudiad net cyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd isod:

| | £m | £m |
|---|---|---|
| **Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar 31 Mawrth 2019** | | **19.250** |
| Cronfa gyfalaf wrth gefn o refeniw | 1.743 | |
| Trosglwyddiadau arfaethedig i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd | 0.441 | |
| **Trafodion Refeniw** | | **2.184** |
| Cronfa Gyfalaf wrth Gefn | -0.801 | |
| Rheoli Newid | -0.659 | |
| **Trafodion Cyfalaf** | | **-1.460** |
| **Symudiad Net** | | **0.724** |
| **Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar 31 Mawrth 2020** | | **19.974** |

Cyd-destun pellach am y symud y gronfa wrth gefn a glustnodwyd o £0.724m oedd:

- £2.184m yn berthnasol i drafodion refeniw yn 2019-2020 gyda £0.441m yn symudiad net arfaethedig ac ymroddedig i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chyfraniad pellach o £1.743m i'r Gronfa Gyfalaf wrth Gefn yn cael ei wneud o danwariant refeniw yn y flwyddyn;
- £1.460m yn berthnasol i gyfraniadau arfaethedig gan gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ariannu gwariant cyfalaf sy'n cael ei gymhwyso gan wrthbwyso'r mwyafrif o'r ffigwr uchod. O'r cyfanswm hwn, ariannwyd £0.801m o'r Gronfa Gyfalaf wrth Gefn a £0.659m o Reoli Newid.

Mae'r cynnydd o £0.797m i'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn cynrychioli ad-daliad o symiau ychwanegol a godwyd yn 2018-2019 o ran trin y Cyfraniad Pensiwn Staff Cyfradd Eilradd.

**Dadansoddiad o Alldro v Cyfanswm Gwariant Gweithredol Cyllidebol**

Cynyddodd gwariant gweithredu am y flwyddyn 3.8% ar y flwyddyn flaenorol i £152.743m (2019: £147.7m). Fodd bynnag, ar y cyfan roedd amrywiant tanwariant o £4.357m i wariant gweithredu cyllidebol o £157.100m. Mae'r amrywiant hwn yn cael ei egluro ymhellach isod.

Roedd tanwariant gwariant Refeniw o £2.281m ar y Gwariant Gweithredu Cyllidebol o £157.100m:

| | **£m** |
|---|---|
| Incwm Ychwanegol a Dderbyniwyd | 1.737 |
| Tanwariant gweithwyr | 0.163 |
| Tanwariant eiddo | 0.226 |
| Tanwariant cludiant | 0.181 |
| Chwyddiant ac Arian wrth Gefn Cyffredinol | 0.420 |
| Gorwariant Cyflenwadau a Gwasanaethau | -0.495 |
| Tanwariant net eraill | 0.049 |
| **Cyfanswm tanwariant refeniw** | **2.281** |

Ar ben hyn roedd tanwariant o ran Cyllid Cyfalaf o £2.076m:

| | **£m** |
|---|---|
| Cyllid Cyfalaf Vs Alldro | 2.076 |
| **Cyfanswm amrywiant Cyllid Cyfalaf** | **2.076** |
| | |
| **CYFANSWM AMRYWIANT** | **4.357** |

Rhoddir y sefyllfa alldro ar wariant a chyllido yn y tabl isod gydag eglurhad pellach o'r amrywiannau allweddol i ddilyn:

| PRESENNOL 2018-2019 £m | GWARIANT REFENIW | CYLLIDEB 2019-2020 £m | PRESENNOL 2019-2020 £m | AMRYWIANT + (-) £m |
|---|---|---|---|---|
| 125.640 | COSTAU GWEITHWYR | 132.510 | 132.819 | 0.309 |
| 4.608 | PENSIYNAU'R HEDDLU | 3.305 | 2.833 | -0.472 |
| 32.592 | COSTAU RHEDEG I RAI NAD YDYNT YN STAFF | 34.149 | 33.817 | -0.332 |
| 2.844 | CYLLID CYFALAF | 2.998 | 2.998 | 0 |
| 0.970 | CYLLID CYFALAF O GRONFEYDD WRTH GEFN | 3.536 | 1.460 | -2.076 |
| 1.208 | CRONFA DIOGELWCH CYMUNEDOL | 1.567 | 1.518 | -0.049 |
| 2.534 | PARTNERIAETHAU | 2.785 | 2.785 | 0 |
| -23.177 | INCWM | -23.750 | -25.487 | -1.737 |
| **147.219** | **GWARIANT GWEITHREDU** | **157.100** | **152.743** | **-4.357** |
| 1.014 | TROSGLWYDDIADAU I/-O GRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD (REFENIW) | -0.097 | 2.184 | 2.281 |
| -0.970 | TROSGLWYDDIADAU I/-O GRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD (CYFALAF) | -3.536 | -1.460 | 2.076 |
| -0.797 | TROSGLWYDDIAD I'R/-O'R GRONFA WRTH GEFN GYFFREDINOL | 0.797 | 0.797 | 0 |
| **146.466** | **GWARIANT NET** | **154.264** | **154.264** | **0** |
| | **ARIANNWYD GAN:** | | | |
| 40.025 | GRANT YR HEDDLU | 40.896 | 40.896 | 0 |
| 11.758 | CYFRADDAU ANNOMESTIG CENEDLAETHOL | 11.841 | 11.841 | 0 |
| 10.364 | GRANT CYMORTH REFENIW | 10.655 | 10.655 | 0 |
| 9.580 | GRANT LLAWR | 9.842 | 9.842 | 0 |
| 74.739 | TRETH GYNGOR | 81.030 | 81.030 | 0 |
| **146.466** | **CYFANSWM ARIANNU** | **154.264** | **154.264** | **0** |

**Dadansoddiad Pellach o Alldro Refeniw – Tanwariant o £2.281m**

Roedd y prif resymau am y tanwariant a amlinellwyd uchod fel a ganlyn:

**Costau gweithwyr – Tanwariant o 0.163m**
Mae'r amrywiant net yn cynnwys nifer o eitemau: gorwariant o £0.838m mewn cyflog a goramser swyddogion – yn bennaf o ran yr heddlu yn bod yn rhagweithiol wrth recriwtio swyddogion ychwanegol er mwyn bodloni targed Ymgyrch Uplift – mae'n cael ei alldroi a mwy gan danwariant sy'n cynnwys cyflog, goramser a lwfansau staff (tanwariant o £0.276m), hyfforddiant a chostau eraill (tanwariant o £0.253m) a chostau pensiwn uniongyrchol (tanwariant o £0.472m).

**Costau rhedeg i Rai Nad Ydynt yn Staff**
Mae'r prif amrywiannau'n cael eu dadansoddi isod:

- **Eiddo – Tanwariant o £0.226m**
  Oedwyd gwaith penodol yn Llandygai a gwaith diogelwch eraill o £0.176m. O ganlyniad, yn hytrach na thynnu £0.141m o Gronfa wrth Gefn Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau, fel y bwriadwyd, er mwyn ariannu'r prosiectau hyn, cynyddwyd y gronfa wrth gefn £0.046m.
- **Cludiant – Tanwariant o £0.181m**
  Roedd y tanwariant yn unol â'r amcangyfrifon blaenorol gyda'r tanwariant mwyaf o'r Lwfansau Ceir a Theithio (£0.125m).
- **Cyflenwadau a Gwasanaethau – Gorwariant o £0.495m**
  Y gorwariant oed effaith net nifer o elfennau, y mwyaf o'r rhain oedd £0.140m am TG a Chyfathrebiadau.
- **Chwyddiant ac Arian wrth Gefn Cyffredinol – Tanwariant o £0.420m**
  Roedd hwn yn parhau heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn yn unol ag amcangyfrifon blaenorol.

**Incwm – Incwm ychwanegol o £1.737m**
Mae eitemau arwyddocaol sy'n cymell yr amrywiant yn cynnwys:

- **Incwm secondiad – £0.481m** yn fwy na'r gyllideb.
- **Incwm erlyniadau a arweiniwyd gan yr heddlu – £0.148m** yn fwy na'r gyllideb.
- **Incwm ffioedd dysgu – £0.097m** yn fwy na'r gyllideb.
- **Ad-daliadau ychwanegol - £0.340m** yn fwy na'r gyllideb o ran Trefnu drwy Gontract Mewnol Rhanbarthol, Cynghrair Drylliau Tanio a Gan Bwyll.
- **Incwm grant ychwanegol – £0.242m** wedi'i gynnwys yn Ch4 gan gynnwys gweithredu Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu (PEQF); teclynnau Taser ychwanegol a grant ymchwiliadau seiber.

**Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Gorwariant o £0.020m**
Yn gynwysedig uchod mae cost Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Y gyllideb ddiwygiedig am y flwyddyn oedd £0.834m a'r alldro oedd £0.854m. Mae'r gorwariant yn berthnasol i'r Prosiect Ymgysylltu Ieuenctid (hysbysiad penderfyniad DM.2019/11).

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau i gynorthwyo'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Ar ben cyllideb Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd, gweinyddwyd £2.785 o wariant grant gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd hyn yn cynnwys grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gynorthwyo dioddefwyr trosedd, a gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen VAWDASV.

## Dadansoddiad Pellach o Gyllid Cyfalaf

Yn allweddol i'w gyllid, roedd y Rhaglen Gyfalaf yn cynnwys cyllid arfaethedig o £3.536m o gronfeydd wrth gefn o'i gymharu â swm gwirioneddol o £1.460m a gymhwyswyd yn y flwyddyn sy'n golygu fod cronfeydd wrth gefn yn £2.076 yn uwch nag a gynlluniwyd, o ganlyniad. Er bod y swm hwn yn ariannu cyfalaf, mae rhaid iddo gael ei gyfrif o fewn y cyfrif refeniw.

Gosodwyd y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019-2020 ym mis Ionawr 2020 fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac fe gytunwyd arno fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf. Roedd amcangyfrifon gwariant cyfalaf am y flwyddyn yn £9.176 miliwn ac roedd y gwariant gwirioneddol am y flwyddyn yn £6.374 miliwn.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwariant cyfalaf a'r nawdd ar gyfer 2019-2020:

| GWARIANT CYFALAF | CYLLIDEB 2019-2020 | PRESENNOL 2019-2020 | AMRYWIANT + (-) |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| Gwaith ar Eiddo/Ystadau | 1.371 | 1.079 | -0.292 |
| Offer | 0.300 | 0.259 | -0.041 |
| Cerbydau | 2.042 | 1.619 | -0.423 |
| TG a Chyfathrebiadau | 5.463 | 3.417 | -2.046 |
| **GWARIANT NET** | **9.176** | **6.374** | **-2.802** |
| **ARIANNWYD GAN:** | | | |
| Grantiau Cyfalaf y Swyddfa Gartref | 0.462 | 0.472 | 0.010 |
| Cyfraniad Refeniw | 2.269 | 2.271 | 0.002 |
| Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn | 3.536 | 1.460 | -2.076 |
| Derbynebau Cyfalaf | 0.475 | 0.310 | -0.165 |
| Benthyca a ariannwyd eisoes mewn refeniw | 2.434 | 1.861 | -0.573 |
| **CYFANSWM CYLLID CYFALAF** | **9.176** | **6.374** | **-2.802** |

Amlinellir elfennau allweddol o'r rhaglen gyfalaf sy'n cymell y ffigyrau hyn isod:

**Gwaith Adeiladu ac Ystadau** – Aeth Pencadlys Rhanbarthol newydd y Dwyrain yn Llai ar waith yn llawn yn ystod 2018-2019 gydag ail ran y cynllun sef cyfleuster Canol Tref Wrecsam yn mynd ar waith ym mis Gorffennaf 2019. Mae

tanwariant o £0.292m yn berthnasol i gost terfynol Prosiect Wrecsam ac oedi mewn dechrau adnewyddu Gorsaf Heddlu Pwllheli oherwydd oedi TG i'r Orsaf Heddlu dros dro a COVID-19 wedi hynny. Aildrefnwyd y gwaith i ddechrau ar 15 Mehefin 2020 gyda rheoliadau Iechyd a Diogelwch COVID mewn lle ar y safle.

**Cerbydau ac Offer** – Symudodd y rhaglen amnewid cerbydau yn dda yn 2019-2020. Darparwyd cerbydau ychwanegol ar gyfer swyddi twt, fel y Tîm Rhwystro. Roedd oedi mewn cyflwyno 22 o gerbydau ddiwedd mis Mawrth oherwydd COVID. Mae'r rhain wedi'u hanfon i'r Ganolfan Gomisiynu erbyn hyn ac maent yn cyfrif am y £0.423m o'r tanwariant yn 2020-2021.

**TG a Chyfathrebiadau** - Dechreuodd Rhaglen Uwchraddio Digidol a TG trawsbynciol sylweddol yn 2019-2020. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu gliniaduron a chamerâu corff personol i swyddogion a oedd cyn hynny wedi rhannu offer, prosiectau cenedlaethol ac uwchraddiadau a datblygiadau llai eraill o fewn seilwaith yr Heddlu. Mae'r tanwariant o ychydig dros £2m yn adlewyrchu'r cymhlethdod a'r rhaglen uchelgeisiol a osodwyd ddechrau'r flwyddyn. Mae'n cynnwys rhyngberthynas rhwng y cynlluniau unigol. Mae gwaith ar y rhaglen wedi parhau yn 2020-2021 gyda'r rhaglen yn parhau'n edefyn allweddol o gyflawni ei ymateb i Covid-19 a'i strategaeth ehangach.

Mae rhai o'r prosiectau'n cael eu cymell yn genedlaethol a all arwain at oedi tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr Heddlu.

- Elfen fwyaf rhaglen TG 2019-2020 oedd darparu swyddogion gyda gliniaduron 2 mewn 1 fel rhan o Brosiectau Swyddogion mewn Cyswllt a Gweithle Digidol. Roedd y rhain yn cael eu dosbarthu yn chwarter olaf 2019-2020 a gynorthwyodd gyda phlismona COVID, gyda'r prosiectau'n parhau i 2020-2021.
- Prynwyd a rhannwyd camerâu corff newydd personol ychwanegol wedi'u huwchraddio yn 2019-2020.
- Y tanwariant un prosiect mwyaf oedd ar y Rhaglen Alluogi Genedlaethol (NEP). Mae'r Rhaglen wedi'i llunio i ddarparu offer a gallu i blismona sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol (gan gynnwys offer fel Office365). Galluogir cydweithredu ar lefel plismona cenedlaethol gan ganiatáu cyfathrebu digidol a thechnegol symudol i'w defnyddio'n well yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae'r oedi, yn rhannol, yn deillio o'r cymhlethdod o weithredu hyn ar lefel genedlaethol gyda gwaith yn parhau yn 2020-2021.
- Adolygwyd y rhaglen Ddigidol gyffredinol yn ystod Chwarter 4 er mwyn sicrhau ei fod yn addas yn Strategol. Gwnaeth blaenoriaethau llywodraethu a rhaglen cyffredinol barhau i gyfateb i anghenion y sefydliad. Oedwyd nifer o brosiectau llai gan ddisgwyl gweithredu'r prosiectau mwy sy'n parhau'n ffrwd waith hanfodol i'r sefydliad yn ehangach wrth symud i 2020-2021. Adolygir y prosiectau llai eto yn ystod 2020-2021 er mwyn asesu gofynion ymhellach.
- Yn ystod cyfnod cyfyngiadau symud COVID, gosodwyd gohiriad ar Newidiadau TGCh ar ddatblygiadau TG nad oedd yn berthnasol i COVID.

## CYSONI CYLLID SYDD AR GAEL A GAAP

Mae'r adrannau uchod yn dangos sut mae cyllid a oedd ar gael i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (h.y. grantiau llywodraeth a'r dreth gyngor) am y flwyddyn wedi'i ddyrannu er mwyn darparu gwasanaethau o gymharu â'r gyllideb wreiddiol a osodwyd. Ar y sail hon y rheolir gwariant ac incwm o ddydd i ddydd.

Fodd bynnag, mae'r prif ddatganiadau sy'n dilyn o fewn y Datganiad o Gyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'n dangos y gost gyfrifyddu am y flwyddyn yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant.

Er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth wrth adolygu gwybodaeth y Datganiad o Gyfrifon sydd i ddilyn, mae tabl isod yn dangos cysoniad rhwng y ddau ddull cyfrifyddu a gyfeirir atynt uchod gyda Nodiadau i'r Cyfrifon penodol yn rhoi gwybodaeth bellach os oes angen.

| Fel y tabl uchod | £m | £m | £m | £m | £m | Tudalen 19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nodyn 7 Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau. | | Nodyn 10 | | |
| **Adroddiad Naratif** | **Presennol** | **Addasiadau i Refeniw** | **Addasiadau rhwng Refeniw a Chyfalaf** | **Ail-linio incwm a gwariant Buddsoddiadau** | **Grŵp** | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** |
| **Gwariant Gweithredu** | **152.743** | 29.090* | -6.100# | **-0.926** | **174.807** | **Cost Net Gwasanaethau** |
| | | 0.380 | -0.355 | 0 | **0.025** | Gwariant Gweithredu Eraill (Nodyn 9) |
| | | 46.193 | 0 | 0.926 | **47.119** | Incwm a Gwariant Cyllid a Buddsoddi (Nodyn 10) |
| | | -20.371 | 0 | 0 | **-20.371** | Grant y Swyddfa Gartref sy'n daladwy tuag at gost budd-dal ymddeol (CIES a Nodyn 34) |
| **Ariannwyd gan: Grant yr Heddlu, NNDR, RSG, Treth Gyngor** | **-154.264** | -0.472 | 0 | 0 | **-154.736** | Incwm Trethiant a Grant Amhenodol (Nodyn 11) |
| **Gwariant Net** | **-1.521** | **54.820** | **-6.455** | 0 | **46.844** | **Gweddill (-)/Diffyg (+) ar Ddarparu Gwasanaeth** |
| | | **48.365** | | | | |
| **Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn** | **1.521** | | | | | |

* mae'n cynnwys £6.354m o gostau am ddibrisio ac amharu asedau anghyfredol, £0.833m o dâl gwyliau a £21.903m o addasiadau costau pensiwn
# yn cynnwys -£2.369m o ddarpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyled a -£3.731m o wariant cyfalaf yn cael ei ariannu o falansau refeniw

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynllun PFI ar gyfer y pencadlys Rhanbarthol yn Llanelwy. Mae'r nawdd ar gyfer y cynllun hwn yn parhau i gael ei fodloni o grantiau'r llywodraeth, y gyllideb refeniw a chronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi. Gwelir manylion y cynllun a'r ddyled yn Nodyn 31.

Gwelir manylion llawn o'r gwariant ac ariannu cyfalaf yn Atodiad A.

**<u>CRONFEYDD WRTH GEFN, DARPARIAETHAU, FFYNONELLAU INCWM A BENTHYCA:</u>**

**Cronfeydd wrth Gefn**

Ceir y symudiad yng nghronfeydd wrth gefn y Grŵp yn y tabl isod:

**Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy** – mae'r rhain ar gael ar gyfer gwariant i'r dyfodol (ceir manylion pellach yn Nodyn 7 a 8)

| Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn 2019-20 | Balans ar 31 Mawrth 2019 £m | Ailddatgan 31 Mawrth 2019 £m | Trosglwyddiadau Allan 2019-2020 £m | Trosglwyddiadau i Mewn 2019-2020 £m | Cyfanswm Symudiad £m | Balans ar 31 Mawrth 2020 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa wrth Gefn Gyffredinol | 4.392 | 0 | 0 | 0.797 | 0.797 | 5.189 |
| **Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd** | | | | | | |
| Cronfa Gyfalaf wrth Gefn | 2.060 | 0 | -0.801 | 1.743 | 0.942 | 3.002 |
| Cronfa wrth Gefn Pensiwn Afiechyd | 0.915 | 0 | 0 | 0.200 | 0.200 | 1.115 |
| Cronfa wrth Gefn PFI | 4.333 | -1.200 | 0 | 0.044 | -1.156 | 3.177 |
| Cronfa wrth Gefn Digwyddiadau Difrifol | 2.435 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2.435 |
| Cronfa Yswiriant wrth Gefn | 1.173 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1.173 |
| Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau | 1.033 | 1.200 | -0.131 | 0.177 | 1.246 | 2.279 |

| Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn 2019-20 (parhad) | Balans ar 31 Mawrth 2019 £m | Ailddatgan 31 Mawrth 2019 £m | Trosglwyddiadau Allan 2019-2020 £m | Trosglwyddiadau i Mewn 2019-2020 £m | Cyfanswm Symudiad £m | Balans ar 31 Mawrth 2020 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Balansau Partneriaethau wrth Gefn | 0.653 | 0 | 0 | 0.021 | 0.021 | 0.674 |
| Cronfa Rheoli Newid wrth Gefn | 5.949 | 0 | -0.659 | 0 | -0.659 | 5.290 |
| Cronfa Hyfforddiant wrth Gefn | 0 | 0 | 0 | 0.100 | 0.100 | 0.100 |
| Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd | 0.461 | 0 | 0 | 0.049 | 0.049 | 0.510 |
| Cronfa Gyfreithiol wrth Gefn (SCHTh) | 0.056 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.056 |
| Cronfa wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd | 0.182 | 0 | -0.019 | 0 | -0.019 | 0.163 |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd** | **19.250** | **0** | **-1.610** | **2.334** | **0.724** | **19.974** |
| **Cyfanswm Cronfeydd Refeniw wrth Gefn** | **23.642** | **0** | **-1.610** | **3.131** | **1.521** | **25.163** |
| **Cronfa Derbynebau Cyfalaf wrth Gefn** | **0.009** | **0** | **-0.310** | **0.355** | **0.045** | **0.054** |
| **Cyfanswm holl gronfeydd wrth gefn** | **23.651** | **0** | **-1.920** | **3.486** | **1.566** | **25.217** |

Mae’n ofynnol i gronfeydd wrth gefn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fodloni unrhyw ddigwyddiadau nas rhagwelwyd, ariannu cynlluniau refeniw a chyfalaf yr Heddlu dros y cyfnod nesaf a hwyluso newidiadau a datblygiadau sy'n ofynnol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a bodloni galwadau newydd.

Mae heriau’n parhau i fodoli i’r Gwasanaeth Heddlu oherwydd y lefel o doriadau dros yr wyth mlynedd diwethaf ynghyd ag ansicrwydd parhau ynghylch arian gan y llywodraeth. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i weithredu'r strategaeth gyllidebol i gyflawni'r arbedion angenrheidiol dros y cyfnod. Fel rhan o hyn, mae wedi nodi a chyflwyno £2.8 miliwn o arbedion yn ystod 2019-2020.

Fel rhan o'r strategaeth, ystyrir y lefel o gronfeydd wrth gefn a darpariaethau a gedwir ar hyn o bryd yn ddarbodus. Mae'r gronfa wrth gefn gyffredinol o £5.189 miliwn ychydig dros 3% o'r gwariant refeniw net am y flwyddyn sydd o fewn yr ystod dderbyniol o 3% i 5% fel y diffinnir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Rhestrir elfennau allweddol yn 2019-2020 i roi sylw iddynt o ran Cronfeydd wrth Gefn a chyllid tymor hir arall isod:

**Cronfa Gyfalaf wrth Gefn – Trosglwyddiad o £1.743m i mewn**

Disgwylir y bydd gofyn am fuddsoddiad ychwanegol yn system Rheoli’r Heddlu yn y dyfodol agos. Dyma’r prif reswm clustnodi’r swm ychwanegol yn y Gronfa Gyfalaf wrth Gefn. Mae trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn yn cael eu crynhoi o fewn nodyn 8 i’r cyfrifon hyn.

**Cronfa Digwyddiad Difrifol wrth Gefn – Dyrannu £0.8m yn 2020-2021 yn sgil Covid-19**

Tra cafodd pandemig Covid-19 effaith cyfyngedig yn ystod 2019-2020, gyda’r cyfyngiadau symud yn dechrau ond wythnos cyn dechrau’r flwyddyn ariannol, disgwylir y bydd effaith ar incwm a gwariant yn ystod 2020-2021 o ganlyniad i hyn. Mae bron i draean o’r gweithlu cyffredinol yn parhau i weithio o adref, gan fynd i eiddo’r heddlu ond yn achlysurol os oes angen. Mae swyddogion heddlu yn derbyn teclynnau rhyngrwyd, ac yn gallu gwneud o’u gwaith draw o’n hadeiladau. Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyhoeddi ei Gynllun Ymateb Covid-19 a llawer o’r gweithrediadau o hyn yn cael eu cynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a geir tuag at ddiwedd y Datganiad o Gyfrifon.

Mae dyraniad cychwynnol o £0.8m o gyllid ychwanegol wedi’i wneud o Gronfa Digwyddiadau Difrifol wrth Gefn 2020-2021 er mwyn ariannu costau COVID. Roedd y mwyafrif o hyn yn berthnasol i Gyfarpar Diogelu Personol (PPE). Roedd gohiriad ar absenoldeb a hyfforddiant yn chwarter cyntaf 2020-2021. Galluogodd hyn i adnoddau ychwanegol fod ar gael er mwyn ymdrin â phroblemau COVID.

Parhaodd recriwtio Swyddogion Heddlu gydag arferion cadw pellter gan ddefnyddio technoleg. Roedd yr Heddlu yn gallu prynu PPE ychwanegol drwy gyflenwyr a oedd eisoes yn bodoli a rhai newydd, gan weithredu o fewn trefniadau'r llywodraeth a oedd ar waith. Roedd staff cefnogi a oedd yn gweithio o'r cartref yn gallu cymhwyso'r un rheolaethau ag y byddent yn y swyddfa drwy ddefnyddio technoleg.

Cynhaliwyd llif arian a hylifedd drwy sicrhau benthyciad tymor byr ar sail llif arian amcanol, a chadw balans uwch o fewn y cyfrif cyfredol. Bydd y dyraniad cychwynnol o £0.8m yn cael ei adolygu'n ystod y flwyddyn. Mae natur COVID yn golygu fod costau ychwanegol ond hefyd llai o gostau a chostau gohiriedig mewn rhai meysydd. Mae Bwrdd Adfer COVID wedi cael ei sefydlu i reoli risgiau presennol ac yn y dyfodol a manteisio ar unrhyw arferion gweithio a fydd yn darparu effeithlonrwydd wrth fynd ymlaen.

**Effaith Pensiynau ar Gronfeydd wrth Gefn**

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gronfa wrth gefn negyddol ar ei Fantolen yn codi o drin Buddion Gweithwyr IAS 19. Mae hyn o ran y Cynlluniau Pensiwn Swyddogion Heddlu a dyledion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Staff yr Heddlu. Mae hyn yn ddiffyg o £1.738 biliwn ar 31 Mawrth 2020. Nid yw Cynlluniau Pensiynau Swyddogion Heddlu yn cael eu hariannu ac mae'r swm o -£1.684 biliwn sydd i'w weld yn y gronfa wrth gefn yn mynegi swm a fyddai'n ofynnol i gael cynllun wedi'i ariannu'n llawn. Mae'r ddyled hon yn warantedig gan y Swyddfa Gartref. Mae gan Gynllun Llywodraeth Leol Staff yr Heddlu gronfa i ariannu dyledion yn y dyfodol, ac mae'r gronfa wrth gefn o -£0.054 biliwn yn adlewyrchu'r diffyg amcangyfrifedig yn y gronfa ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Ceir manylion pellach yn Nodyn 34 yn y cyfrifon. Roedd Cynllun Pensiwn yr Heddlu yn destun ailbrisiad actiwaraidd ym mis Mawrth 2019. Roedd Cynllun Llywodraeth Leol Staff yr Heddlu yn destun ailbrisiad actiwaraidd ym mis Mawrth 2020. Mae canlyniadau'r rhain wedi'u hymgorffori o fewn y Datganiad o Gyfrifon.

**Balansau a Chronfeydd Cyfalaf wrth Gefn:**

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r balansau cyfalaf a'r cronfeydd wrth gefn a gedwir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd:-

| BALANSAU A CHRONFEYDD CYFALAF WRTH GEFN | BALANS AGORIADOL 01/04/2019 £'000 | SYMUDIAD £'000 | BALANS CLO 31/03/2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| **CRONFEYDD CYFALAF WRTH GEFN DEFNYDDIADWY** | | | |
| Cronfa Derbynebau Cyfalaf wrth Gefn | 9 | 45 | 54 |
| **CRONFEYDD CYFALAF WRTH GEFN ANNEFNYDDIADWY** | | | |
| Cronfa Adbrisio wrth Gefn | 19,823 | 1,626 | 21,449 |
| Cyfrif Addasu Cyfalaf | 19,342 | 650 | 19,992 |

Yn ystod y flwyddyn adolygodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd brisiadau asedau 10 eiddo o fewn y portffolio.

**Darpariaethau**

| DARPARIAETHAU | BALANS AGORIADOL £'000 | SYMUDIAD £'000 | BALANS CLO £'000 |
|---|---|---|---|
| CRONFA YSWIRIANT | 872 | -34 | 838 |

**Ffynonellau Incwm**

Dengys y cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o le daw arian y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac ar beth gaiff ei wario. Derbyniwyd y mwyafrif o'i incwm gan Grantiau'r Llywodraeth ac mae'r praesept, a gaiff ei godi'n lleol ac sy'n cael ei gasglu gan yr Awdurdodau Unedol ynghyd â'u treth gyngor.

Y canlynol yw lefelau cyfran yr Heddlu o'r Dreth Gyngor a osodwyd yn ystod blynyddoedd ariannol 2018-2019 a 2019-2020:

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018-2019 | 172.08 | 200.76 | 229.44 | 258.12 | 315.48 | 372.84 | 430.20 | 516.24 | 602.28 |
| 2019-2020 | 185.40 | 216.30 | 247.20 | 278.10 | 339.90 | 401.70 | 463.50 | 556.20 | 648.90 |

**Benthyca:**

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymryd benthyciadau tymor hir o £10 miliwn i ariannu gwariant cyfalaf ond fe wnaeth hefyd ddefnyddio cronfeydd mewnol i reoli llif arian. Roedd angen benthyciadau tymor byr yn ystod y flwyddyn ariannol oherwydd y gostyngiad mewn cronfeydd wrth gefn a phroffil anwastad derbyniadau grant pensiwn. Roedd cyfanswm benthyciadau a oedd ar ôl ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn £14.857 miliwn. Roedd £5.000 miliwn yn berthnasol i fenthyciadau tymor byr newydd (2019-2019 £16.657 miliwn).

**<u>RHAGOLYGON AT Y DYFODOL</u>**

Mae ansicrwydd ynghylch lefel ac effaith posibl gostyngiadau ariannu yn y dyfodol yn y Gwasanaeth Heddlu yn mandadu'r angen i barhau i sicrhau ein bod yn cynnal llwyfan ariannol sefydlog ac yn parhau i adolygu a thrawsnewid ein gwasanaethau. Mae effeithiau Covid-19 a chanlyniad disgwyliedig Adolygiad Gwario Cynhwysfawr arfaethedig yn codi lefelau presennol ansicrwydd ymhellach.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gosod y gofynion ariannol dros y cyfnod 2020-2025. Mae'n cysylltu'r cynllun plismona a'r blaenoriaethau i'r strategaeth ariannol ac mae i'w weld ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn ymroddedig i sicrhau fod y gwasanaeth heddlu yng Ngogledd Cymru yn addas i'r diben ac yn darparu gwerth am arian i bobl Gogledd Cymru. Rhan hanfodol o hyn yw'r angen am gronfeydd wrth gefn digonol i fodloni heriau i ddod ac amddiffyn gwasanaethau rheng flaen yn y pen draw. Mae cael llwyfan ariannol cynaliadwy yn hanfodol bwysig i gyflawni gwasanaeth yn y dyfodol.

Gosodwyd Cyllideb 2020-2021 gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a chymeradwywyd gan y Panel Heddlu a Throsedd ym mis Ionawr 2020 ar £163.705 miliwn. Roedd hyn yn dangos cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor a chynnydd net cyffredinol o 6.12% o'i gymharu â chyllideb 2019-2020 o £154.264 miliwn. Mae'r cynnydd yn cynnwys dyrannu 62 o Swyddogion Heddlu ychwanegol o gyfnod 1 Ymgyrch Uplift y Llywodraeth a wnaiff weld cynnydd o 20,000 o swyddogion yn genedlaethol. Mae buddsoddiadau sylweddol wedi cael eu gwneud mewn gallu ymchwilio gan dargedu trosedd difrifol a threfnedig a cham-fanteisio ar unigolion bregus ac mewn datblygiad digidol a wnaiff arwain at well cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yn y dyfodol.

Mae canlyniadau refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (UE) ym mis Mehefin 2016 lle mae'r DU wedi pleidleisio i adael yr UE wedi ac yn parhau i gael effaith wleidyddol ledled y wlad. Sbardunwyd Erthygl 50 o ganlyniad ar 29 Mawrth 2017 gyda bwriad gadael yr Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019. Ni wnaeth hyn ddwyn ffrwyth gan arwain at ansicrwydd pellach o ran ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Gadawodd y DU yr UE yn ffurfiol ar 31 Ionawr 2020. Mae'n ansicr ar hyn o bryd pa effaith tymor hir y gall hyn ei gael ar y gwasanaeth heddlu ac ar ariannu'r gwasanaeth. Mae cynllunio manwl ynghylch yr effaith gweithrediadol tymor byr wedi'i reoli'n lleol ac yn genedlaethol a chaiff ei adolygu'n barhaus wrth i ddyddiad diwedd y cyfnod trosglwyddo ar 31 Rhagfyr 2020 nesáu.

Yn ystod chwarter olaf 2019-2020 gwnaeth pandemig y Coronafeirws ledaenu'n rhyngwladol gan arwain at y DU yn cyflwyno cyfyngiadau symud ar 23 Mawrth 2020. Roedd yr effaith ar gyfrifon 2019-2020 yn gyfyngedig er yr addaswyd

Datganiad o Gyfrifon Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru 2019-2020 yr amserlenni er mwyn adlewyrchu'r amhariad ar fusnes arferol. Ceir dadleniadau neu adbrisiadau ychwanegol lle bo'n briodol ac roeddent yn ystyriaethau allweddol o ran prisiadau Pensiynau ac Asedau yn benodol. Mae costau plismona'n berthnasol i'r pandemig yn cael ei fonitro a'i reoli o fewn cyllidebau 2020-2021. Mae'n ansicr ar hyn o bryd pa effaith tymor canolig neu dymor hir fydd y pandemig yn ei gael yn weithredol neu'n ariannol. Fodd bynnag, mae'r Heddlu wedi sefydlu Grŵp Adfer er mwyn rheoli unrhyw broblemau a sicrhau yr ymgorfforir goblygiadau i'r cylch cynllunio lle mae'n bosibl.

## POLISÏAU CYFRIFYDDU

Gwneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu pan mae angen gan arferion cyfrifyddu priodol neu mae'r newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynghylch effaith trafodion, digwyddiadau eraill a chyflyrau ar y sefyllfa ariannol neu'r perfformiad ariannol. Mae mân newidiadau wedi'u gwneud i ddiweddaru'r polisïau (er enghraifft y newid yn y budd-daliadau ôl-gyflogaeth). Nid ydynt wedi cael dim effaith sylweddol ar y cyfrifon. Nid oedd angen datganiad arall o gyfrifon y flwyddyn ariannol flaenorol.

## CYDWEITHIO Â CHYRFF ERAILL

Anogir Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i edrych ar feysydd lle gallent gydweithredu ar gyflwyno gwasanaethau, un ai gyda heddluoedd eraill neu ar lefel leol gyda chyrff cyhoeddus eraill.

I'r perwyl hwnnw, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithio'n agos gyda Heddluoedd eraill Cymru a Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr er mwyn edrych ar feysydd ar gyfer cydweithrediad. Mae manylion trefniadau presennol yn Nodyn 39. Ar lefel leol, mae Adran Gyfleusterau'r Heddlu yn rheoli ystâd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar y cyd. Edrychir ar gyfleoedd pellach ar gyfer gweithio ar y cyd. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd yn gweithredu ystafell reoli ar y cyd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Llanelwy.

Yn 2013 fe wnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd drosglwyddo'r hofrennydd i'r Gwasanaeth Plismona Awyr Cenedlaethol (NPAS). Mae hwn yn gytundeb cenedlaethol gorfodol ar gyfer cyflwyno Gwasanaeth Plismona Awyr drwy'r DU i gyd. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i weithio gyda Heddlu Swydd Gaer gan gyflwyno Cynghrair Plismona Arfog ac Adran Cŵn Heddlu er mwyn gwella cyflawniad gweithredol wrth barhau i gyflawni effeithlonrwydd ac arbedion sy'n angenrheidiol er mwyn bodlon gostyngiadau ariannol y llywodraeth yn y gwasanaeth.

## DIGWYDDIADAU WEDI'R CYFNOD ADRODD

Ar adeg cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar 5 Hydref 2020, mae holl ddigwyddiadau addasu neu ddim addasu hanfodol i'w cynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon wedi'u hadlewyrchu o dan Nodyn 6.

## DATGANIAD O GYFRIFON Y GRŴP

Mae cyfrifon y grŵp yn cyflwyno darlun manwl o faterion ariannol y grŵp, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ac yn cynnwys:

- **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Grŵp** (Tudalen 17).
  Mae'n pennu cyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon. Mae'n cadarnhau bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi'n unol â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifo mewn Awdurdodau Lleol.

- **Dadansoddiad o Wariant a Chyllid** (Tudalen 18).
  Mae'n dangos sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, praesept treth cyngor ac ardrethi busnes) gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Grŵp o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Grŵp. Gwneir hyn yn unol

ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau. Mae incwm a gwariant a gyfrifir amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno'n fwy manwl yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr y Grŵp** (Tudalen 20).
  Mae'r datganiad hwn yn dangos costau cyfrifyddu darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn codi trethiant er mwyn talu am wariant yn unol â gofynion statudol. Gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Mae'r sefyllfa trethiant i'w weld yn y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn ogystal â'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd.

- **Datganiad Symudiadau yng Nghronfeydd y Grŵp** (Tudalen 21).
  Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, a ddadansoddir i gronfeydd defnyddiadwy (y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant) a chronfeydd annefnyddadwy eraill (cyfrifyddu technegol yn bennaf).

- **Mantolen y Grŵp** (Tudalen 22).
  Mae'n dangos gwerth asedau ac ymrwymiadau a gydnabyddir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (asedau llai dyledion) yn cyd-fynd a balans y cronfeydd sydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

- **Datganiad Llif Arian y Grŵp** (Tudalen 23).
  Mae'r datganiad yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystod y flwyddyn.

- **Nodiadau'r Grŵp ar y Datganiadau** (Tudalennau 24 i 62).
  Dyma'r holl nodiadau esboniadol sy'n egluro mewn mwy o fanylder nifer o eitemau sy'n berthnasol i'r prif ddatganiadau.

- **Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu** (Tudalen 63).
  Manylion trafodion incwm a gwariant Cyfrif Pensiwn yr Heddlu.

- **Datganiad Grŵp o Bolisïau Cyfrifyddu** (Tudalen 64).
  Mae'r datganiad hwn yn cefnogi'r cyfrifon ac yn rhoi manylion am egwyddorion, rheolau ac arferion penodol y bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn defnyddio wrth baratoi a chyflwyno'r datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau wedi'u cynhyrchu yn unol â'r safonau cyfrifyddu sydd yn berthnasol ar hyn o bryd i gyrff plismona lleol. Os yw hyn yn creu gwrthdaro gyda'r gofyniad cyfreithiol sylfaenol i greu cyfrifon sy'n dangos cronfeydd trethdalwyr, mae addasiadau perthnasol wedi'u gwneud yn unol â chod ymarfer CIPFA. Ceir atodlen o'r addasiadau hyn yn Nodyn 7 sef "Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Sail Ariannu o dan Reoliadau".

## Datganiad o'r Cyfrifoldebau ar gyfer Datganiad o Gyfrifon y Grŵp

Diben y datganiad hwn yw pennu cyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon.

**Cyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

Mae angen i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd:-

* gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn iawn a sicrhau fod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y sefydliad hwn, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Cyllid.
* rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau.
* cymeradwyo datganiad o gyfrifon y grŵp.

Rwy'n cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon hwn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

**Arfon Jones Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** Dyddiad: 05-10-2020

**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon y Grŵp Cyfrifon yn unol ag arferion priodol a osodwyd yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ('y Cod').

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

* dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna wedi'u cymhwyso'n gyson.
* gwneud barnau a rhagamcanion a oedd yn rhesymol a darbodus.
* cydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:

* cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd wedi'u diweddaru.
* cymryd camau rhesymol ar gyfer atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

**TYSTYSGRIF Y PRIF SWYDDOG CYLLID**

Mae'r datganiad cyfrifon wedi'i baratoi yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon Llywodraeth Leol ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'n adlewyrchu fformat a chynnwys Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2019-2020 a Chod Ymarfer Hysbysu Gwasanaeth.

Rwy'n ardystio fod y Datganiad Cyfrifon hwn yn rhoi golwg gywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Grŵp ar y dyddiad hysbysu ac am ei incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2020.

Mae'r dystysgrif archwiliad yn ymddangos ar dudalennau 93 i 94.

**Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid)** Dyddiad: 05-10-2020

## Dadansoddiad o Wariant a Chyllid y Grŵp 2019-2020

Pwrpas y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yw dangos i drethdalwyr sut mae'r cyllid sydd ar gael i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (h.y. grantiau llywodraeth a'r dreth gyngor) am y flwyddyn wedi'i ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae hyn yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae’r gwariant yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau. Mae incwm a gwariant a gyfrifir amdano dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno’n fwy manwl yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

| **2019-2020** | **GRŴP** | | | **CHTh** | | | **PG** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant Net i’w briodoli i'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu ac ariannu (Nodyn 24)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | **Gwariant Net i’w briodoli i'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu ac ariannu (Nodyn 24)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | **Gwariant Net i’w briodoli i'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu ac ariannu (Nodyn 24)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Plismona | 172,188 | 2,619 | 174,807 | -16,653 | 254 | -16,399 | 188,841 | 2,365 | 191,206 |
| | | | | | | | | | |
| **Cost Net Gwasanaeth cyn trosglwyddiad oddi mewn i'r grŵp** | **172,188** | **2,619** | **174,807** | **-16,653** | **254** | **-16,399** | **188,841** | **2,365** | **191,206** |
| | | | | | | | | | |
| Trosglwyddiad Oddi mewn i'r Grŵp | 0 | 0 | 0 | 188,841 | 0 | 188,841 | -188,841 | 0 | -188,841 |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **172,188** | **2,619** | **174,807** | **172,188** | **254** | **172,442** | **0** | **2,365** | **2,365** |
| | | | | | | | | | |
| Incwm a Gwariant Arall | -173,709 | 45,746 | -127,963 | -173,709 | -447 | -174,156 | 0 | 46,193 | 46,193 |
| | | | | | | | | | |
| **GWEDDILL(-)/DIFFYG(+) AR DDARPARU GWASANAETHAU** | **-1,521** | **48,365** | **46,844** | **-1,521** | **-193** | **-1,714** | **0** | **48,558** | **48,558** |

| | |
|---|---|
| | |
| Balans Cronfa Gyffredinol Agoriadol * | -23,642 |
| | |
| Ychwanegu gweddill(-)/diffyg(+) ym malans y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn | -1,521 |
| | |
| **BALANS TERFYNOL Y GRONFA GYFFREDINOL *** | **-25,163** |

* Cronfeydd Refeniw Defnyddiadwy

## Dadansoddiad o Wariant a Chyllid y Grŵp 2018-2019

Amcan y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yw dangos i drethdalwyr sut mae'r cyllid sydd ar gael i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (h.y. grantiau llywodraeth a'r dreth gyngor) am y flwyddyn wedi'i ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae hyn yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau. Mae incwm a gwariant a gyfrifir amdano dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno'n fwy manwl yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

| **2018-2019** | **GRŴP** | | | **CHTh** | | | **PG** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwarian Net i'w briodoli i'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu ac ariannu (Nodyn 24)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | **Gwarian Net i'w briodoli i'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu ac ariannu (Nodyn 24)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | **Gwarian Net i'w briodoli i'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu ac ariannu (Nodyn 24)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Plismona | 172,655 | 78,528 | 251,183 | -15,455 | 11,512 | -3,943 | 188,110 | 67,016 | 255,126 |
| | | | | | | | | | |
| **Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i gyrraedd symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | **Addasiadau ar gyfer Dibenion Cyfalaf<br><br>(Nodyn 1)** | **Newid net ar gyfer Addasiadau Pensiynau<br><br>(Nodyn 2)** | **Gwahaniaeth au Eraill<br><br>(Nodyn 3)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd | 254 | 0 | 0 | **254** |
| Prif Gwnstabl | 0 | 1,532 | 833 | **2,365** |
| **Cost Net am Wasanaethau** | **254** | **1,532** | **833** | **2,619** |
| Incwm a gwariant Arall o'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | -447 | 46,193 | 0 | **45,746** |
| **Gwahaniaeth rhwng y gweddill/diffyg yn y Gronfa Gyffredinol a gweddill/diffyg Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarpariaeth gwasanaethau** | **-193** | **47,725** | **833** | **48,365** |

| **Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Chyfrifyddu 2018-2019** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i gyrraedd symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | **Addasiadau ar gyfer Dibenion Cyfalaf<br><br>(Nodyn 1)** | **Newid net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau<br><br>(Nodyn 2)** | **Gwahaniaeth au Eraill<br><br>(Nodyn 3)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd | 11,512 | 0 | 0 | **11,512** |
| Prif Gwnstabl | 0 | 67,270 | -254 | **67,016** |
| **Cost Net Gwasanaeth** | **11,512** | **67,270** | **-254** | **78,528** |
| Incwm a gwariant arall o'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | 1,955 | 43,480 | 0 | **45,435** |
| **Gwahaniaeth rhwng y gweddill/diffyg yn y Gronfa Gyffredinol a gweddill/diffyg Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarpariaeth gwasanaethau** | **13,467** | **110,750** | **-254** | **123,963** |

**Nodyn 1: Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf**

Mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant a lleihad ac enillion a cholledion ailbrisiad yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

**Gwariant gweithredol arall –** mae'n addasu ar gyfer gwaredu cyfalaf gyda throsglwyddiad incwm wrth waredu asedau a'r symiau a ddilëir ar gyfer yr asedau hynny;

**Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi –** y taliadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. Darpariaeth Isafswm Refeniw ac unrhyw gyfraniadau refeniw eraill yn cael eu tynnu o incwm a gwariant arall gan nad ydynt yn daladwy dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol;

**Trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol** - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm nad oes modd codi amdano dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o'r rhai a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn i'r rhai hynny sy'n dderbyniadwy heb amodau neu le bod amodau wedi cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae'r llinell Trethiant Incwm a Gwariant Grant Amhenodol yn cael ei gredydu gyda grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy yn ystod y flwyddyn heb amodau neu le bod amodau wedi cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

**Nodyn 2: Newid net ar gyfer addasiadau pensiwn**

Newid net ar gyfer tynnu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm pensiwn Buddion Gweithiwr IAS 19:

Am **wasanaethau** mae hyn yn cynrychioli gwaredu'r cyfraniadau pensiwn cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel y caniatawyd gan statud ac amnewid gyda chostau gwasanaeth presennol a gorffennol;

Am **Incwm a Gwariant ariannu a buddsoddi** – mae'r llog net ar yr ymrwymiad budd diffiniedig yn cael ei briodoli i'r DIGH (Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr).

**Nodyn 3: Gwahaniaethau Eraill**

Gwahaniaethau eraill rhwng symiau a ddebydwyd/credydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud:

Am **Incwm a Gwariant ariannu a buddsoddi** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol am y gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgowntiau;
Mae'r gost dan **incwm a gwariant trethiant a grantiau amhenodol** yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae modd ei godi dan reoliadau statudol ar gyfer treth cyngor a'r Trethu Annomestig (NDR) a ragwelwyd y byddai'n cael ei dderbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm a gydnabuwyd dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Cod. Ceir ychydig o wahaniaeth o ran amseru a bydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei ddwyn ymlaen i Weddillion a Diffygion yn y dyfodol yn y Gronfa Gasglu.

25. **Lwfansau Aelodau**

Mae costau'r Pwyllgor Archwilio wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2019-2020 roedd cyfanswm o 4 aelod. Ymddiswyddodd un aelod yn ystod y flwyddyn.

| | **2019-2020** | | **2018-2019** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **Nifer Aelodau** | **£000** | **Nifer Aelodau** |
| Lwfansau | 11 | 4 | 13 | 5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Treuliau | 0 | | 1 | |
| | **11** | | **14** | |

Ceir gwybodaeth bellach ar lwfansau taledig ar www.northwales-pcc.gov.uk.

26. **Tâl Swyddogion**

Mae'r tablau canlynol yn nodi manylion tâl Swyddogion Heddlu Perthnasol (a ddiffinnir fel y Prif Gwnstabl ac unrhyw Uwch Swyddogion Heddlu a staff gyda chyflog llawn amser o fwy na £150,000 y flwyddyn neu swyddogion perthnasol eraill gyda chyflog dros £60,000). O fewn y tablau isod mae costau'r Prif Gwnstabl, Dirprwy Brif Gwnstabl, Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Swyddog Meddygol yr Heddlu yn cael eu codi yn erbyn Cyfrifon y Prif Gwnstabl. Mae costau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Swyddog Cyllid yn cael eu codi yn erbyn Cyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Cynhwysir Uwch Swyddogion Heddlu eraill (uwchben rheng Uwcharolygydd) ac Uwch Weithwyr (deiliad swydd dynodedig o gorff llywodraeth leol) yn y Tabl Bandio Cyflog.

| **2019-2020**<br><br>**Deiliad Swydd:** | **Nodiadau:** | **Cyflog (yn cynnwys ffioedd a lwfansau)**<br>**£** | **Bonwsau**<br>**£** | **Lwfans Treuliau**<br>**£** | **Treuliau Eraill**<br>**£** | **Buddion mewn nwyddau**<br>**£** | **Cyfanswm tâl gan eithrio cyfraniadau pensiwn**<br>**£** | **Cyfraniadau pensiwn**<br>**£** | **Cyfanswm tâl yn cynnwys cyfraniadau pensiwn**<br>**£** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl – C. Foulkes | | 153,200 | 0 | 62 | 19,735 | 3,519 | 176,516 | 47,492 | 224,008 |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | | 121,839 | 0 | 18 | 0 | 3,718 | 125,575 | 37,016 | 162,591 |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 1 | 8,027 | 0 | 480 | 0 | 94 | 8,601 | 2,106 | 10,707 |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 2 | 101,853 | 0 | 37 | 0 | 2,087 | 103,977 | 31,574 | 135,551 |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 3 | 30,187 | 0 | 0 | 0 | 1,629 | 31,816 | 8,131 | 39,947 |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac | 4 | 62,668 | 0 | 2,127 | 1,835 | 0 | 66,630 | 9,426 | 76,056 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | | | | | | | | | |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | 5 | 37,111 | 0 | 0 | 0 | 2,381 | 39,492 | 6,049 | 45,541 |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd | | 71,400 | 0 | 2,886 | 0 | 0 | 74,286 | 11,638 | 85,924 |
| Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd | | 47,493 | 0 | 1,359 | 0 | 0 | 48,852 | 7,741 | 56,593 |
| Prif Swyddog Gweithredol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd | | 84,908 | 0 | 908 | 0 | 0 | 85,816 | 13,840 | 99,656 |
| Prif Swyddog Cyllid Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd | 6 | 40,979 | 0 | 376 | 0 | 0 | 41,355 | 6,679 | 48,034 |
| Swyddog Meddygol yr Heddlu – Dr. A. Lister | 7 | 35,954 | 0 | 0 | 0 | 0 | 35,954 | 5,860 | 41,814 |

Nodyn 1: Roedd deiliad y swydd yn y swydd hon o 01/04/2019 tan 28/04/2019
Nodyn 2: Roedd deiliad y swydd yn y swydd hon o 29/04/2019 tan 31/03/2020
Nodyn 3: Roedd deiliad y swydd yn y swydd hon o 16/12/2019 tan 31/03/2020 (PGC Cydweithredol – gweler Nodyn 39)
Nodyn 4: Roedd deiliad y swydd yn y swydd hon o 01/04/2019 tan 31/10/2019
Nodyn 5: Roedd deiliad y swydd yn y swydd hon o 18/11/2019 tan 31/03/2020 (Gwnaeth Pennaeth Cyllid ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau o 01/11/2019 tan 17/11/2019 fel rhan o ddyletswyddau arferol)
Nodyn 6: Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gweithio'n rhan amser. Cyflog cyfatebol i lawn amser yw £68,298
Nodyn 7: Mae Swyddog Meddygol yr Heddlu yn gweithio i'r hyn sy'n gyfwerth ag 1 diwrnod yr wythnos. Y cyflog llawn amser cyfatebol yw £179,770

| **2018-2019** <br><br> **Deiliad Swydd:** | **Nodiadau:** | **Cyflog (yn cynnwys ffioedd a lwfansau)** <br> **£** | **Bonwsau** <br> **£** | **Lwfans Treuliau** <br> **£** | **Treuliau Eraill** <br> **£** | **Buddion mewn nwyddau** <br> **£** | **Cyfanswm tal gan eithrio cyfraniadau pensiwn** <br> **£** | **Cyfraniadau pensiwn** <br> **£** | **Cyfanswm tal yn cynnwys cyfraniadau pensiwn** <br> **£** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl – M. Polin | 1 | 72,042 | 0 | 119 | 0 | 1,742 | 73,903 | 0 | 73,903 |
| Prif Gwnstabl – G. Pritchard | 2 | 37,924 | 0 | 0 | 0 | 1,014 | 38,938 | 8,960 | 47,898 |
| Prif Gwnstabl – C. Foulkes | 3 | 59,570 | 0 | 27 | 8,996 | 1,399 | 69,992 | 14,416 | 84,408 |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | 4 | 48,948 | 0 | 0 | 0 | 1,415 | 50,363 | 10,257 | 60,620 |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | 5 | 83,523 | 0 | -28 | 0 | 2,741 | 86,236 | 19,198 | 105,434 |
| Prif Gwnstabl | 6 | 34,845 | 0 | 18 | 0 | 1,198 | 36,061 | 8,178 | 44,239 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynorthwyol | | | | | | | | | |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 7 | 67,631 | 0 | 2,254 | 0 | 825 | 70,710 | 14,054 | 84,764 |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | 8 | 36,741 | 0 | 697 | 0 | 586 | 38,024 | 5,759 | 43,783 |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | 9 | 65,978 | 0 | 494 | 0 | 0 | 66,472 | 10,754 | 77,226 |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd | | 71,283 | 0 | 3,680 | 0 | 0 | 74,963 | 23,619 | 98,582 |
| Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd | | 46,117 | 0 | 1,007 | 0 | 0 | 47,124 | 7,517 | 54,641 |
| Prif Weithredwr y Comisiynydd Heddlu a Throsedd | | 84,252 | 0 | 548 | 0 | 0 | 84,800 | 13,733 | 98,533 |
| Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd | 10 | 39,792 | 0 | 374 | 0 | 0 | 40,166 | 6,486 | 46,652 |
| Swyddog Meddygol yr Heddlu - Dr. A. Lister | 11 | 35,692 | 0 | 0 | 0 | 0 | 35,692 | 5,818 | 41,510 |

Nodyn 1: Roedd deiliad y swydd yn y swydd hon o 01/04/2018 tan 31/08/2018

Nodyn 2: Roedd deiliad y swydd yn cyflenwi'r swydd hon o 01/08/2018 tan 04/11/2018

Nodyn 3: Roedd deiliad y swydd yn y swydd hon o 05/11/2018

Nodyn 4: Roedd deiliad y swydd yn y swydd hon o 01/04/2018 tan 31/07/2018 a 05/11/2018 tan 16/11/2018

Nodyn 5: Roedd deiliad y swydd yn cyflenwi'r swydd hon o 21/07/2018

Nodyn 6: Roedd deiliad y swydd yn y swydd hon o 01/04/2018 tan 20/07/2018

Nodyn 7: Roedd deiliad y swydd yn cyflenwi'r swydd hon o 01/08/2018

Nodyn 8: Roedd deiliad y swydd yn y swydd hon o 01/04/2018 tan 29/07/2018

Nodyn 9: Roedd deiliad y swydd yn y swydd hon o 30/07/2018

Nodyn 10: Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gweithio'n rhan amser, y cyflog llawn amser cyfatebol yw £67,316

Nodyn 11: Mae Swyddog Meddygol yr Heddlu yn gweithio i'r hyn sy'n gyfwerth ag 1 diwrnod yr wythnos. Y cyflog llawn amser cyfatebol yw £177,184

**2019-2020**

Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl a oedd yn derbyn mwy o gydnabyddiaeth na £60,000 am y flwyddyn (gan eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

| Bandiau Cydnabyddiaeth | Nifer Gweithwyr 2019-2020 | Nifer Gweithwyr 2018-2019 |
|---|---|---|
| £60,000 – £64,999 | 27 | 15 |
| £65,000 – £69,999 | 9 | 8 |
| £70,000 – £74,999 | 6 | 5 |
| £75,000 – £79,999 | 4 | 4 |
| £80,000 – £84,999 | 4 | 5 |
| £85,000 – £89,999 | 2 | 3 |
| £90,000 – £94,999 | 1 | 0 |
| £95,000 – £99,999 | 1 | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| £100,000 – 104,999 | 0 | 1 |

Amlinellir y nifer o becynnau ymadael gyda chyfanswm cost fesul band a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol a diswyddiadau eraill yn y tabl isod:

| Band cost pecynnau ymadael (yn cynnwys taliadau arbennig) | Nifer o ddiswyddiadau gorfodol | | Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm nifer o becynnau ymadael yn ôl band cost | | Cyfanswm cost pecynnau ymadael ym mhob band | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018-2019 Nifer | 2019-2020 Nifer | 2018-2019 Nifer | 2019-2020 Nifer | 2018-2019 Nifer | 2019-2020 Nifer | 2018-2019 £000 | 2019-2020 £000 |
| £ 0 – £20,000 | 0 | 0 | 4 | 7 | 4 | 7 | 16 | 20 |
| £ 20,001 – £40,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £ 40,001 – £60,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £ 60,001 – £80,000 | 0 | 0 | 5 | 0 | 5 | 0 | 386 | 0 |
| £ 80,001 ac uwch | 0 | 0 | 8 | 1 | 8 | 1 | 761 | 83 |

**Cymhareb Tâl Canolrif**

Mae cymhareb tâl canolrif y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cymharu tâl cyfwerth â llawn amser y Prif Weithredwr â chymhareb tâl canolrif llawn amser staff a gyflogir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae cymhareb tâl canolrif y Prif Gwnstabl yn cymharu tâl cyfwerth â llawn amser y Prif Gwnstabl â chymhareb tâl canolrif llawn amser staff a gyflogir gan y Prif Gwnstabl.

| | 2019-2020 | 2018-2019 |
|---|---|---|
| Cyflog y Prif Weithredwr | 84,908 | 84,242 |
| Cyflog canolrif staff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd | 34,254 | 34,433 |
| Cymhareb Tâl Canolrif: | 2.5 | 2.4 |
| Cyflog y Prif Gwnstabl | 176,454 | 171,647 |
| Cyflog canolrif staff y Prif Gwnstabl | 33,409 | 32,881 |
| Cymhareb Tâl Canolrif: | 5.3 | 5.2 |

Rydym wedi defnyddio Tâl Canolrif y Prif Gwnstabl gan mai ef yw'r swyddog rheng uchaf ar gyfer y gymhareb hon. Mae Swyddog Meddygol yr Heddlu yn gyflogedig yn rhan amser a chostau llawn amser cyfatebol yw £179,770. Nid ydym wedi defnyddio costau llawn cyfatebol Swyddog Meddygol yr Heddlu ar gyfer y gymhareb hon gan nad ydynt y swyddog rheng uchaf.

27. **Costau Archwilio Allanol**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi gorfod talu'r costau canlynol mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad o Gyfrifon ac ardystio hawliadau grant:

| | 2019-2020 | | | 2018-2019 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Grŵp | CHTh | PG | Grŵp | CHTh | PG |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ffioedd sy'n daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru o ran gwasanaethau archwilio allanol a gynhelir gan yr archwilydd penodedig | 86 | 43 | 43 | 86 | 43 | 43 |
| **Cyfanswm** | **86** | **43** | **43** | **86** | **43** | **43** |

Mae'r uchod yn cynrychioli'r taliadau a wnaed o fewn y flwyddyn ariannol 2019-2020. Y ffi strategaeth a gytunwyd ar gyfer blwyddyn archwiliad mis Tachwedd 2019 tan fis Hydref 2020 oedd £83,866 am 2019-2020.

28. **Incwm Grant**

Gwnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gredydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn 2019-2020.

| Wedi credydu i Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol | 2019-2020 £000 | 2018-2019 £000 |
|---|---|---|
| Grant Cyfalaf y Swyddfa Gartref | 472 | 462 |
| Grant yr Heddlu a Grant Llawr y Swyddfa Gartref | 50,738 | 49,605 |
| Grant Cymorth Refeniw | 10,655 | 10,364 |
| Cyfran o Grant Trethi Annomestig | 11,841 | 11,758 |
| **Cyfanswm** | **73,706** | **72,189** |

| Wedi credydu i Wasanaethau | 2019-2020 £000 | 2018-2019 £000 |
|---|---|---|
| Cofnodion Troseddol Swyddfa Cofnodion Troseddol | 657 | 613 |
| Gostyngiad Cyflymder | 1,005 | 1,024 |
| Swyddogion Cefnogi Cymunedol Llywodraeth Cymru | 3,384 | 3,384 |
| Rhaglen Cyswllt Ysgolion | 391 | 413 |
| Nawdd 'ACE' | 247 | 260 |
| Grant PFI | 1,298 | 1,350 |
| Grant Seiber | 124 | 106 |
| Deddf Elw Troseddau | 241 | 133 |
| Grantiau Diogelwch | 2,313 | 2,262 |
| Grant Gwytnwch Heddlu'r UE | 0 | 102 |
| Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (DIP) | 478 | 478 |
| Comisiynu/Gwasanaethau Dioddefwyr | 1,223 | 1,228 |
| Grant Uplift Swyddogion | 297 | 0 |
| Grant Pensiwn | 1,582 | 0 |
| Grantiau Eraill | 234 | 197 |
| **O fewn cost gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | **13,474** | **11,550** |

29. **Partïon Perthnasol**

Nid oes unrhyw ddiddordebau materol na pherthnasau i'r Prif Swyddogion na'u teuluoedd uniongyrchol, a fyddai'n gallu dylanwadu neu reoli penderfyniadau, polisïau neu drafodion ariannol eraill Heddlu Gogledd Cymru/Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae proses gadarn hefyd mewn lle i gymeradwyo a chofrestru diddordebau busnes staff a swyddogion yr heddlu.

Mae gwraig y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gynghorydd ar Gyngor Wrecsam ac yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, Pwyllgor Craffu Diogelu a Llesiant, Pwyllgor Tir ac Adeiladau Corfforaethol a'r Pwyllgor Trwyddedu.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn codi tâl ar Gyngor Sir Ddinbych, Cyngor Tref Abergele, Cangen Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaethau Twnnel a Rhwydwaith, a Chymorth i Ddioddefwyr am gyd-ddefnyddio adeiladau.

Mae'r Prif Gwnstabl yn un o ymddiriedolwyr PACT (Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned). Mae'r Heddlu yn rhoi arian a gaiff o Gyfrif Cronfa Eiddo'r Heddlu i PACT i gefnogi prosiectau. Nod PACT yw codi proffil diogelwch yn y gymuned, lleihau'r ofn o drosedd yn sylweddol ac o ganlyniad gwella ansawdd bywyd trigolion

Gogledd Cymru. Yn 2019-2020 roedd hyn gyfystyr â £31,700 a roddwyd o'r gronfa i PACT gan gyfrannu tuag at fodloni costau gweinyddu'r Gronfa sef £44,676.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn gysylltiedig â'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau sydd yn bartneriaeth wedi'i ariannu trwy grant sydd â chyfrifoldeb dros leihau troseddau a marwolaethau'n ymwneud â chyffuriau trwy ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys swyddogion Heddlu, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Iechyd Lleol, Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru, Llys Ynadon Gogledd Cymru, Gwasanaeth Carchardai ei Mawrhydi, Y Ganolfan Byd Gwaith a Llywodraeth Cymru.

Mae aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio wedi datgan eu holl fuddion ariannol sy'n ymwneud â chontractau a busnesau adeg eu penodi. Maent wedi arwyddo cytundeb yn datgan eu bod yn cytuno i gydymffurfio â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan a chyflwyno unrhyw fuddion diwygiedig i'r Prif Weithredwr. Gallwch ddod o hyd i Fynegiannau o Ddiddordeb aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd www.northwales-pcc.gov.uk

30. **Gwariant a Chyllido Cyfalaf**

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf am y flwyddyn yn y tabl isod (gan gynnwys gwerth asedau a gafwyd o dan brydlesau ariannol a'r cytundeb PFI), ynghyd â'r adnoddau sydd wedi'u defnyddio i'w ariannu. Os yw gwariant cyfalaf i'w ariannu yn y dyfodol drwy godi tal ar refeniw fel asedau a gedwir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), sef mesur o'r gwariant cyfalaf a godir yn hanesyddol gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd sydd eto i'w ariannu. Mae'r GCC i'w ddadansoddi yn ail ran y nodyn hwn.

| | 2019-2020 £000 | 2018-2019 £000 |
|---|---|---|
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agoriadol** | **30,903** | **27,257** |
| **Buddsoddiad Cyfalaf** | | |
| Eiddo, Cyfarpar ac Offer | 6,374 | 11,273 |
| Asedau Anniriaethol | 0 | 0 |
| Gwariant Refeniw a ariannwyd o Gyfalaf dan Statud | 0 | 0 |
| **Ffynonellau Cyllido** | | |
| Derbynebau Cyfalaf | -310 | -1,702 |
| Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill | -472 | -462 |
| Symiau a neilltuwyd o refeniw | -1,460 | -970 |
| Cyfraniadau refeniw uniongyrchol | -2,271 | -2,350 |
| Egwyddor DRL | -2,369 | -2,143 |
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Terfynol** | **30,395** | **30,903** |

**Eglurhad o Symudiadau mewn blwyddyn**

| | 2019-2020 £000 | 2018-2019 £000 |
|---|---|---|
| Cynnydd (+) mewn angen sylfaenol i fenthyca (wedi ei gefnogi gan gymorth ariannol gan y llywodraeth) | 240 | 4,336 |
| Asedau a gafwyd o dan brydlesi cyllid | 0 | 0 |
| Asedau a gafwyd o dan gytundebau PFI/PPP | -748 | -690 |
| **Cynnydd (+)/gostyngiad (-) mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf** | **-508** | **3,646** |

31. **Prydlesi**

**Prydles Cyllid yn cynnwys Menter Cyllid Preifat (PFI)**

Arwyddwyd y cytundeb PFI ym mis Medi 2002. Mae'r contract yn darparu adnodd a wasanaethir, sy'n cynnwys Pencadlys Rhanbarthol, Gorsaf Heddlu, Dalfa, Cefnogaeth Wyddonol a bloc Digwyddiadau Difrifol ym Mharc Busnes Llanelwy. Daeth y safle yn weithredol ym mis Mawrth 2004. Mae'r cytundeb yn parhau am 25 mlynedd, ac mae

opsiynau ar gael pan mae'r cytundeb yn dod i ben. Mae'r contract yn nodi y dylid cynnal adolygiad o brisio mewn perthynas â'r elfen tâl gwasanaeth bob 5 mlynedd. Mae trafodaethau wedi arwain at ostyngiad cytûn o £0.113 miliwn yn yr elfen tâl gwasanaeth o 1af Ebrill 2019. Dyfarnwyd cymeradwyaeth credyd amcanol i'r Heddlu o £19.623 miliwn am y cynllun. Mae hyn gyfwerth â £36.7 miliwn o nawdd refeniw ychwanegol dros gyfnod y contract. Mae ymrwymiad ar weddill bywyd y cytundeb o £26.594 miliwn (2018-2019 £32.670 miliwn).

**Gwerth yr Ased PFI**

Mae'r Ased PFI wedi'i hasesu o dan ofynion cyfrifyddu presennol ac mae'n cael ei gynnwys bellach fel rhan o bortffolio asedau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar y Fantolen (gweler Nodyn 11). Cafodd yr ased ei ailbrisio ar 31 Mawrth 2019 fel rhan o'r Portffolio Asedau. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r symudiadau yng ngwerth yr ased PFI.

| PFI | £000 |
|---|---|
| **Gwerth Gros ar 31 Mawrth 2019** | **18,454** |
| Dibrisiant Cronedig hyd at 31.3.2019 | -1,999 |
| Dibrisiant 2019-2020 | -335 |
| Cyfanswm Dibrisiant i 31.3.2020 | -2,334 |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2020** | **16,120** |

**Gwerth Dyled**

| PFI | £000 |
|---|---|
| Gwerth ar 31 Mawrth 2019 | 10,661 |
| Ad-daliad Cyfalaf | -748 |
| **Gwerth Net ar 31 Mawrth 2020** | **9,913** |

**Cyfanswm taliadau i'w gwneud dros oes y cytundeb**

| PFI | £000 |
|---|---|
| Swm sy'n ddyledus o fewn 1 flwyddyn | 2,877 |
| Yn ddyledus o fewn 2 i 5 mlynedd | 11,698 |
| Yn ddyledus o fewn 6 i 10 mlynedd | 12,019 |
| **Cyfanswm** | **26,594** |

**Prydlesi Gweithredol**

Nid oes unrhyw ddyledion heb eu rhyddhau ar 31 Mawrth 2020 mewn perthynas â phrydlesi gweithredol.

32. **Colledion Lleihad**

Mae'r Cod yn nodi bod rhaid datgelu gwybodaeth fesul dosbarth o asedau ar gyfer symiau colledion lleihad a'r gwrthdroadau lleihad sydd wedi eu codi yn erbyn y Gweddill neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth o'r Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Cyfunir y datgeliadau hyn yn Nodyn 12 sy'n cymodi'r symudiadau dros y flwyddyn ym malansau Eiddo, Cyfarpar ac Offer a balansau Asedau Anniriaethol.

33. **Buddion Terfynu**

Defnyddiodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y rheoliadau canlynol o ran buddion terfynu:

- Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'i diwygiwyd) a
- Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2000 (fel y'i diwygiwyd)

ac fe derfynwyd contractau nifer o weithwyr yn 2019-2020 ar gost o £0.103 miliwn (2018-2019 £1.163 miliwn) fel y dadlennwyd yn nodyn 26.

34. **Cynlluniau Pensiwn gyda Buddion Diffiniedig**

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion a gweithwyr eraill, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynnig buddion ymddeoliad. Er na fydd y buddion hyn mewn gwirionedd yn daladwy hyd nes y bydd gweithwyr yn ymddeol, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ymrwymiad i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) ac i'w dadlennu pryd mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliad yn y dyfodol.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyfranogi mewn dau gynllun pensiwn:

- Gweinyddir y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer Staff yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol. Mae hyn yn golygu bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i mewn i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd yn cydbwyso'r ymrwymiadau pensiwn â'r asedau buddsoddi. Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystyried y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fel un corff ac nid ydynt wedi cael eu rhoi ar wahân yn y cyfrifon

Mae Cynllun Pensiwn Gwynedd yn cael ei weinyddu yn unol â fframwaith rheoleiddio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chyfrifoldeb Pwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd ydi trefn llywodraethu'r cynllun. Mae'r Polisi yn cydymffurfio â rheoliadau Cynlluniau Pensiwn. Mae rheolwyr buddsoddi'r gronfa yn cael eu penodi gan y pwyllgor.

Y prif risgiau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r cynllun ydi'r tybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun (h.y. alldyniadau mawr o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, elw bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti sydd gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gyda'r gofynion statudol i roi'r symiau sy'n angenrheidiol gan statud fel y'i disgrifir yn y nodyn ar bolisïau cyfrifyddu yn erbyn y Gronfa Gyffredinol.

Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddion ôl-ymddeoliad dewisol ar ymddeoliad cynnar – mae hwn yn drefniant buddion diffiniedig nas ariennir, lle cydnabyddir dyledion pan wneir dyfarniadau.

- Cynllun Pensiwn ar gyfer Swyddogion yr Heddlu. Mae hwn yn gynllun heb ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol, gan olygu nad oes asedau buddsoddi ar gyfer diwallu'r ymrwymiadau pensiwn hyn, ac mae rhaid cynhyrchu arian parod i ddiwallu'r gwir daliadau pensiwn pan fyddant yn ddyledus. Dan Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007, os bydd y symiau sy'n cael eu derbyn gan y gronfa bensiwn yn y flwyddyn yn llai na'r symiau sy'n daladwy, mae'n rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd drosglwyddo arian yn flynyddol ar gyfer cyfarfod y diffyg yn y gronfa bensiwn. Yn amodol ar archwiliad a chymeradwyaeth y senedd, mae hyd at 100% o'r gost yn daladwy gan grant pensiwn ychwanegol gan y llywodraeth ganolog. Fodd bynnag, os oes arian yn weddill yn y gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, yna rhaid trosglwyddo'r gweddill o'r gronfa bensiwn yn ôl i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a bydd rhaid iddo ef wedyn ad-dalu'r swm yn ôl i'r llywodraeth ganolog.

**Trafodion sy'n Berthnasol i Fuddion Ôl-Gyflogaeth:**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd cydnabod cost y buddion ymddeol yng nghost y gwasanaeth a adroddir amdano pan fyddant wedi'u hennill gan y gweithwyr yn hytrach na pan fydd y pensiynau yn cael eu talu yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r gost sydd yn dod allan o dreth y cyngor yn seiliedig ar daliadau ariannol yn ystod y flwyddyn. Felly mae gwir gost buddion cyflogaeth/ymddeol yn cael eu tynnu allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd.

Mae gan Brif Gwnstabl Gogledd Cymru, ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill a'r Swyddfa Gartref, 95 hawliad ar hyn o bryd o ran gwahaniaethu anghyfreithlon yn codi o ddarpariaethau trafodion yn Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015. Roedd yr hawliadau hyn yn erbyn Cynllun Pensiwn yr Heddlu (achos Aarons) yn flaenorol wedi aros tu ôl i ddyfarniad McCloud/Sargeant. Maent bellach wedi'u codi a chynhaliwyd gwrandawiad rheoli achos ar 25 Hydref 2019. Roedd Gorchymyn 28 Hydref 2019 a ddaeth yn sgil hyn yn cynnwys datganiad dros dro fod gan yr hawlwyr hawl i gael eu trin fel pe baent wedi cael gwarchodaeth drafodaethol llawn ac wedi parhau yn eu cynllun presennol ar ôl 1 Ebrill

2015. Mae’r datganiad dros dro hwn yn berthnasol i hawlwyr yn unig. Fodd bynnag, fe wnaeth y Llywodraeth fynegi’n glir bod rhai oedd heb hawlio sydd yn yr un sefyllfa yn cael eu trin yn deg er mwyn sicrhau nad ydynt yn colli allan. Ailadroddwyd hyn yn y Datganiad Gweinidogaethol Ysgrifenedig ar 25 Mawrth.

Mae’r Gweinidog Heddlu wedi mynegi na fydd y cyfnod datrys yn darfod cyn 2022. Mae’r Trysorlys yn ymgynghori ar gynigion i weithredu datrysiad yn y misoedd nesaf sydd i’w ddilyn gan brif ddeddfwriaeth a rheoleiddio’r cynllun.

Byddai caniatáu i holl aelodau barhau yn eu cynllun presennol ar 1 Ebrill 2015 yn arwain at gynnydd yn nyledion Cynllun Pensiwn yr Heddlu. Mae actiwarïaid y cynllun wedi amcangyfrif y cynnydd posibl yn nyledion y cynllun i’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i fod oddeutu 4.4% neu £75.59m o ddyledion cynllun pensiynau. Adlewyrchwyd y cynnydd hwn yn nadleniad IAS 19 fel cost gwasanaeth blaenorol yng nghyfrifon 2018-2019. Ym mis Gorffennaf 2020, gwnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddi cynigion am ymgynghoriad ar ddatrysiad i ymdrin â’r broblem McCloud. Yn 2019-20, wedi adolygu’r ymgynghoriad ar y datrysiad ar lefel heddlu, mae’r actiwarïaid wedi amcangyfrif gostyngiad o £15.58m yn nyledion y cynllun. Mae hyn yn adlewyrchu newid mewn tybiaethau ac felly’n dangos elw ar ailfesuriad ac fe adroddwyd amdano yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr (CIES).

Mesurir effaith newid mewn dyledion cynllun sy’n codi o ddyfarniad McCloud/Sargeant drwy’r broses prisio pensiwn, sy’n penderfynu cyfraddau cyfraniad cyflogwyr a gweithwyr. Mae prisiad nesaf Pensiwn yr Heddlu i fod i gael ei adrodd yn 2023-2024, er mae’r amserlen hon yn amodol ar newid. Penderfynir ar effaith cynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol a godir o McCloud / Sargeant drwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. Mae'r rhain yn gofyn i bob awdurdod heddlu gynnal cronfa bensiwn yr heddlu lle telir cyfraniadau swyddogion a chyflogwyr i mewn ac o le y daw taliadau pensiwn i swyddogion sydd wedi ymddeol. Os nad oes gan gronfa bensiwn yr heddlu ddigon o arian i fodloni cost pensiynau mewn blwyddyn, mae'r swm angenrheidiol i fodloni'r diffyg yn cael ei dalu gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r awdurdod heddlu ar ffurf grant ychwanegiad o lywodraeth ganolog.

Mae’r tribiwnlys cyflogaeth wedi cytuno ar broses ar gyfer ystyried hawliadau iawndal rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ionawr 2021. Mae sail hawliadau gan hawlwyr i fod ym mis Ebrill 2020 ac mae nodi a bandio hawliadau a gynigir gan hawlwyr i fod ym mis Mehefin ar gyfer hawliadau anariannol a mis Medi ar gyfer hawliadau ariannol. Ar 31 Mawrth 2020, nid yw’n bosibl amcangyfrif graddau neu debygolrwydd llwyddiant yr hawliadau hyn. Felly ni chydnabyddir dyled o ran hawliadau iawndal yn y cyfrifon hyn.

O ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, pan ddiwygiwyd y strwythur buddion yn 2014, cymhwyswyd amddiffynfeydd trosiannol i aelodau hynach penodol a oedd yn agos i oedran ymddeol arferol. Mae'r buddion a gronnwyd o 1 Ebrill 2014 gan yr aelodau hyn yn amodol ar 'danategiad' sy'n sicrhau nad yw'r aelodau hyn yn colli allan o gyflwyno'r cynllun newydd, drwy mewn gwirionedd roi'r buddion gwell iddynt o'r cynlluniau hen a newydd.

Fel gyda Chynllun Pensiwn yr Heddlu, disgwylir i ddyfarniad McCloud/Sargeant fod yn berthnasol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gan hynny, efallai bydd angen i fuddion a gronnir o 2014 gael eu gwella fel y gall holl aelodau, waeth bynnag eu hoedran, elwa o'r tanategiad.
Fel arall, gall adferiad gael ei gyflawni mewn ffordd wahanol, er enghraifft drwy dalu iawndal. Bydd angen i'r Llywodraeth ddigolledu aelodau iau am y driniaeth lai ffafriol maent wedi'i derbyn ers i'r darpariaethau trosiannol ddod i rym, ynghyd ag ailedrych ar newidiadau cynllun pensiwn sy'n mynd ymlaen fel y disodlir yr elfennau gwahaniaethu i holl aelodau.

Disgwylir i'r dyfarniad gael effaith eang ar grwpiau sector cyhoeddus eraill, ond bydd graddau'r effaith yn dibynnu ar natur y trefniadau trosglwyddo a roddir mewn lle. At ddibenion adroddiad cyfrifyddu pensiwn 2018-2019, ni chydnabuwyd dyled ychwanegol (gan fod y dybiaeth cynnydd cyflog tymor hir a fabwysiadwyd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd wedi’i osod yn gyfartal i CPI, roedd hyn yn golygu y tybiwyd fod cyflog terfynol a buddion CARE yn adbrisio yn unol â CPI). Fodd bynnag, at ddibenion ffigyrau mantolen IAS19 31 Mawrth 2020, mae addasiad amcangyfrifedig ar gyfer McCloud wedi’i ddal o ddata prisio 2019, ac mae wedi’i gofnodi ar wahân fel Cost Gwasanaeth Blaenorol yn natganiad Elw a Cholled 2019/2020.

Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr a'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd yn ystod y flwyddyn:

| | Cynllun Pensiwn | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | Llywodraeth Leol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2019-2020 £000 | 2018-2019 £000 | 2019-2020 £000 | 2018-2019 £000 | 2019-2020 £000 |
| **Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | | | | | |
| *Cost Gwasanaethau:* | | | | | |
| *Cost Gwasanaeth yn cynnwys:* | | | | | |
| Cost Cyfredol y Gwasanaeth | -15,445 | -12,918 | -39,900 | -28,440 | -55,345 |
| Cyfraniadau Buddion heb eu Hariannu | 120 | 117 | 0 | 0 | 120 |
| Enillion (-)/Colledion (+) Gwasanaeth Blaenorol | -280 | 0 | 8,760 | -75,590 | 8,480 |
| Trosglwyddiadau i Mewn | 0 | 0 | -700 | -310 | -700 |
| Grant ychwanegiad Pensiwn Heddlu derbyniadwy | 0 | 0 | 20,371 | 26,404 | 20,371 |
| *Incwm a Gwariant ariannu a buddsoddi* | | | | | |
| Costau llog net | -2,173 | -1,700 | -44,020 | -41,780 | -46,193 |
| **Cyfanswm Buddion Ôl-gyflogaeth a godwyd yn erbyn y Gweddill neu'r Diffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **-17,778** | **-14,501** | **-55,489** | **-119,716** | **-73,267** |
| *Buddion Ôl-gyflogaeth Arall a Godwyd yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr* | | | | | |
| *Ailfesur yr ymrwymiad budd diffiniedig net sy'n cynnwys:* | | | | | |
| Adenillion ar asedau cynlluniedig (gan eithrio'r swm a geir yn y gost llog net) | -21,744 | 10,645 | 0 | 0 | -21,744 |
| Enillion (+) a cholledion (-) actiwaraidd yn deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 10,437 | 0 | 53,470 | 0 | 63,907 |
| Enillion (+) a cholledion (-) actiwaraidd yn deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | 34,187 | -27,574 | 55,000 | -49,980 | 89,187 |
| Enillion (+) a cholledion (-) profiad eraill | 21,185 | -52 | 36,090 | 5,050 | 57,275 |
| **Cyfanswm Budd Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr** | **26,287** | **-31,482** | **89,071** | **-164,646** | **115,358** |

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2019-2020 £000 | 2018-2019 £000 | 2019-2020 £000 | 2018-2019 £000 | 2019-2020 £000 |
| **Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn** | | | | | |
| Gwrthdroi costau net a wnaed i'r Gweddill neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth o fuddion ôl-gyflogaeth yn unol â'r cod | -17,778 | -14,501 | -55,489 | -119,716 | -73,267 |
| *Swm presennol a godwyd yn erbyn balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn:* | | | | | |
| Cyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun | 5,473 | 5,337 | | | 5,473 |
| Llai: Addasiad rhagdaliad * | 0 | 1,594 | | | 0 |
| Cyfraniadau addasedig y Cyflogwr | 5,473 | 6,931 | | | 5,473 |
| Buddion ymddeoliad sy'n daladwy i bensiynwyr | | | 20,069 | 16,536 | 20,069 |

** rhagdaliad o £1.594m am gyfandaliadau'n ddyledus yn 2018-19 a 2019-20, a welir yn y Fantolen fel rhagdaliad ar 31 Mawrth 2018, ond sydd wedi'i wrthdroi ar 31 Mawrth 2019.*

**Asedau ac Ymrwymiadau Pensiynau a Gydnabyddir yn y Fantolen.**

Mae'r swm a geir yn y fantolen sy'n deillio o ymrwymiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ran ei gynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2020 £000 | 31 Mawrth 2019 £000 | 31 Mawrth 2020 £000 | 31 Mawrth 2019 £000 | 31 Mawrth 2020 £000 |
| Gwerth presennol y ddyled buddion diffiniedig | 251,505 | 296,328 | 1,684,330 | 1,793,470 | 1,935,835 |
| Gwerth teg o asedau'r cynllun | -197,812 | -210,875 | 0 | 0 | -197,812 |
| Is-gyfanswm | 53,693 | 85,453 | 1,684,330 | 1,793,470 | 1,738,023 |
| Symudiad arall yn yr ymrwymiad(+)/ased(-)(os yn berthnasol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Dyledion net yn codi o'r ddyled budd diffiniedig | 53,693 | 85,453 | 1,684,330 | 1,793,470 | 1,738,023 |
|---|---|---|---|---|---|

**Cysoni'r Symudiad yng Ngwerth Teg Asedau'r Cynllun**

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol<br>31 Mawrth<br>2020<br>£000 | <br>31 Mawrth<br>2019<br>£000 |
|---|---|---|
| Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun | 210,875 | 189,541 |
| Incwm llog | 5,114 | 5,209 |
| Elw (+)/colled (-) ailfesuriad: | | |
| - adenillion ar asedau cynlluniedig, gan eithrio'r swm a gafodd ei gynnwys yn y gost llog net | -21,744 | 10,645 |
| Cyfraniadau gan gyflogwyr | 5,473 | 6,931 |
| Cyfraniadau gan weithwyr | 2,246 | 2,159 |
| Buddion a dalwyd | -4,152 | -3,610 |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun ar y diwedd** | **197,812** | **210,875** |

**Cysoni Gwerth Presennol Dyledion y Cynllun (Ymrwymiad Budd Diffiniedig)**

| | Dyledion a Ariannwyd: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Dyledion nas Ariannwyd: Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth<br>2020<br>£000 | 31 Mawrth<br>2019<br>£000 | 31 Mawrth<br>2020<br>£000 | 31 Mawrth<br>2019<br>£000 |
| Balans agoriadol ar 1 Ebrill | 296,328 | 250,443 | 1,793,470 | 1,645,360 |
| Cost cyfredol y gwasanaeth | 15,445 | 12,918 | 39,900 | 28,440 |
| Cost llog | 7,287 | 6,909 | 44,020 | 41,780 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | 2,246 | 2,159 | 7,150 | 7,020 |
| Ail-fesur enillion (+) a cholledion (-): | | | | |
| - Enillion (+) a cholledion (-) actiwaraidd yn deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | -10,437 | 0 | -53,470 | 0 |
| - Enillion (+) a cholledion (-) actiwaraidd yn deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | -34,187 | 27,574 | -55,000 | 49,980 |
| - Enillion/colledion profiad eraill | -21,185 | 52 | -36,090 | -5,050 |
| Costau gwasanaeth blaenorol | 280 | 0 | -8,760 | 75,590 |
| Trosglwyddiadau i Mewn | 0 | 0 | 700 | 310 |
| Buddion a dalwyd | -4,152 | -3,610 | -47,590 | -49,960 |
| Dyledion a ddilëwyd ar setliadau (lle bo'n berthnasol) | -120 | -117 | 0 | 0 |
| **Balans clo ar 31 Mawrth** | **251,505** | **296,328** | **1,684,330** | **1,793,470** |

## Asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2019-2020 | | | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2018-2019 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dyfynbrisiau mewn | Prisiau nas | Cyfanswm | Dyfynbrisiau | Prisiau nas dyfynnwyd | Cyfanswm |

| | Marchnadoedd Gweithredol | dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol | | mewn Marchnadoedd Gweithredol | mewn Marchnadoedd Gweithredol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Arian parod ac arian parod cyfwerth | 980 | 0 | **980** | 5,424 | 0 | **5,424** |
| **Is-gyfanswm** | 980 | 0 | **980** | 5,424 | 0 | **5,424** |
| Gwarantau Ecwiti: | | | | | | |
| *Yn ôl math o ddiwydiant:* | | | | | | |
| Defnyddwyr | 0 | 0 | **0** | 5,248 | 0 | **5,248** |
| Gweithgynhyrchu | 0 | 0 | **0** | 6,313 | 0 | **6,313** |
| Sefydliadau Ariannol | 0 | 0 | **0** | 2,461 | 0 | **2,461** |
| Iechyd a Gofal | 0 | 0 | **0** | 13,483 | 0 | **13,483** |
| Technoleg gwybodaeth | 0 | 0 | **0** | 3,689 | 0 | **3,689** |
| Arall | 0 | 0 | **0** | 7,160 | 0 | **7,160** |
| **Is-gyfanswm** | 0 | 0 | **0** | 38,354 | 0 | **38,354** |
| Gwarantau Dyledion: | | | | | | |
| Arall | 0 | 0 | **0** | 0 | 30,641 | **30,641** |
| **Is-gyfanswm** | 0 | 0 | **0** | 0 | 30,641 | **30,641** |
| Eiddo: | | | | | | |
| *Yn ôl math:* | | | | | | |
| Eiddo'r DU | 0 | 19,497 | **19,497** | 6,706 | 12,576 | **19,282** |
| Eiddo Tramor | 0 | 23 | **23** | 0 | 112 | **112** |
| **Is-gyfanswm** | 0 | 19,520 | **19,520** | 6,706 | 12,688 | **19,394** |
| | | | | | | |

| | **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2019-2020** | | | **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2018-2019** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dyfynbrisiau mewn Marchnadoedd Gweithredol | Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol | Cyfanswm | Dyfynbrisiau mewn Marchnadoedd Gweithredol | Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol | Cyfanswm |
| **(Parhad)** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Ecwiti Preifat: | | | | | | |
| Y DU a thramor | 0 | 11,499 | **11,499** | 0 | 11,448 | **11,448** |
| **Is-gyfanswm** | 0 | 11,499 | **11,499** | 0 | 11,448 | **11,448** |
| Cronfeydd Buddsoddi ac ymddiriedolaethau unigol eraill: | | | | | | |
| Ecwitïau | 0 | 132,658 | **132,658** | 41,028 | 60,435 | **101,463** |
| Seilwaith | 0 | 4,549 | **4,549** | 0 | 4,151 | **4,151** |
| Arall | 0 | 28,606 | **28,606** | 0 | 0 | **0** |
| **Is-gyfanswm** | 0 | 165,813 | **165,813** | 41,028 | 64,586 | **105,614** |
| **Cyfansymiau** | **980** | **196,832** | **197,812** | **91,512** | **119,363** | **210,875** |

**Sail ar gyfer amcangyfrif Asedau a Dyledion**

Cafodd y dyledion eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd, sef amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol gan ddibynnu ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaeth, lefelau cyflog ayyb.

Mae ymrwymiadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi'u hamcangyfrif gan Hymans Robertson ac mae ymrwymiadau Cynllun Pensiwn yr Heddlu wedi'u hamcangyfrif gan Adran Actwari'r Llywodraeth. Mae'r ddau yn sefydliad actwari annibynnol. Mae amcangyfrifon y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn seiliedig ar brisiad llawn

diweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2019. Mae pandemig y Coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol ac eiddo byd-eang. O ganlyniad i anwadalrwydd yn amodau'r farchnad, mae adroddiadau prisio diwedd blwyddyn a roddwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys datganiad fod ansicrwydd prisio sylweddol yn berthnasol i gronfa eiddo'r DU a reolir ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd. Cyfanswm gwerth y gronfa hon ar 31 Mawrth 2020 yw £191m gyda £19.5m (10%) yn briodol i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Mae amcangyfrif yr ymrwymiadau budd diffiniedig yn sensitif i'r tybiaethau actiwaraidd a ddefnyddir. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod wedi'i benderfynu yn seiliedig ar newidiadau posibl rhesymol bod y tybiaethau yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd, a rhagdybir am bob newid fod un dybiaeth yn newid tra mae'r holl ragdybiaethau eraill yn parhau'n gyson. Mae'r amcangyfrif yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu am y cynllun h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio dull rhagamcanu unedau credyd. Ni wnaeth y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddir wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd isod newid o'r rhai hynny a ddefnyddiwyd yn y cyfnod adrodd blaenorol.

| 2019-2020 | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynnydd mewn rhagdybiaeth £000 | Gostyngiad mewn rhagdybiaeth £000 | Cynnydd mewn rhagdybiaeth £000 | Gostyngiad mewn rhagdybiaeth £000 |
| Hirhoedledd (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) mewn 1 flwyddyn) | 10,060 | -10,060 | 50,000 | -50,000 |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) o 0.5%) | 25,688 | -25,688 | 130,000 | -130,000 |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) o 0.5%) | 4,470 | -4,470 | 17,000 | -17,000 |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) o 0.5%) | 25,688 | -25,688 | 130,000 | -130,000 |
| Cyfradd ar gyfer dyledion cynlluniau disgownt (cynnydd (+) neu ostyngiad (-) o 0.5%) | -30,485 | 30,485 | -163,000 | 163,000 |

**Strategaeth Cydweddu Asedau ac Ymrwymiadau**

Nid oes gan bwyllgor pensiynau Cyngor Gwynedd strategaeth cydweddu asedau ac ymrwymiadau. Cyfrifoldeb y pwyllgor pensiynau yw strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae rhaglen rheoli risg cyffredinol y Gronfa Bensiwn yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy marchnadoedd ariannol ac yn ceisio lleihau effeithiau andwyol posibl ar yr adnoddau sydd ar gael i dalu pensiynau. Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi creu Datganiad Strategaeth Ariannu ar y cyd ac Actiwarïaid y Gronfa, sy'n nodi sut y rheolir diddyledrwydd a risg o safbwynt ymrwymiadau. Adolygwyd a diweddarwyd y Strategaeth yn dilyn y prisiad actiwaraidd yn 2016. Mae wedi cymryd safbwynt cyffredinol o'r lefel o risg sy'n gynhenid yn y polisi buddsoddi a amlinellir yn y Datganiad Egwyddorion Buddsoddiadau a gyhoeddir o dan Reoliad 12 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Arian) 2016, (y rheoliadau buddsoddi) a'r polisi ariannu a amlinellwyd yn y Datganiad. Mae'r dogfennau hyn yn parhau i gael eu hadolygu i sicrhau fod y proffil risg cyffredinol yn parhau'n briodol.

**Effaith ar Lifoedd Arian y Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

Nod y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosibl. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actwari'r cynllun i ariannu 100% o'r cynllun dros yr 20 mlynedd nesaf. Monitrir lefelau ariannu'n flynyddol. Cwblheir y prisiad teirblwydd nesaf yn 2019-20 i'w weithredu o fis Ebrill 2020.

Bydd angen i'r cynllun ystyried y newidiadau cenedlaethol i'r cynllun o dan Ddeddf Gwasanaethau Pensiynau Cyhoeddus 2013. O dan y Ddeddf, ni all y Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr a'r prif gynlluniau gwasanaeth cyhoeddus presennol eraill ddarparu buddion o ran gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 (neu wasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2015 ar gyfer prif gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill yng Nghymru a Lloegr). Mae'r Ddeddf yn caniatáu i reoliadau cynllun gael eu pennu o fewn fframwaith cyffredin, er mwyn sefydlu cynlluniau enillion cyfartalog gyrfa newydd wedi'u hailbrisio ar gyfer talu pensiynau a buddion eraill i weision cyhoeddus penodol.

Rhagwelai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd y bydd yn talu £6.393 miliwn o gyfraniadau i'r cynllun yn 2020-2021.

Hyd cyfartalog cymhwysol yr ymrwymiad budd ddiffiniedig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yw 22.2 mlynedd yn, 2019-2020, (22.2 mlynedd 2018-2019). Y cyfartaledd cymhwysol ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Heddlu yw 21.0, 2019-2020, (22.0 mlynedd 2018-2019).

35. **Dyledion Digwyddiadol**

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd swm o £1.173 miliwn wrth gefn at ddibenion yswiriant. Mae £0.649 miliwn yn berthnasol i'r dyledion ychwanegol posibl o ran y Cynllun Trefniant ar gyfer Municipal Mutual Assurance ac mae £0.524 miliwn ar gyfer meysydd yswiriant ychwanegol o ran hawliadau presennol sy'n dod i'r amlwg ond sydd ddim yn cael eu cydnabod ar hyn o bryd.

Yn dilyn cais llwyddiannus yn yr achos llys Allard v Heddlu Dyfnaint a Chernyw am oramser di-dâl yn dilyn adalwadau i ddyletswydd, mae'r barnwr wedi dewis nifer o achosion prawf i ystyried yr holl broblemau a oedd yn codi yn y ceisiadau hyn yn erbyn heddluoedd ledled y wlad. Mae hawliadau Heddlu Gogledd Cymru felly'n parhau drwy orchymyn y Goruchaf Lys gan ddisgwyl canlyniad yr achosion prawf. Bydd cyfanswm cost yr hawliadau hyn yn ddibynnol ar yr egwyddorion a sefydlwyd yn yr achosion prawf a gallai nifer fynd yn ôl dros gyfnod o chwe blynedd. Ond ni ddisgwylir i'r effaith ariannol fod yn sylweddol o ran sefyllfa ariannol gyffredinol yr heddlu. Nid oes indemniad yswiriant ar gyfer y ceisiadau hyn.

Yn dilyn dyfarniad Llys Apêl, yn achos Evans & Ashcroft v Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, mae achos yr apelwyr o ran didyniad anghywir canfyddedig o rai o fuddion gwladol oherwydd anaf wedi'i gadarnhau. Mae hyn yn berthnasol i swyddogion a dderbyniodd gynnydd mewn Budd-dal Anabledd a Budd-dal Anabledd Anaf Diwydiannol rhwng 12.4.2001 ac 14.4.2001 lle na ddylai cyfwerth y cynyddiadau hyn wedi cael eu tynnu o'u pensiynau anaf. Disgwylir i'r Swyddfa Gartref roi arweiniad ar ymateb cenedlaethol gan nad yw'n eglur os yw'r dyfarniad yn berthnasol i achosion tebyg.

36. **Offerynnau Ariannol yn cynnwys Natur a Graddau'r Risgiau sy'n Codi**

**(a) Offerynnau Ariannol – Dosbarthiadau**

Offeryn ariannol yw cytundeb sy'n creu ased ariannol i un endid a dyled ariannol neu offeryn ecwiti i endid arall. Nid yw trafodion na ellir eu cyfnewid, fel y rhai hynny sy'n berthnasol i drethi a grantiau llywodraeth, yn creu offerynnau ariannol.

**Dyledion Ariannol**

Ymrwymiad ariannol yw dyled i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a gynrychiolir gan rwymedigaeth gytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol neu rwymedigaeth i gyfnewid asedau ac ymrwymiadau ariannol gydag endid arall sydd o bosibl yn anffafriol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae holl ddyledion ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a ddelir yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost a amorteiddiwyd ac yn cynnwys:

- benthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthycwyr masnachol,
- benthyciadau tymor byr gan awdurdodau lleol eraill,
- gorddrafft gyda banc HSBC,
- prydles daladwy gan gynnwys contractau Menter Cyllid Preifat a fanylir yn nodyn 31, a
- dyledion masnachol am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd

**Asedau Ariannol**

Ased ariannol yw hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a gynrychiolir gan arian parod, offerynnau ecwiti neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu asedau ariannol eraill neu hawl i gyfnewid asedau ac ymrwymiadau ariannol gydag endid arall sydd o bosibl yn ffafriol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae holl asedau ariannol a ddelir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost a amorteiddiwyd (lle mae llifoedd arian parod yn daliadau cyfalaf a llog yn unig, a model busnes y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw casglu'r llifoedd arian parod hynny) ac yn cynnwys:

- arian parod mewn llaw,

- cyfrifon banc cyfredol a blaendaliadau gyda banc HSBC,
- blaendaliadau tymor sefydlog gyda banciau a chymdeithasau adeiladu,
- bond corfforaethol, a
- derbyniadau masnachol am y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd.

Mae asedau ariannol a gadwyd ar gost a amorteiddiwyd yn cael eu dangos yn net o lwfans colledion (os yn sylweddol) sy'n adlewyrchu'r tebygolrwydd ystadegol y bydd y gwrthbarti yn methu bodloni eu hymrwymiadau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**(b) Offerynnau Ariannol – Balansau**

Mae'r dyledion ariannol a gynhwysir yn y Fantolen wedi'u dadansoddi ledled y categorïau canlynol:

| Dyledion Ariannol | Tymor Hir<br>31.3.2020<br>£000 | <br>31.3.2019<br>£000 | Tymor Byr<br>31.3.2020<br>£000 | <br>31.3.2019<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau ar gost a amorteiddiwyd: | | | | |
| - Prif swm a fenthycwyd | 9,255 | 0 | 5,620 | 16,657 |
| - Llog cronedig | 0 | 0 | 38 | 25 |
| **Cyfanswm Benthyca *** | **9,255** | **0** | **5,658** | **16,682** |
| Benthyciadau ar gost a amorteiddiwyd: | | | | |
| - Gorddrafft banc | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Arian Parod Dyledus** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Dyledion ar gost a amorteiddiwyd: | | | | |
| - Trefniadau PFI | 9,103 | 9,913 | 810 | 748 |
| **Cyfanswm Dyledion Tymor Hir Arall:** | **9,103** | **9,913** | **810** | **748** |
| Dyledion ar gost a amorteiddiwyd: | | | | |
| - Dyledion masnachol | 0 | 0 | 14,433 | 14,467 |
| **Cynhwysir mewn Credydwyr** | **0** | **0** | **14,433** | **14,467** |
| **Cyfanswm Dyledion Ariannol** | **18,358** | **9,913** | **20,901** | **31,897** |

* Mae cyfanswm y benthyca tymor byr yn cynnwys prif ad-daliadau sy'n ddyledus o fewn 12 mis ar fenthyca tymor hir.

Mae'r asedau ariannol a gynhwysir yn y Fantolen wedi'u dadansoddi ledled y categorïau canlynol:

| Asedau Ariannol | Tymor Hir<br>31.3.2020<br>£000 | <br>31.3.2019<br>£000 | Tymor Byr<br>31.3.2020<br>£000 | <br>31.3.2019<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| *Ar gost a amorteiddiwyd:* | | | | |
| - Prif swm | 0 | 0 | 0 | 3,507 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| - Llog cronedig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Lwfans colled | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **0** | **0** | **0** | **3,507** |
| *Ar gost a amorteiddiwyd:* | | | | |
| - Prif swm | 0 | 0 | 15,495 | 14,019 |
| - Llog cronedig | 0 | 0 | 19 | 23 |
| - Lwfans colled | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Arian parod ac arian parod cyfwerth** | **0** | **0** | **15,514** | **14,042** |
| *Ar gost a amorteiddiwyd:* | | | | |
| - Derbyniadau Masnach | 0 | 0 | 13,478 | 12,732 |
| - Lwfans colled | 0 | 0 | -7 | -2 |
| **Cynhwysir mewn Dyledwyr** | **0** | **0** | **13,471** | **12,730** |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | **0** | **0** | **28,985** | **30,279** |

**Gwrthbwyso Asedau ac Ymrwymiadau Ariannol**

Mae asedau ac ymrwymiadau ariannol yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd lle mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd hawl gyfreithiol orfodadwy i’w gwrthbwyso, ac mae'n bwriadu un ai i setlo ar sail net, neu i wireddu'r ased a setlo'r ddyled ar yr un pryd.

Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi'u cynnwys ar y fantolen.

| | 31.3.2020 | | | 31.3.2019 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau gros (dyledion) £000 | (Dyledion) asedau a wrthbwyswyd £000 | Sefyllfa net ar y fantolen £000 | Asedau gros (dyledion) £000 | (Dyledion) asedau a wrthbwyswyd £000 | Sefyllfa net ar y fantolen £000 |
| Derbyniadau masnach | 13,471 | 0 | 13,471 | 12,730 | 0 | 12,730 |
| Cyfrifon banc mewn credyd | 15,536 | -22 | 15,514 | 17,578 | -29 | 17,549 |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | **29,007** | **-22** | **28,985** | **30,308** | **-29** | **30,279** |
| Dyledion masnach | -14,433 | 0 | -14,433 | -14,467 | 0 | -14,467 |
| Gorddrafftiau banc | -14,935 | 22 | -14,913 | -16,711 | 29 | -16,682 |
| Trefniadau PFI | -9,913 | 0 | -9,913 | -10,661 | 0 | -10,661 |
| **Cyfanswm dyledion ariannol** | **-39,281** | **22** | **-39,259** | **-41,839** | **29** | **-41,810** |

**(c) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion**

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr o ran offerynnau ariannol yn cynnwys y canlynol:

| | Dyledion Ariannol | Asedau Ariannol | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cost a amorteiddiwyd £000 | Cost a amorteiddiwyd £000 | Cyfanswm 2019-2020 £000 | Cyfanswm 2018-2019 £000 |
| Traul llog | 1,050 | 0 | 1,050 | 1,083 |
| Colledion amhariad | 5 | 0 | 5 | 0 |
| Colledion o newidiadau mewn gwerth teg | 46,193 | 0 | 46,193 | 43,480 |
| Ffioedd a dalwyd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Llog taladwy a chostau tebyg** | **47,248** | **0** | **47,248** | **44,563** |
| Incwm llog | 0 | -129 | -129 | -115 |
| **Incwm llog a buddsoddiad** | **0** | **-129** | **-129** | **-115** |

| Effaith net ar weddill/diffyg ar ddarparu gwasanaethau | 47,248 | -129 | 47,119 | 44,448 |
|---|---|---|---|---|

(d)

**Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg**

Mae offerynnau ariannol a ddosbarthwyd ar gost a amorteiddiwyd yn cael eu cynnwys ar y Fantolen ar gost a amorteiddiwyd. Mae eu gwerthoedd teg wedi'u hamcangyfrif drwy gyfrifyddu'r gwerth presennol net o'r llifoedd arian cytundebol sy'n weddill ar 31 Mawrth 2020, gan ddefnyddio'r dulliau a rhagdybiaethau canlynol:

- Mae benthyciadau a fenthycwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi'u prisio drwy ostwng y llifoedd arian parod cytundebol dros oes gyfan yr offeryn ar y gyfradd farchnad briodol ar gyfer benthyciadau awdurdod lleol.
- Mae gwerthoedd teg benthyciadau tymor hir a buddsoddiadau eraill wedi'u gostwng ar y cyfraddau marchnad am offerynnau tebyg gyda thelerau tebyg yn weddill i aeddfedrwydd ar 31 Mawrth.
- Mae gwerthoedd teg dyledion cynllun PFI wedi'u cyfrifyddu drwy ostwng y llifoedd arian cytundebol (gan eithrio elfennau tâl gwasanaeth a thâl llog) ar yr arenillion bond corfforaethol gradd AA priodol.
- Ni chydnabyddir ad-daliad cynnar neu amhariad am unrhyw offeryn ariannol.
- Tybir fod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys taliadau a derbyniadau masnach, yn gyfateb a'r swm trosglwyddo o ystyried yr amgylchfyd cyfradd llog isel a sefydlog.

Gwelir gwerthoedd teg yn y tabl isod, wedi'u rhannu gan eu lefel yn yr hierarchaeth gwerth teg:

- Lefel 1 – mae gwerth teg ond yn tarddu o ddyfynbrisiau mewn marchnadoedd gweithredol am asedau neu ddyledion yr union yr un fath, e.e. prisiau bond
- Lefel 2 – cyfrifir gwerth teg o fewnbynnau heblaw am ddyfynbrisiau sy'n weladwy ar gyfer yr ased neu'r ymrwymiad, e.e. cyfraddau llog neu arenillion am offerynnau tebyg
- Lefel 3 – penderfynir ar werth teg gan ddefnyddio mewnbynnau nas gwelir, e.e. data di-farchnad fel rhagolygon llif arian neu deilyngdod credyd amcangyfrifedig

| | Lefel Gwerth Teg | Mantolen 31.3.2020 £000 | Gwerth Teg 31.3.2020 £000 | Mantolen 31.3.2019 £000 | Gwerth Teg 31.3.2019 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Ymrwymiadau ariannol a gadwyd ar gost a amorteiddiwyd:*** | | | | | |
| Benthyciadau tymor hir o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | **2** | 9,875 | 9,523 | 657 | 668 |
| Benthyciadau tymor hir eraill | **2** | 9,913 | 8,729 | 10,661 | 9,676 |
| **Cyfanswm** | | **19,788** | **18,252** | **11,318** | **10,344** |
| Ymrwymiadau lle na ddadlennir gwerth teg * | | 19,471 | | 30,492 | |
| **Cyfanswm Dyledion Ariannol** | | **39,259** | | **41,810** | |
| *Cofnodwyd ar y fantolen fel:* | | | | | |
| Credydwyr tymor byr | | 14,433 | | 14,467 | |
| Benthyciadau tymor byr | | 5,658 | | 16,025 | |
| Darpariaethau tymor byr | | 810 | | 0 | |
| Credydwyr tymor hir | | 9,255 | | 657 | |
| Benthyciadau tymor hir | | 9,103 | | 10,661 | |
| **Darpariaethau tymor hir** | | **39,259** | | **41,810** | |

*Tybir fod gwerth teg dyledion ariannol tymor byr a gadwyd ar gost a amorteiddiwyd, gan gynnwys taliadau masnach, i fod oddeutu'r swm trosglwyddo.

Mae gwerth teg ymrwymiadau ariannol a gadwyd ar gost a amorteiddiwyd yn is na'u swm trosglwyddo mantolen oherwydd bod y gyfradd llog gynhenid o fewn y tâl unedol PFI yn uwch na'r cyfraddau marchnad presennol sydd ar gael ar ddyddiad y Fantolen.

| | Lefel Gwerth Teg | Mantolen 31.3.2020 £000 | Gwerth Teg 31.3.2020 £000 | Mantolen 31.3.2019 £000 | Gwerth Teg 31.3.2019 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau ariannol a gadwyd ar gost a amorteiddiwyd:** | | | | | |
| Bond Corfforaethol | **1** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Asedau lle na ddadlennir gwerth teg * | | 28,985 | | 30,279 | |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | | **28,985** | | **30,279** | |
| *Cofnodwyd ar y fantolen fel:* | | | | | |
| Dyledwyr tymor hir | | 13,471 | | 12,730 | |
| Buddsoddiadau tymor hir | | 0 | | 3,507 | |
| Dyledwyr tymor byr | | 15,514 | | 14,042 | |
| Buddsoddiadau tymor byr | | **28,985** | | **30,279** | |

* Tybir fod gwerth teg asedau ariannol tymor byr a gadwyd ar gost ohiriedig, gan gynnwys derbyniadau masnach, i fod oddeutu'r swm trosglwyddo.

**e) Offerynnau Ariannol – Risgiau**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer ar Reoli'r Trysorlys a Chod Darbodus Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol CIPFA. Diwygiwyd y ddau ym mis Rhagfyr 2017.

Yn unol â Chod Rheoli'r Trysorlys, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys cyn cychwyn bob blwyddyn ariannol. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r ffiniau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag offerynnau ariannol. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd yn creu Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n manylu'r trefniadau arferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hyn.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi mewn cydymffurfiaeth gyda Chanllaw Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol. Mae'r Canllaw hwn yn pwysleisio y dylid blaenoriaethu diogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion.

Y prif risgiau a ofelir amdanynt yw:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd gwrthbarti i ased ariannol yn methu â bodloni ei rwymedigaethau cytundebol, gan achosi colled i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na all y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fod â'r arian parod ar gael i wneud taliadau cytundebol ar amser.
- *Risg Marchnad:* Y posibilrwydd y gall colled ariannol heb ei ragweld wireddu oherwydd newidiadau mewn amrywiadau marchnad fel cyfraddau llog neu brisiau ecwiti.

**Risg Credyd: Buddsoddiadau'r Trysorlys**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rheoli risg credyd drwy sicrhau fod buddsoddiadau'r trysorlys ond yn cael eu lleoli gyda sefydliadau o ansawdd credyd uchel fel yr amlinellwyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol gyda gradd gredyd tymor hir sylfaenol o A-, Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol eraill, a sefydliadau heb raddau credyd y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi derbyn cyngor buddsoddi annibynnol.

Gall cyfyngiad o £10m o'r portffolio cyfan gael ei fuddsoddi gyda HSBC fel bancwyr cytundebol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gosodir cyfyngiad o £4m ar y swm o arian a ellir ei fuddsoddi gyda gwrthbartïon unigol eraill (heblaw am lywodraeth y DU). Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £5m am gyfnod hirach na blwyddyn.

Mae'r tabl isod yn crynhoi datguddiadau risg credyd portffolio buddsoddi trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fesul gradd gredyd ac amser sy'n weddill i aeddfedu:

| Gradd Gredyd | 31.3.2020 Tymor Hir £000 | 31.3.2020 Tymor Byr £000 | 31.3.2019 Tymor Hir £000 | 31.3.2019 Tymor Byr £000 |
|---|---|---|---|---|
| AAA | 0 | 0 | 0 | 3,507 |
| AA+ | 0 | 0 | 0 | 0 |
| AA | 0 | 0 | 0 | 0 |
| AA- | 0 | 7,000 | 0 | 10,000 |
| A+ | 0 | 10 | 0 | 4,000 |
| A | 0 | 0 | 0 | 0 |
| A- | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **0** | **7,010** | **0** | **17,507** |

* fel cyfradd tymor hir cyhoeddedig Standard & Poor ar 31-3-2020

Ar ben yr uchod, cadwyd £8.467m yn y cyfrif cyfredol er mwyn sicrhau hylifedd digonol yn ystod cyfnod cyfyngiadau symud COVID 19. Cedwir y cyfrif cyfredol gyda HSBC sydd â gradd AA-.

**Risg Credyd: Derbyniadau Masnach**

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi derbyniadau masnach y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, fesul y dyddiad dyledus. Dim ond y derbyniadau hynny sy'n bodloni'r diffiniad o ased ariannol a gynhwysir.

| | 31.3.2020 Derbyniadau masnach £000 | 31.3.2020 Derbyniadau prydles £000 | 31.3.2019 Derbyniadau masnach £000 | 31.3.2019 Derbyniadau prydles £000 |
|---|---|---|---|---|
| Heb fynd heibio'r dyddiad dyledus nag wedi ei amharu | 4,835 | 0 | 4,255 | 0 |
| Heibio'r dyddiad dyledus < 3 mis | 82 | 0 | 88 | 0 |
| Heibio'r dyddiad dyledus > 3 mis | 76 | 0 | 66 | 0 |
| Diffyg unigol | 7 | 0 | 2 | 0 |
| **Cyfanswm Derbyniadau** | **5,000** | **0** | **4,411** | **0** |

Mae lwfansau colled ar dderbyniadau masnach wedi'u cyfrifo drwy gyfeirio at brofiad hanesyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ddiffyg talu. Penderfynir fod derbyniadau â diffyg credyd os ydynt wedi mynd heibio 90 diwrnod neu'n fwy. Mae derbyniadau yn cael eu hysgrifennu i ffwrdd i'r Gweddill neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaeth yn y pen draw.

**Risg Hylifedd**

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fynediad parod at fenthyca ar gyfraddau ffafriol o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch o fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes risg canfyddedig y bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddim yn gallu codi cyllid i fodloni ei ymrwymiadau. Fodd bynnag, mae yna risg y bydd angen ail-ariannu cyfran sylweddol o'i fenthyca mewn cyfnod o gyfraddau llog uchel anffafriol.

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd offerynnau ariannol fel a ganlyn:

| Amser i aeddfedrwydd (blynyddoedd) | 31.3.2020 Dyledion £000 | 31.3.2020 Asedau £000 | 31.3.2020 Net £000 | 31.3.2019 Dyledion £000 | 31.3.2019 Asedau £000 | 31.3.2019 Net £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim dros 1 | -20,781 | 28,985 | 8,204 | -31,897 | 30,279 | -1,618 |
| Dros 1 ond nid dros 2 | -1,377 | 0 | -1,377 | -810 | 0 | -810 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dros 2 ond nid dros 5 | -4,600 | 0 | -4,600 | -2,859 | 0 | -2,859 |
| Dros 5 ond nid dros 10 | -7,626 | 0 | -7,626 | -6,244 | 0 | -6,244 |
| Dros 10 ond nid dros 20 | -4,875 | 0 | -4,875 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **-39,259** | **28,985** | **-10,274** | **-41,810** | **30,279** | **-11,531** |

**Risgiau Marchnad: Risg Cyfradd Llog**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn agored i risg o ran ei amlygrwydd i symudiadau cyfradd log ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae gan symudiadau mewn cyfraddau llog effaith gymhleth ar yr awdurdod. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn cael yr effaith ganlynol:

- benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd cost y llog yn codi
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr ymrwymiadau yn gostwng
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd incwm o'r llog yn codi
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr ased yn gostwng.

Nid yw buddsoddiadau yn cael eu mesur ar gost a amorteiddiwyd ac nid yw benthyciadau yn cael eu trosglwyddo ar werth teg, felly ni fydd newidiadau yn eu gwerth teg yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Fodd bynnag, mae newidiadau mewn llog sy'n daladwy neu'n dderbyniol ar fenthyciadau a buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol yn cael eu trosglwyddo i'r Gweddill neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau. Mae symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog a fesurir ar werth teg yn cael eu hadlewyrchu yn yr Incwm Hollgynhwysfawr Arall neu'r Gweddill neu Ddiffyg ar y Darpariaeth Gwasanaethau fel sy'n briodol.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn anelu i liniaru'r risgiau hyn drwy osod terfynau uchaf ar ei ddadleniadau net i gyfraddau llog sefydlog ac amrywiol. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 100% (2019: 100%) o brifswm net a fenthycwyd (h.y. benthyca net o fuddsoddiadau) yn agored i gyfraddau sefydlog a 0% (2019: 0%) i gyfraddau amrywiol.

**Risgiau Marchnad: Risg Prisiau**

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn buddsoddi mewn cyfraddau ecwiti ac nid yw felly'n agored i unrhyw risg prisiau (h.y. y risg y bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dioddef colled o ganlyniad i symudiadau andwyol ym mhris yr offeryn ariannol).

**Risgiau Marchnad: Risg Cyfnewidfa Dramor**

Nid oes gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd asedau nag ymrwymiadau ariannol mewn arian cyfred tramor. Felly nid oes dadleniad i golled yn codi o ganlyniad i symudiadau andwyol mewn cyfraddau cyfnewid.

37. **Cynlluniau Partneriaeth**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ynghlwm mewn gwaith partneriaeth gyda DangerPoint Ltd ac Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (PACT). Mae manylion am gyfrifon PACT a DangerPoint ar gael ar gais.

38. **Cronfeydd**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweinyddu'r cronfeydd canlynol ar gyfer y pwrpas a nodir –

| | **31.3.2020 £000** | **31.3.2019 £000** |
|---|---|---|
| Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu (Enillion eiddo a atafaelwyd i'w rhannu ymysg elusennau) | 1 | 18 |
| Cronfa Camddefnyddio Cyffuriau (Arian a atafaelwyd o droseddau cyffuriau a ddefnyddiwyd i ariannu gwariant mewn atal cyffuriau) | 133 | 130 |

| | | 134 | 148 |
|---|---|---|---|

39. **Gweithrediadau/Cydweithrediad a Reolir ar y Cyd**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhan o nifer o gydweithrediadau (yn rhanbarthol a chenedlaethol). Ym mhob achos mae'r cyfrifon Grŵp yn adlewyrchu ein cyfran o incwm, gwariant a llifoedd arian parod sy'n codi o strwythur y trefniant. Gan fod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn derbyn holl incwm a nawdd, bydd unrhyw incwm sy'n dderbyniadwy o strwythur y trefniant yn cael ei gredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gan fod y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr y Prif Gwnstabl yn cynnwys y gwariant sy'n codi o'r cydweithrediadau hyn, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn credydu'r Prif Gwnstabl gyda swm cyfatebol drwy drefniadau ariannu rhwng y grŵp.

Mae canllaw CIPFA ar gyfrifyddu ar gyfer cydweithrediad wedi'i ystyried wrth benderfynu ar natur y cysylltiadau. Gan fod y mwyaf o drefniadau â rheolaeth ar y cyd drwy fwrdd rheoli strategol, ystyrir fod y mwyafrif wedi'u dosbarthu'n gywir fel gweithrediadau ar y cyd. Mae rhai trefniadau o natur gydweithredol ond wedi'u dosbarthu fel taliadau trydydd parti. Mae eraill yn ymwneud a swyddogion o heddluoedd unigol yn cyflawni dyletswyddau ar sail ranbarthol ond yn cael eu hariannu gan heddlu arweiniol o grantiau a gafwyd gan y Swyddfa Gartref, asiantaethau eraill neu sy'n cael eu hunan ariannu gan ffioedd a chostau.

Mae'r canlynol yn grwpio'r trefniadau i:

Cydweithio – Cydweithrediadau
Cydweithio – taliadau Trydydd Parti
Cydweithio – Grant/Hunan-ariannu

**Cydweithio – Cydweithrediadau**

Sefydlwyd Titan ym mis Ebrill 2009 gan ddod â'r chwe heddlu rhanbarthol at ei gilydd i ymdrin â throseddau difrifol a threfnedig yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. Mae'n cwmpasu gwaith nifer o dimau gyda Heddlu Glannau Mersi fel yr heddlu arweiniol. Yn 2019-2020 trosglwyddwyd cyfrifoldeb swyddogaeth Gwasanaeth Unigolion Gwarchodedig i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Mae'r swm a adlewyrchir yng nghyfrifon Heddlu Gogledd Cymru yn 2019-2020 yn £832k (£845k yn 2018-2019) gyda'r dadansoddiad yn ôl swyddogaeth fel a ganlyn:

| **2018-2019** Gwariant Net **£'000** | Swyddogaethau | **2019-2020** Gwariant **£'000** | Incwm **£'000** | Gwariant Net **£'000** |
|---|---|---|---|---|
| 220 | Uned Troseddau Rhanbarthol | 236 | 0 | 236 |
| 36 | Cudd-wybodaeth Carcharorion | 71 | -29 | 42 |
| 8 | Uned Cudd-wybodaeth Rhanbarthol | 25 | -14 | 11 |
| 172 | Uned Gwyliadwriaeth Dechnegol | 189 | -13 | 176 |
| 89 | Gwasanaeth Unigolion a Ddiogelir | -1 | 0 | -1 |
| 162 | Uned Gyfrinachol | 178 | -10 | 168 |
| 0 | Tîm Adfer Asedau Rhanbarthol | 52 | -52 | 0 |
| 6 | Swyddog Diogelwch Gweithredol | 13 | -7 | 6 |
| 0 | Troseddau Seiber | 21 | -21 | 0 |
| 0 | GAIN | 3 | -3 | 0 |
| 107 | Gwasanaethau Fforensig Cudd | 256 | -144 | 112 |
| 0 | ACE | 12 | -12 | 0 |
| 0 | ECURFT | 14 | -14 | 0 |
| 0 | Atal | 10 | -10 | 0 |
| 0 | Aflonyddwch | 12 | -12 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 44 | Cymorth Busnes | 82 | 0 | 82 |
| 1 | Grantiau Titan Eraill | 46 | -46 | 0 |
| **845** | **Cyfanswm** | **1,219** | **-387** | **832** |

Mae'r ymgyrchoedd ar y cyd canlynol gyda Swydd Gaer fel heddlu arweiniol:

| **2018-2019** | **Swyddogaethau** | **2019-2020** | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net £'000** | | **Gwariant £'000** | **Incwm £'000** | **Gwariant Net £'000** |
| 73 | Uned Chwilio Tanddwr ar y Cyd | 102 | -29 | 73 |
| 46 | Drylliau Tanio Rhanbarthol | 66 | -10 | 56 |
| 2,834 | Cynghrair Plismona Arfog | 3,182 | -114 | 3,068 |
| 579 | Cytundeb Hyfforddi MET Cynghrair Plismona Arfog | 661 | -1 | 660 |
| 0 | Cynghrair Gŵn | 225 | -225 | 0 |
| 10 | ANPR | 10 | 0 | 10 |
| **3,542** | **Cyfanswm** | **4,246** | **-379** | **3,867** |

Mae'r ymgyrchoedd canlynol yn gydweithrediad gyda heddluoedd eraill yng Nghymru. Mae cyfran dybiannol o'r gwariant a'r incwm wedi'i adlewyrchu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr a ddyrannwyd yn ôl canran poblogaeth ledled Cymru.

| **CYFRAN O GYDWEITHREDIAD GWASANAETH 2019-2020** | | **Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth** | **Ymgynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol** |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Poblogaeth %** | **£000** | **£000** |
| De Cymru | 42.41% | 5,032 | 237 |
| Dyfed Powys | 16.50% | 1,959 | 92 |
| Gwent | 18.84% | 2,235 | 105 |
| Gogledd Cymru | 22.25% | 2,640 | 125 |
| **Cyfanswm:** | **100.00%** | **11,866** | **559** |
| **Cyfanswm Incwm a Grantiau** | **Poblogaeth %** | **£000** | **£000** |
| De Cymru | 42.41% | -5,032 | -237 |
| Dyfed Powys | 16.50% | -1,959 | -92 |
| Gwent | 18.84% | -2,235 | -105 |
| Gogledd Cymru | 22.25% | -2,640 | -125 |
| **Cyfanswm:** | **100.00%** | **-11,866** | **-559** |

| **CYFRAN O GYDWEITHREDIAD GWASANAETH 2018-2019** | **Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth** | **Ymgynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol** |
|---|---|---|

| Gwariant Gros | Poblogaeth % | £000 | £000 |
|---|---|---|---|
| Dyfed Powys | 42.38% | 3,893 | 201 |
| Gwent | 16.54% | 1,519 | 78 |
| Gogledd Cymru | 18.80% | 1,727 | 89 |
| De Cymru | 22.28% | 2,046 | 106 |
| **Cyfanswm:** | **100.00%** | **9,185** | **474** |
| **Cyfanswm Incwm a Grantiau** | **Poblogaeth %** | **£000** | **£000** |
| Dyfed Powys | 42.38% | -3,893 | -201 |
| Gwent | 16.54% | -1,519 | -78 |
| Gogledd Cymru | 18.80% | -1,727 | -89 |
| De Cymru | 22.28% | -2,046 | -106 |
| **Cyfanswm:** | **100.00%** | -9,185 | -474 |

Yn 2017-2018 sefydlwyd Tîm Cydweithredu Cymru Gyfan ar sail tymor byr i gydlynu gweithgareddau presennol a nodi cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithredu ar draws y pedwar heddlu yng Nghymru. Yn draddodiadol, arweiniwyd y tîm gan Ddirprwy Brif Gwnstabl ac roedd yn cael ei ariannu ar sail cyfraniadau wedi'u cytuno gan bob Heddlu yng Nghymru. Yn ystod 2019-2020 cytunwyd y byddai'r tîm yn cael ei arwain gan Brif Gwnstabl Cynorthwyol gyda chostau'r rôl arweiniol yn cael eu talu gan yr heddlu cartref. Roedd cyfanswm costau'r tîm yn 2018-2019 yn 2019-2020 yn £282k (2018-2019 – £396k) ac roedd cyfraniad Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i'r costau hyn yn £59k yn 2019-2020 (2018-2019 – £88k). Ym mis Rhagfyr 2019 daeth Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Gogledd Cymru yn arweinydd Tîm Cydweithredol Cymru Gyfan gyda chostau o £41k yn 2019-2020 yn cael eu talu gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Mae dyledwyr a chredydwyr o ran y trefniadau uchod wedi parhau ym mantolenni'r prif heddluoedd drwy gydgytundeb ar sail materoldeb.

**Cydweithio – Taliadau Trydydd Parti**

Yr unig drefniant arwyddocaol o'r math hwn yw'r taliad a wnaed tuag at y Gwasanaeth Awyr Heddlu Cenedlaethol (NPAS) a oedd yn £0.457 miliwn yn 2019-2020 (£0.505 miliwn yn 2018-2019).

**Cydweithio – Grant/Hunan-ariannu**

Mewn nifer bychan o drefniadau cydweithio gwnaeth Heddlu Gogledd Cymru ddarparu swyddogion ar secondiad i gynorthwyo'r trefniadau. Cafodd ei ad-dalu'n llawn gan heddluoedd neu asiantaethau eraill a dderbyniodd arian grant gan y Swyddfa Gartref neu Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant.

## Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu

Ers 2006-2007 telir Pensiynau Swyddogion Heddlu ar wahân i'r prif gyfrif refeniw. Telir cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr ac unrhyw incwm Pensiynau eraill i'r cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu a'r holl wariant Pensiynau'r Heddlu allan o'r cyfrif. Mae Cynllun Pensiwn yr Heddlu yn gynllun heb ei ariannu ac felly, heb asedau buddsoddi. Mae angen i bob Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ôl deddfwriaeth weithredu Cronfa Bensiwn ac mae'r symiau i'w talu i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn wedi eu pennu yn ôl rheoliad. Mae Rheoliadau Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007 yn darparu fod unrhyw ddiffyg ar y cyfrif yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i gydbwyso'r gronfa i ddim. Ad-delir y diffyg hwn gan y Swyddfa Gartref ac fe gyfrifir amdano drwy gyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Yn yr un modd, mae unrhyw weddill sy'n codi o'r gwariant sy'n llai na'r incwm sy'n ofynnol i'w had-dalu i'r Swyddfa Gartref gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae lefelau cyfraniad gweithiwr a chyflogwyr yn seiliedig ar ganrannau tâl pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan y Swyddfa Gartref ac yn amodol ar ailbrisiad bob tair blynedd gan Adran Actwari'r Llywodraeth. Mae dyledion pensiwn tymor hir wedi'u manylu o fewn nodyn 34 Buddion Ymddeol.

Mae'r Cyfrif Pensiwn wedi'i lunio i ryddhau ymrwymiadau i dalu pensiynau wrth iddynt fod yn ddyledus, ac nid yw yn ystyried pensiynau ac ymrwymiadau eraill ar ôl diwedd y cyfnod. Trinnir holl drafodion y gronfa yn unol â Pholisïau Cyfrifyddu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel yr amlinellir ar dudalennau 64 i 78. Gweinyddir y Gronfa Bensiwn drwy gytundeb cytundeb trydydd parti.

| 2018-2019 £000 | Cyfrif y Gronfa | 2019-2020 £000 |
|---|---|---|
| | **Cyfraniadau sy'n dderbyniadwy** | |
| | Gan y Cyflogwr:- | |
| 12,616 | - Arferol | 16,512 |
| 0 | - Ymddeoliadau cynnar | 0 |
| 1,111 | - Cyfraniad Cyfalaf at Ymddeoliadau ar sail Salwch | 156 |
| 7,018 | Cyfraniadau Aelodau | 7,157 |
| 336 | Trosglwyddiadau i mewn | 878 |
| **21,081** | **Cyfanswm Incwm** | **24,703** |
| | **Buddion Taladwy** | |
| 35,837 | Pensiynau | 37,896 |
| 11,605 | Buddion ymddeol cymudol a lwmp swm | 6,899 |
| 0 | Taliadau lwmp swm ar adeg marwolaeth | 237 |
| | **Taliadau i ac ar ran ymadawyr** | |
| 10 | Trosglwyddiad allan i gynlluniau eraill | 0 |
| 33 | Ad-dalu Cyfraniadau | 42 |
| **47,485** | **Cyfanswm y symiau sy'n daladwy** | **45,074** |
| 26,404 | Swm Net sy'n Daladwy am y flwyddyn cyn trosglwyddiad o | 20,371 |

| | | |
|---|---|---|
| -26,404 | Gronfa'r Heddlu<br>Cyfraniad Ychwanegol o'r Gronfa Heddlu (drwy grant)1 | -20,371 |
| **0** | **Swm net sy'n daladwy/derbyniadwy ar ddiwedd y flwyddyn** | **0** |
| | **Datganiad Asedau Net:** | |
| 60 | Cyfraniadau'n ddyledus gan y cyflogwr | 60 |
| 21 | Buddion pensiwn di-dâl | 21 |
| -81 | Asedau a dyledion cyfredol eraill (heblaw am ddyledion i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol) | -81 |
| **0** | **Cyfanswm Dyledion** | **0** |

[1]**2018-2019**: Mae cyfraniad ychwanegol y Swyddfa Gartref yn seiliedig ar 21.3% o gyfraniad cyflogwyr fel yn ôl y Prisiad actiwaraidd. Mae'r cyfrifon uchod yn seiliedig ar 24.2% o gyfraniad cyflogwr fel yn ôl y rheoliadau pensiwn
**2019-2020**: Mae cyfraniad y Swyddfa Gartref a'r cyfrifon fel y prisiad actiwaraidd o 31.0%

## Datganiad Grŵp o Bolisïau Cyfrifyddu

1. **Cyffredinol**

Mae'r Datganiad o Gyfrifon Grŵp yn crynhoi trafodion y Comisiynydd Heddlu a Throsedd am flwyddyn ariannol 2019-2020 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2020. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol yn unol a Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'r Rheoliadau'n gofyn i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn bennaf yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-2020, a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a chanllaw statudol a gyflwynwyd o dan adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r cod yn manylu'r egwyddorion ac arferion cyfrifyddu angenrheidiol i baratoi Datganiad o Gyfrifon Grŵp sy'n cyflwyno safbwynt 'gwir a theg' o'r sefyllfa ariannol, perfformiad ariannol a llifoedd arian parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, gan gynnwys datganiadau ariannol y grŵp.

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yw cost hanesyddol, a ddiwygir drwy ailbrisio categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

2. **Croniadau Incwm a Gwariant**

Adroddir am weithgarwch yn y flwyddyn mae'n digwydd, nid yn unig pan wneir taliadau a derbynnir arian parod. Yn benodol:

- Cydnabyddir refeniw o werthiant nwyddau pan mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn trosglwyddo'r risgiau sylweddol a manteision perchnogaeth i'r prynwr, ac mae'n debyg y bydd y buddion economaidd neu'r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

- Cydnabyddir refeniw o ddarparu gwasanaethau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd pan gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fesur canran cwblhad y trafodiad yn ddibynadwy, ac mae'n debyg y bydd y buddion economaidd neu'r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

- Cofnodir nwyddau fel gwariant pan y'i defnyddir. Pan mae bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir nwyddau a phryd y defnyddir nhw, cant eu trin fel stoc ar y Fantolen.

- Cofnodir costau o ran gwasanaethau a roddwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau.

- Cyfrifir llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ac yn daladwy ar fenthyciadau yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail y raddfa llog sy'n berthnasol i'r offeryn ariannol hwnnw, yn hytrach na'r llifoedd arian a oedd wedi'u bennu neu eu penderfynu gan y contract.

- Pan mae refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nid yw arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, bydd y ddyled neu'r credyd am y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Fantolen. Gosodir lefel deminimus o £3k ar gyfer y trafodion hyn. Os na setlir dyledion, ysgrifennir balans y dyledwyr i lawr a gwneir cost i'r cyfrif refeniw am yr incwm na fydd efallai'n cael ei gasglu.

3. **Arian parod a chywerthoedd arian parod**

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adnau gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb gyda hysbysiad o ddim mwy na 24 awr. Mae cyfwerthoedd arian parod yn fuddsoddiadau all aeddfedu ar unwaith ar y dyddiad caffael ac sy'n gallu cael eu trosi'n hawdd i symiau penodol o arian gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian Parod, mae arian parod a'r cywerthoedd arian parod yn cael eu dangos fel net o orddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar ofyn ac yn ffurfio rhan annatod o reolaeth arian parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

4. **Eitemau eithriadol**

Pan mae eitemau o incwm a gwariant yn sylweddol, datgelir eu natur a'u swm ar wahân, un ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, gan ddibynnu ar ba mor sylweddol yw'r eitemau i ddeall cyflawniad ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

5. **Addasiadau i Gyfnodau Blaenorol, Newidiadau yn y Polisïau Cyfrifyddu, Amcangyfrifon a Gwallau**

Gall addasiadau i gyfnodau blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwall materol. Mae newidiadau yn yr amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cyfrifo'n rhagolygol, h.y. yn y blynyddoedd presennol a'r dyfodol a effeithir gan y newid ac nad ydynt yn arwain at addasiad o'r cyfnod blaenorol.

Gwneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu dim ond pan mae angen gan arferion cyfrifyddu priodol neu mae'r newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynghylch effaith trafodion, digwyddiadau a chyflyrau ar sefyllfa neu berfformiad ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Pan wneir newid, oni bai y nodir fel arall, bydd yn cael ei ôl-weithredu drwy addasu balansau agoriadol a'r symiau cymharol am y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi bod yn gymwys erioed.

Cywirir gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnod blaenorol yn ôl-weithredol drwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol am y cyfnod blaenorol.

6. **Taliadau Refeniw ar gyfer Asedau Anghyfredol**

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn codi dibrisiant, ailbrisiad ac amhariad ar wahân i wasanaethau, gwasanaethau cefnogol neu gyfrifon masnachu.

Nid yw'n ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd godi'r dreth gyngor i ariannu dibrisiant, colledion ailbrisiad ag amhariad neu amorteiddiad. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at leihau ei ofynion benthyca cyffredinol sydd gyfwerth a'r swm sy'n cael ei gyfrif ar sail ddarbodus a benderfynir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn unol â chanllaw statudol.

Mae dibrisiant, colledion ailbrisiad ag amhariad neu amorteiddiad felly'n cael eu disodli gan y cyfraniad ym Malans y Gronfa Gyffredinol (Darpariaeth Refeniw), a thrwy trafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

7. **Buddion Gweithwyr**

**Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth**

Buddion gweithwyr tymor byr yw'r rhai hynny sydd i fod i'w setlo o fewn 12 mis o ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion fel cyflogau, gwyliau blynyddol taladwy ac absenoldeb salwch taladwy, bonwsau a buddion anariannol (e.e. ceir) i weithwyr presennol. Maent yn cael eu cydnabod fel cost am wasanaeth yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn ei roi i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gwneir croniad am gost absenoldeb sy'n codi o hawliadau gwyliau neu amser i ffwrdd yn lle a enillir gan weithwyr ond na chymerir cyn diwedd y flwyddyn y gall gweithwyr eu cario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar y cyfraddau cyflog sy'n berthnasol yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, gan fod yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn cymryd y budd. Codir y croniad i'r Gweddill neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaeth, ond wedyn mae'n cael ei wrthdroi drwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd fel y gall buddion gwyliau gael eu talu o'r cyfrif refeniw yn y flwyddyn ariannol pan fydd yr absenoldeb gwyliau'n digwydd.

**Buddion Terfynu**

Buddion terfynu yw symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i derfynu cyflogaeth gweithiwr cyn ei ddyddiad ymddeoliad arferol neu benderfyniad gweithiwr i dderbyn diswyddiad gwirfoddol. Maent yn cael eu codi ar sail croniadau yn y llinell Costau Heb eu Dosbarthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr ar y cynharaf o: pan na all y Comisiynydd Heddlu a Throsedd dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl; neu pan fydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod costau ar gyfer ailstrwythuro.

Pan mae buddion terfynu'n cynnwys gwelliant mewn pensiwn, mae darpariaethau statudol yn gofyn i Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm sy'n cael ei gyfrif yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd, mae angen neilltuad arian i ac o'r Gronfa Bensiwn i ddisodli'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer y buddion terfynu gwella pensiwn a'u cyfnewid gyda'r debydau am yr arian sydd wedi ei dalu i'r gronfa bensiwn a'r pensiynwyr ynghyd ag unrhyw symiau tebyg sy'n ddyledus ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

**Buddion Ôl-Gyflogaeth**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyfranogi mewn dau gynllun pensiwn gwahanol. Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig sy'n berthnasol i dâl a gwasanaethau i'r aelodau gwahanol.

*Staff sy'n gyflogedig yn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Staff yr Heddlu*
Mae'r gweithwyr yma yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Dywedodd yr asesiad actiwaraidd teirblynyddol yn 2016 fod angen i gyfraniad y cyflogwr gael ei osod ar 16.3% y flwyddyn fel leiafswm ynghyd â lwmp swm o £0.8m er mwyn diwallu dyledion y gronfa. Gwnaeth yr asesiad bob tair blynedd yn 2019 gyfradd sylfaenol o 19% o fis Ebrill 2020 gyda dim cyfandaliad.

*Swyddogion Heddlu*
Hyd at 2005-2006 roedd cost cynllun pensiynau'r heddlu, a oedd yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu, ei dalu o Gyfrif Incwm a Gwariant yr Awdurdod Heddlu blaenorol. Yn 2006-2007 roedd newid yn y ffordd yr oedd pensiynau'r heddlu yn cael eu cyfrifo a chrëwyd cronfa ganolog gan y Swyddfa Gartref i dalu costau pensiynau a thaliadau cymudo. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn talu canran o gyflogau'r swyddogion i mewn i'r gronfa (24.2% ar hyn o bryd). Mae pensiynau anaf yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a chânt eu talu o Gyfrif Incwm a Gwariant y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun buddion diffiniedig:

- mae dyledion Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn gyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, h.y. asesiad o daliadau'r dyfodol a wneir o ran buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr ayyb, ac amcangyfrifon enillion tybiannol gweithwyr presennol.

- mae'r ymrwymiadau yn cael eu disgowntio i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar gyfradd adennill ddangosol ar fondiau Llywodraeth a addasir ar gyfer adenillion ychwanegol o fondiau corfforaethol o ansawdd uchel (iBoxx Sterling Corporates AA).

- mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd wedi'u priodoli i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu cynnwys ar y Fantolen ar eu gwerth teg:
  Gwarantau a ddyfynnwyd ar eu pris cynnig cyfredol
  Gwarantau na ddyfynnwyd ar amcangyfrif proffesiynol
  Gwarantau unedol ar eu pris cynnig cyfredol
  Eiddo ar werth y farchnad.
- dadansoddir y newid yn yr ymrwymiad pensiwn net i'r elfennau canlynol:

Cost gwasanaeth sy'n cynnwys:

(i) Cost Gyfredol y Gwasanaeth - y cynnydd yng ngwerth cyfredol yr ymrwymiad budd ddiffiniedig sy'n deillio o wasanaeth gweithwyr yn y cyfnod presennol sydd wedi'i ddyrannu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

(ii) Cost Flaenorol y Gwasanaeth - y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i ddiwygiad neu gwtogiad cynllun sy'n cael effaith ar y blynyddoedd o wasanaeth a sicrhawyd mewn blynyddoedd cynt ac yn cael eu debydu i'r Gweddill neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr fel rhan o Gostau Heb eu Dosbarthu.

(iii) Llog net ar yr ymrwymiad budd ddiffiniedig net (ased) – y gost llog net i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd o'r newid yn ystod y cyfnod yn y ddyled ddiffiniedig net (ased) sy'n codi o dreigl amser, a chaiff ei godi i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Cyfrifir hyn drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur y ddyled budd ddiffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r ymrwymiad budd ddiffiniedig net (ased) ar ddiwedd y cyfnod gan ystyried unrhyw newidiadau yn y ddyled budd ddiffiniedig net (ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ail fesuriad sy'n cynnwys:

(i) Elw ar asedau cynlluniedig - gan eithrio symiau a geir yn y llog net ar y ddyled budd diffiniedig net (ased) a chodir yn erbyn y Gronfa Bensiynau fel Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr Arall.

(ii) Enillion neu golledion actiwaraidd - newidiadau yn y ddyled pensiwn net sy'n codi oherwydd nad yw'r digwyddiadau'n cyd-fynd â thybiaethau a wnaed adeg y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu tybiaethau a godir yn erbyn y Gronfa Bensiynau fel Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr Arall.

Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd – arian a delir fel cyfraniadau cyflogwyr i'r gronfa bensiwn wrth setlo ymrwymiadau. Ni chyfrifir hyn fel gwariant.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn nodi bod rhaid i falans y Gronfa Gyffredinol gynnwys y symiau sy'n daladwy gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn, ac nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, mae hyn yn golygu fod trosglwyddiadau i ac o'r Gronfa Bensiynau yn disodli debydau a chredydau tybiannol am fuddion ymddeol a'u cyfnewid â'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr, ynghyd ag unrhyw symiau eraill sy'n daladwy ond na thalwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiynau felly'n mesur yr effaith fanteisiol ar y Gronfa Gyffredinol o fod angen cyfrifo am fuddion ymddeoliad ar sail llif arian yn hytrach nag fel buddion a enillwyd gan y gweithwyr.

**Buddion Dewisol**

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol o fuddion ymddeoliad pan geir ymddeoliadau cynnar. Cronnir unrhyw ddyledion a amcangyfrifir i godi o ganlyniad i ddyfarniadau i unrhyw aelod o staff ym mlwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau fel sy'n gymwysedig i'r Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol ac yn unol â phroses ymddeoliad cynnar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

8. **Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, sy'n ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n cynnwys tystiolaeth o amodau a fodolodd ar ddiwedd y cyfnod adrodd, a dylai'r Datganiad o Gyfrifon gael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.

- y rhai hynny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd, sydd ddim angen addasu'r Datganiad o Gyfrifon i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath. Ond os byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith materol, gwneir dadleniad yn y nodiadau o natur y digwyddiadau ac amcan o'u heffaith ariannol.

Ni adlewyrchir pethau sy'n digwydd ar ôl dyddiad awdurdodi eu cynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

9. **Offerynnau Ariannol**

<u>Ymrwymiadau Ariannol</u>

Cydnabyddir Ymrwymiadau Ariannol ar y Fantolen pan mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dod yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac sy'n cael eu mesur yn gychwynnol ar werth teg ac o ganlyniad yn cael eu trosglwyddo ar eu cost amorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr ar gyfer llog taladwy yn seiliedig ar swm cario’r ymrwymiad, wedi lluosi gyda chyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n union ddisgowntio’r taliadau arian parod amcanol yn y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cydnabuwyd yn wreiddiol.

Mae'r swm a gyflwynir yn y fantolen o ran benthyca tymor hir a byr yw'r prif swm gweddilliol sy'n ad-daladwy (ynghyd â llog cronedig). Llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyciad.

Credydir a debydir enillion a cholledion adbryniad neu setliad cynnar benthyca i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn y flwyddyn adbrynu/setliad. Fodd bynnag, lle mae adbrynu wedi digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau sy'n cynnwys addasu neu gyfnewid offerynnau sy’n bodoli eisoes, mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei ddidynnu neu ei hychwanegu yn y drefn honno i gost amorteiddio’r benthyciad newydd neu’r un a ddiwygiwyd. Mae'n cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant ac yn cael ei wasgaru dros oes y benthyciad drwy addasu’r gyfradd llog effeithiol.

Pan mae premiymau neu ddisgowntiau wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, mae rheoliadau'n caniatáu’r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol i gael ei ledaenu dros y blynyddoedd i ddod. Polisi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw lledaenu'r elw neu'r golled dros y tymor a oedd yn weddill ar y benthyciad yr oedd y premiwm yn daladwy neu’r disgownt oedd yn berthnasol pan gafodd ei ad-dalu. Cysonir y symiau a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr i'r gost net sy'n ofynnol i gwrdd â Balans y

Gronfa Gyffredinol drwy drosglwyddo swm i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Asedau Ariannol

Ceir dau fath o asedau ariannol:
- benthyciadau a derbyniadau sy'n asedau ag ad-daliadau sefydlog neu bendant ond nas dyfynnir mewn marchnad weithredol
- asedau sydd ar gael i'w gwerthu, sef asedau sydd â dyfynbris marchnad a/neu sydd heb daliadau sefydlog neu bendant

Benthyciadau a Derbyniadau

Cydnabyddir benthyciadau a derbyniadau ar y Fantolen pan mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dod yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac sy'n cael eu mesur yn gychwynnol ar werth teg. O ganlyniad, cânt eu mesur ar eu cost ohiriedig yn cael eu trosglwyddo ar eu cost wedi'i dileu. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr am log derbyniadwy yn seiliedig ar swm cario ymlaen yr ased, wedi lluosi gan gyfradd log go iawn am yr offeryn. Am y mwyafrif o'r benthyciadau mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi'i wneud, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n weddill sy'n dderbyniol (ynghyd â llog cronedig) a llog a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yw'r swm derbyniadwy am y flwyddyn yn y cytundeb benthyciad.

Pan nodir asedau fel rhai diffygiol oherwydd y tebygolrwydd yn codi o ddigwyddiad blaenorol na wneir taliadau sy'n ddyledus o dan gytundeb, dibrisir yr ased a chodir cost i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Mesurir y golled diffyg fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario ymlaen a gwerth presennol y llifoedd arian parod diwygiedig y dyfodol a ostyngir ar gyfradd log go iawn wreiddiol yr ased.

Credydir a debydir unrhyw enillion a cholledion wrth ddatgydnabod ased i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

Asedau sydd ar gael i'w gwerthu

Cydnabyddir asedau ar gael i'w gwerthu ar y Fantolen pan mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dod yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac sy'n cael eu mesur yn gychwynnol a'u cario ar sail werth teg. Pan mae'r ased â thaliadau sefydlog neu bendant, mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr am log derbyniadwy yn seiliedig ar gost amorteiddio’r ased wedi'i lluosi â'r gyfradd llog effeithiol am yr offeryn. Pan nad oes taliadau sefydlog neu bendant, credydir incwm (e.e. buddrannau) i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr pan dderbynnir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Cynhelir asedau yn y Fantolen ar eu gwerth teg. Mae gwerthoedd yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- offerynnau gyda dyfynbrisiau marchnad – pris y farchnad
- offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog neu bendant – dadansoddiad llif arian gostyngol
- cyfrannau ecwiti heb ddyfynbrisiau marchnad - gwerthusiad annibynnol o brisiadau cwmni.

Dosberthir y mewnbynnau i'r technegau mesur yn unol â'r tair lefel ganlynol:

- Mewnbynnau Lefel 1 – dyfynbrisiau (heb addasu) mewn marchnadoedd gweithredol am asedau unfath y gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gael mynediad ar y dyddiad mesur.
- Mewnbynnau Lefel 2 – mewnbynnau oni bai am ddyfynbrisiau a geir o fewn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mewnbynnau Lefel 3 – mewnbynnau anweladwy am yr ased.

Cloriannir newidiadau mewn gwerth teg gyda swm yn y Gronfa Ar Gael i'w Gwerthu a chydnabyddir yr elw/colled yn y Gweddill neu'r Diffyg ar Ailbrisio Asedau Ariannol Ar Gael i'w Gwerthu. Yr eithriad yw lle mae colledion diffyg wedi digwydd. Debydir y rhain i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, ynghyd ag unrhyw elw neu golled net am yr ased a gronnwyd yn y Gronfa Ar Gael i'w Gwerthu.

Pan gofnodir asedau fel rhai diffygiol oherwydd y tebygolrwydd, a godir o ddigwyddiad blaenorol, na wneir taliadau sy'n ddyledus o dan gytundeb (taliadau sefydlog neu bendant) neu mae'r gwerth teg yn syrthio o dan gost, dibrisir yr ased a chodir cost i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Os oes gan yr ased daliadau sefydlog neu bendant, mesurir y golled amhariad fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol y llifoedd arian diwygiedig yn y dyfodol wedi ei ddisgowntio ar gyfradd llog gwreiddiol yr ased. Fel arall, mesurir y golled amhariad fel unrhyw ddiffyg o werth teg o'i gymharu â chost caffael yr offeryn (net unrhyw brif ad-daliad ac amorteiddiad). Mae asedau ariannol a gadwyd ar gost amorteiddio yn cael eu cynnwys net o lwfans colled (lle mae'n faterol) sy'n adlewyrchu'r tebygolrwydd ystadegol y bydd y benthyciwr neu'r dyledwr yn methu bodloni eu hymrwymiadau cytundebol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Credydir a debydir unrhyw enillion a cholledion sy'n codi wrth ddatgydnabod yr ased i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, ynghyd ag unrhyw enillion neu golledion cronedig a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gronfa Ar Gael i'w Gwerthu wrth Gefn. Os na ellir mesur y gwerth teg yn ddibynadwy, caiff yr offeryn ei gario ar gost (namyn unrhyw golledion amhariad).

10. **Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau**

P'un a ydynt yn cael eu talu ymlaen llaw, mewn rhandaliadau neu os ydynt yn ddyledus, mae grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti yn cael eu cydnabod gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd pan mae sicrwydd rhesymol y gwnaiff:

- y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gydymffurfio gyda'r amodau sydd ynghlwm i'r taliadau, ac

- y derbynnir y grantiau neu'r cyfraniadau.

Nid yw'r symiau a gydnabyddir fel eu bod yn ddyledus i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr hyd nes y bodlonir amodau sydd ynghlwm i'r grant neu gyfraniad. Mae amodau yn manylu fod angen i fuddion economaidd yn y dyfodol neu botensial am wasanaeth a ymgorfforir yn yr ased a gafwyd gan ddefnyddio'r grant neu gyfraniad gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y manylir. Fel arall, rhaid i fuddion economaidd y dyfodol neu botensial am wasanaeth gael eu dychwelyd yn ôl i'r trosglwyddwr.

Mae arian a roddwyd fel blaendal i grantiau a chyfraniadau nad yw amodau wedi'u bodloni yn cael eu cario yn Fantolen fel credydwyr. Pan fodlonir yr amodau, credydir y grant neu'r cyfraniad i'r gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodol) neu Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb ei glustnodi a holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

Pan gredydir grantiau cyfalaf i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd. Os yw grant eto i'w ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf, fe'i trosglwyddir i Gronfa Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd. Pan fydd y swm wedi'i ddefnyddio caiff ei gynnwys yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Trosglwyddir symiau yn y Gronfa Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith maent wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

11. **Diddordeb mewn endidau eraill**

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddiddordeb materol mewn endidau eraill sydd â natur is-gwmni, cyswllt ac endidau a reolir ar y cyd. Mae angen paratoi cyfrifon grŵp oherwydd hyn. Mae buddion cyfrifon endid unigol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn endidau eraill yn cael eu cofnodi yn unol ag arferion cyfrifyddu

priodol. O safbwynt cyfrifon grŵp Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, ystyrir bod Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn is-gwmni sy'n eiddo 100% i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

12. **Rhestr eiddo a Chytundebau tymor hir**

Ceir rhestr eiddo yn y Fantolen ar y gwerth isaf o'r gost a’r gwerth gwireddadwy net. Neilltuir cost rhestr eiddo gan ddefnyddio'r fformiwla costio ‘cyntaf i mewn yw’r cyntaf allan’ (FIFO). Cyfrifir cytundebau tymor hir ar y sail o godi tal i'r Gweddill neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda gwerth y gwaith neu wasanaethau a dderbynnir o dan y cytundeb yn ystod y flwyddyn ariannol.

13. **Gweithrediadau ac Asedau a Reolir ar y Cyd**

Mae gweithrediadau a reolir ar y cyd yn weithgareddau a ymgymerir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod ar y Fantolen yr asedau mae'r Comisiynydd yn eu rheoli, yn cynnwys ei gyfran o unrhyw asedau a gedwir ar y cyd a'r rhwymedigaethau sy’n codi. Mae hyn yn cynnwys ei gyfran o unrhyw rwymedigaethau a ddelir ar y cyd. Mae'n debydu ac yn credydu'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr gyda'r gwariant ac unrhyw gyfran o wariant a gafwyd ar y cyd a'r gyfran o incwm a enillir o weithgaredd y gweithrediad.

Mae asedau a reolir ar y cyd yn cynnwys eiddo, cyfarpar neu offer a reolir ar y cyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a mentrwyr eraill, gyda'r asedau'n cael eu defnyddio er budd y mentrwyr. Nid yw'r fenter ar y cyd yn cynnwys sefydlu endid ar wahân. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyfrif am ond ei gyfran ef o'r asedau a reolir ar y cyd, y rhwymedigaethau a'r treuliau mae'n ei gael ar ei ran ef ei hun neu ar y cyd ag eraill o ran ei ddiddordeb yn y fenter ar y cyd a'r incwm a enillir o'r fenter. Gellir gweld manylion unrhyw weithrediadau a reolir ar y cyd yn Nodyn 38 i'r Cyfrifon.

14. **Prydlesi**

Mae prydlesi ariannol yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a'r buddion sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, cyfarpar neu offer o'r prydleswr i ddaliwr y brydles. Dosberthir holl brydlesi eraill fel prydlesi gweithredol.

Os yw prydles yn cynnwys am dir ac adeiladau, ystyrir yr elfennau tir ac adeiladau ar wahân i ddibenion dosbarthu.

Mae trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol prydles ond yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased am daliad yn cael eu cyfrif o dan y polisi hwn lle mae cwblhau'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

**Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel Prydleswr**

<u>Prydlesi Ariannol</u>

Cydnabyddir eiddo, Cyfarpar ac offer a gedwir o dan brydlesi cyllid ar y Fantolen ar ddechrau'r brydles ar ei werth teg sydd wedi'i fesur ar ddechrau'r brydles (neu werth presennol y taliadau prydles sylfaenol, os yn is). Cyfatebir yr ased a gydnabyddir gan y ddyled am y rhwymedigaeth i dalu'r prydleswr. Ychwanegir costau uniongyrchol cychwynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i swm cario ymlaen yr ased. Mae premiymau a delir wrth ddod i'r brydles yn cael eu cymhwyso i ddibrisio dyled y brydles. Codir rhenti wrth gefn fel treuliau yn y cyfnodau y ceir hwy.

Rhennir taliadau prydles rhwng:

- cost am gaffael y llog yn yr eiddo, Cyfarpar neu offer a gymhwysir i ddibrisio dyled y brydles, a
- cost gyllid (a ddebydir i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr).

Mae eiddo, Cyfarpar ac offer a gydnabyddir o dan brydlesi cyllid yn cael eu cyfrif gan ddefnyddio'r polisïau a gymhwysir yn gyffredinol i asedau o'r fath, yn amodol ar ddibrisiant sy'n cael eu codi dros gyfnod y brydles os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol amcanol yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid yw'n ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd godi'r dreth gyngor i ofalu am ddibrisio neu ailbrisio a cholledion diffyg sy'n codi o asedau sy'n cael eu prydlesu. Yn hytrach, gwneir cyfraniad blynyddol darbodus o gronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Mae dibrisio ac ailbrisio a cholledion diffyg felly'n cael eu disodli gan gyfraniad refeniw ym Malans y Gronfa Gyffredinol, drwy addasu trafodiad gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Prydlesi Gweithredol

Mae’r rhenti a delir o dan y prydlesi gweithredol yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr fel traul am ddefnyddio'r eiddo, y cyfarpar a’r offer sy’n cael ei brydlesu. Gwneir y  taliadau ar sail llinell syth dros fywyd y brydles; hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm o  daliadau (e.e. mae yna gyfnod di-rent ar ddechrau'r brydles).

**Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel Prydleswr**

Mae prydleswr yn gosod eiddo, cyfarpar neu offer o dan drefniant les i bobl eraill.

Prydlesi Ariannol

Os bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn caniatáu prydles ariannol ar gyfer eiddo, cyfarpar neu offer, caiff yr ased perthnasol ei dynnu allan o’r fantolen fel eiddo wedi’i waredu. Ar gychwyn y brydles bydd gwerth cyfredol yr eiddo yn y fantolen (boed yn eiddo, cyfarpar neu offer neu’n asedau sy’n cael eu dal i’w gwerthu) yn cael ei drosglwyddo i’r llinell gwariant gweithredol arall yn y datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr fel rhan o’r elw neu’r golled o waredu’r eitem dan sylw. Caiff yr elw sy'n cynrychioli buddsoddiad net y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn y les ei gredydu i'r un llinell yn y datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr hefyd fel rhan o’r elw neu golled yn sgil y gwarediad (h.y. yn cael ei dynnu fel swm net oddi ar werth cyfredol yr ased ar amser y gwarediad), wedi’i gydweddu ag ased prydles (dyledwr hirdymor) yn y fantolen.

Mae prydlesi rhentu yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

- tâl am gaffael y budd yn yr eiddo – yn cael ei gredydu i ddyledwr y brydles (ynghyd ag unrhyw bremiymau a dderbyniwyd), ac
- incwm cyllid (yn cael ei gredydu i’r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr).

Ni chaniateir drwy statud i’r elw sy'n cael ei gredydu i'r datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr pan waredir eiddo neu ased gynyddu balans y gronfa gyffredinol a rhaid ei drin fel derbyniad cyfalaf.  Pan dderbynnir premiwm, caiff hwn ei dynnu allan o falans y gronfa gyffredinol a’i symud i’r gronfa derbyniadau cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn. Pan fydd y swm sy’n ddyledus o ran yr ased sy'n cael ei brydlesu'n cael ei setlo drwy dalu rhent yn y blynyddoedd ariannol i ddod, caiff ei symud allan o falans y gronfa gyffredinol i’r gronfa derbyniadau cyfalaf gohiriedig yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Pan dderbynnir rhent yn y dyfodol caiff yr elfen sy’n gysylltiedig â gwaredu’r ased ei gyhoeddi er mwyn lleihau ei werth ariannol i ddyledwr y brydles. Ar y pwynt hwn caiff y derbyniadau cyfalaf gohiriedig eu trosglwyddo i’r gronfa derbyniadau cyfalaf. Ni fydd y golled ar werth y gwarediad yn cael ei godi yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau anghyfredol wedi’i ddarparu ar ei gyfer yn llawn dan drefniadau ar wahân o dan ariannu cyfalaf.

Caiff y symiau felly eu clustnodi i'r cyfrifon addasiadau cyfalaf o falans y gronfa gyffredinol drwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Prydlesi Gweithredu

Os bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn caniatáu prydles ariannol ar gyfer eiddo, cyfarpar neu offer, caiff yr ased perthnasol ei gadw yn y fantolen. Caiff incwm o rent ei gredydu i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y datganiad incwm a gwariant hollgynhwysfawr. Gwneir y taliadau ar sail llinell syth dros fywyd y brydles; hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm o daliadau (e.e. premiwm wedi'i dalu ar ddechrau'r brydles). Caiff y costau uniongyrchol cychwynnol sy'n deillio o drafod neu drefnu'r brydles eu hychwanegu at werth cyfredol yr ased perthnasol a bydd yn cael ei nodi fel traul dros gyfnod y brydles ar yr un sail ag incwm rhentu.

15. **Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogi**

Codir costau gorbenion a gwasanaethau cefnogi i segmentau gwasanaeth yn unol â threfniadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

16. **Eiddo, Cyfarpar ac Offer**

Mae asedau sydd â sylwedd corfforol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i bobl eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol, yn cael eu dosbarthu fel Eiddo, Cyfarpar ac Offer.

Cydnabyddiaeth

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Cyfarpar ac Offer yn cael ei gyfalafu ar sail croniadau. Mae hyn ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial am wasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gwneir hefyd os gellir mesur cost yr eitem mewn modd dibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal, ond sydd ddim yn ychwanegu at botensial yr ased i gyflwyno buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial am wasanaeth (h.y. gwaith trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul pan fydd yn digwydd.

Mesur

Yn y lle cyntaf, mae'r asedau'n cael eu mesur ar gost, yn cynnwys:

- pris y pryniant
- unrhyw gost sy'n berthnasol i ddod â'r ased i'r lleoliad ac yn y cyflwr sy'n angenrheidiol iddo gael ei ddefnyddio yn y modd y bwriedir gan y rheolwyr
- os yn berthnasol, yr amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac yn adfer y safle lle'r oedd yr eitem.

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyfalafu costau benthyca sydd wedi codi wrth adeiladu'r asedau.

Mae cost ased, ac eithrio pan fydd yn cael ei brynu, yn cael ei ystyried fel ei werth teg. Oni bai nad oes gan yr hyn a gafaelwyd sylwedd masnachol (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiaeth yn y llif arian i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ). Yn yr achos olaf, pan fydd ased yn cael ei gaffael trwy gyfnewid, cost y caffael yw'r swm cario os yw'r ased yn cael ei roi i fyny gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae asedau a gafwyd yn rhodd yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg. Mae'r gwahaniaeth rhwng y gwerth teg ac unrhyw gydnabyddiaeth a dalwyd yn cael ei gredydu i'r llinell Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr (heblaw bod y rhodd wedi ei wneud yn amodol). Mae hyn hyd nes bydd yr amodau wedi eu bodloni cedwir yr enillion yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd. Pan fydd enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, byddant yn cael eu tynnu allan o Falans y Gronfa Gyffredinol a'u rhoi yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Wedyn mae’r asedau yn cael eu cynnwys yn y Fantolen gan ddefnyddio’r sail mesur canlynol:

- Isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy’n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol wedi ei ddibrisio
- Anheddau a’r holl asedau eraill – gwerth teg wedi ei bennu fel y swm a fyddai’n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (h.y. gwerth yn ei ddefnydd presennol neu EUV).

Pan nad oes unrhyw dystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol yr ased, defnyddir y gost adnewyddu dibrisiedig fel amnewidyn ar gyfer gwerth teg.

Pan fydd asedau di-eiddo sydd â bywydau defnyddiol byr neu werthoedd isel (neu’r ddau) yn dibrisio, fe ddefnyddir y gost hanesyddol fel amnewidyn ar gyfer gwerth presennol.

Mae asedau sy’n cael eu cynnwys yn y Fantolen ar eu gwerth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw eu swm cario yn wahanol iawn i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn. Gwneir hyn o leiaf bob pum mlynedd. Mae’r cynnydd yn y prisiadau yn cyfateb i gredydau yn y Gronfa Ailbrisio i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Fel eithriad, gall enillion gael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr pan maent yn deillio o wrthdroi colled a godwyd yn flaenorol.

Pan nodir gostyngiad mewn gwerth, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- pan fydd cydbwysedd o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn, bydd swm cario'r ased yn cael ei godi ar refeniw yn erbyn y balans (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan na fydd arian yn y gronfa ailbrisio neu pan fydd y balans yn annigonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei godi ar refeniw yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisio wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisio cydnabyddedig ers 1 Ebrill 2007 yn unig, y dyddiad y cafodd ei gweithredu'n ffurfiol. Mae’r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwn wedi cael eu cynnwys yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Amhariad

Mae asedau yn cael eu hasesu ar ddiwedd bob blwyddyn o ran a oes unrhyw arwydd y gallai fod yn ased sydd â lleihad. Pan fydd arwyddion o hyn yn bodoli, ac unrhyw wahaniaethau posibl yn cael eu hamcangyfrifo i fod yn faterol, fe amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased, a phan fydd yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled lleihad am y diffyg.

Pan fydd colledion lleihad yn cael eu hadnabod, byddant yn cael eu cyfrif amdanynt fel a ganlyn:

- pan fydd y balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio, bydd swm cario'r ased yn cael ei godi ar refeniw yn erbyn y balans (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan na fydd arian yn y gronfa ailbrisio neu pan fydd y balans yn annigonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei godi ar refeniw yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

Pan fydd colled lleihad yn cael ei wrthdroi ar ôl hynny, bydd y gwrthdroi yn cael ei gredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant fyddai wedi cael ei godi pe na bai’r golled wedi’i chydnabod.

Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar yr holl asedau Eiddo, Cyfarpar ac Offer drwy ddyraniad systematig o’u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol gyfyngedig bendant (h.y. tir rhydd-ddaliad) ac asedau nad ydynt ar gael eto ar gyfer eu defnyddio (asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Pan fydd gan ased gydrannau pwysig sydd â gwerth sylweddol, bydd y cydrannau yn cael eu dibrisio ar wahân. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi gosod y cyfyngiadau de-minimis canlynol a bydd y cydrannau yn cael eu cydnabod ar wahân dim ond pan:

(i) Mae gweddill oes y gydran rhwng 0 a 10 mlynedd a gwerth y gydran dros £500mil

(ii) Mae gweddill oes y gydran rhwng 10 a 15 mlynedd a gwerth y gydran dros £750mil

(iii) Mae gweddill oes y gydran rhwng 15 ac 20 mlynedd a gwerth y gydran dros £1000mil

(iii) Mae gweddill oes y gydran rhwng 20 a 30 mlynedd a gwerth y gydran dros £1250mil

(v) Mae gweddill oes y gydran rhwng 30 a 40 mlynedd a gwerth y gydran dros £1500mil

(vi) Mae gweddill oes y gydran rhwng 40 a 50 mlynedd a gwerth y gydran dros £2000mil

(vii) Mae gweddill oes y gydran rhwng 50 a 60 mlynedd a gwerth y gydran dros £4000mil

| Math o Ased: | Polisi Dibrisiad: |
|---|---|
| Adeiladau | Wedi dibrisio dros yr oes ddisgwyliedig fel y dywedodd y prisiwr ar drefn llinell syth a'u hailbrisio o leiaf pob 5 mlynedd |
| Offer Cyfrifiadurol | Llinell syth dros 3 i 5 mlynedd yn dechrau yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. |
| Offer Cyffredinol, Dodrefn a Ffitiadau ac Offer Radio | Llinell syth dros 7 i 10 mlynedd yn dechrau yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. |
| Cerbydau | Llinell syth dros 4 blynedd yn dechrau yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. |
| Tir | Nid oes dibrisiant ar dir heb ei ddatblygu. |

Mae enillion ailbrisio hefyd yn dibrisio. Mae swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant werth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi cael ei godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Gwaredu ac Asedau Anghyfredol sy'n cael eu dal i'w Gwerthu

Pan fydd yn dod yn debygol y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthiant yn hytrach na thrwy ei ddefnyddio'n barhaus, caiff ei ailddosbarthu fel Ased wedi'u dal i'w Gwerthu. Mae'r ased yn cael ei ailbrisio yn union cyn iddo gael ei ailddosbarthu ac yna yn cael ei gario ar y gwerth isaf rhwng y swm hwn a'r gwerth teg llai'r costau i'w werthu. Pan fydd gostyngiad dilynol yn y gwerth teg llai'r costau i'w werthu, mae'r golled yn cael ei gynnwys yn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Mae enillion gwerth teg yn cael eu cydnabod yn unig hyd at swm unrhyw golledion blaenorol a gydnabyddir yn y Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Nid yw dibrisiant yn cael ei godi ar Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau yn diwallu'r meini prawf bellach i gael eu dosbarthu'n Asedau wedi'u dal i'w Gwerthu, byddant yn cael eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol. Byddant yn cael eu prisio ar begwn isaf eu swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel asedau i'w gwerthu (wedi'i addasu ar gyfer dibrisiad, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddent wedi'u cydnabod pe na baent wedi'u dosbarthu fel Wedi'u dal i'w Gwerthu). Cânt eu prisio hefyd ar eu swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Fe ddatgelir manylion unrhyw eiddo sydd wedi'u clustnodi fel Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu yn y Fantolen a'r nodiadau perthnasol.

Nid yw asedau sydd i gael eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu dosbarthu fel Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu.

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddigomisiynu, mae swm cario'r ased yn y Fantolen (boed yn Eiddo, Cyfarpar, Offer neu'n Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu) yn cael ei ddileu ar y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar waredu. Credydir derbyniadau o waredIadau (os oes rhai) i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar waredu (h.y. net yn erbyn gwerth cario'r ased adeg y gwarediad). Mae unrhyw enillion ailbrisio cronedig ar gyfer yr ased sydd yn y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau a dderbyniwyd ar gyfer gwarediadau sy'n fwy na £10,000 yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae'r balans o'r derbyniadau yn cael ei gredydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf ac wedyn gellir ond ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd (neu ei neilltuo er mwyn lleihau angen sylfaenol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i fenthyca (y gofyniad cyllido cyfalaf). Mae derbyniadau yn cael eu neilltuo i'r Gronfa wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

17. **Menter Cyllid Preifat**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cytuno ar un cytundeb Menter Cyllid Preifat hirdymor lle mae'r contractwr yn gyfrifol am gynllunio, adeiladu, cyllido a chynnal y Ddalfa, y Cyfleuster Digwyddiadau Sylweddol, y Cyfleuster Cefnogaeth Wyddonol a'r swyddfeydd yn Llanelwy. Gan mai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw rheolwr tybiedig y gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan y cynllun Menter Cyllid Preifat mae'n rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynnwys yr asedau sefydlog a ddefnyddir o dan y contractau ar y Fantolen.

Mae'r gydnabyddiaeth wreiddiol am yr asedau sefydlog hyn wedi ei fantoli gyda chydnabyddiaeth o'r ymrwymiad am y symiau sy'n ddyledus i weithredwr y cynllun i dalu am yr asedau.

18. **Darpariaethau, Dyledion Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol**

Gwneir darpariaethau pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi gofyniad cyfreithiol neu adeiladol ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol yn ôl pob tebyg i setlo drwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial y gwasanaeth, ac mae modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y ddyled.

Mae darpariaethau yn cael eu codi fel traul yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dod yn ymwybodol o'r ddyled. Maent yn cael eu mesur ar yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y fantolen ar y gwariant sydd ei angen i setlo'r ddyled, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau perthnasol a'r ansicrwydd.

Pan fydd taliadau'n cael eu gwneud yn y pen draw, maent yn cael eu rhoi yn erbyn y ddarpariaeth yn y Fantolen. Bydd y setliadau sydd wedi cael eu hamcangyfrif yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei wrthdroi a'i gredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol lle y mae'n dod yn llai na thebygol y bydd yr angen am drosglwyddo buddion economaidd bellach yn ofynnol (neu setliad is na'r disgwyl yn cael ei wneud).

Pan fydd disgwyliad y bydd rhan neu'r taliad cyfan sy'n ofynnol i setlo darpariaeth yn cael ei adennill oddi wrth barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), cydnabyddir hwn fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol. Mae hyn dim ond os yw hi bron yn sicr y bydd ad-daliad yn cael ei dderbyn pe bai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn setlo'r ddyled.

Mae gan y sefydliad yswiriant ar gyfer risgiau sydd heb eu sicrhau'n allanol ac mae'r yswiriant hefyd yn cynnwys unrhyw ormodedd ar bolisïau yswiriant allanol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys risgiau cyhoeddus a chyflogwr. Mae yna hefyd rwymedigaethau digwyddiadol i'w talu o'r ddarpariaeth hon.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus (a elwir bellach yn lwfans colled) wedi ei gynnwys o fewn lleihad yn yr Asedau Cyfredol.

Ymrwymiad i Leihau Carbon (CRC), Cynllun Effeithlonrwydd Ynni – mae hwn yn gynllun gorfodol ar gyfer sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus a phreifat ac mae wedi ei gynllunio i wella effeithiolrwydd ynni ac i leihau allyriadau. Mae’n ofynnol ar y sefydliadau sy'n gymwys i brynu ac ildio lwfansau carbon ar sail eu gollyngiadau a dylent gynnwys unrhyw ymrwymiadau yn eu cyfrifon. Ar hyn o bryd nid oes rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymryd rhan yn y cynllun oherwydd bod ei allyriadau presennol yn is na'r trothwy cymhwyster.

Dyledion digwyddiadol

Mae dyledion digwyddiadol yn codi pan fydd rhywbeth wedi digwydd sydd o bosibl yn rhoi gofyniad ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ond ni ellir cadarnhau ei fodolaeth oni bai i bethau eraill ddigwydd neu beidio digwydd yn y dyfodol a hynny efallai allan o reolaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gallant godi mewn amgylchiadau lle y byddai darpariaeth fel arall yn cael ei wneud ond naill ai nid yw'n debygol y bydd all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur natur y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw dyledion wrth gefn yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond maent yn cael eu cynnwys mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau digwyddiadol

Mae ased digwyddiadol yn codi pan fydd rhywbeth wedi digwydd sydd o bosibl yn rhoi gofyniad ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ond ni ellir cadarnhau ei fodolaeth oni bai i bethau eraill ddigwydd neu beidio digwydd yn y dyfodol a hynny efallai allan o reolaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Nid yw asedau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond maent yn cael eu cynnwys mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae’n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu wasanaeth.

19. **Cronfeydd wrth Gefn**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn neilltuo symiau penodol o arian wrth gefn at ddibenion polisi yn y dyfodol neu ar gyfer argyfyngau. Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu creu trwy briodoli symiau allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o’r Symudiadau yn y Cronfeydd. Pan fydd gwariant sydd angen ei dynnu o’r gronfa wrth gefn, bydd yn cael ei dalu yn y flwyddyn honno i’r Gweddill neu’r Diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr. Mae'r gronfa wrth gefn wedyn yn cael ei neilltuo yn ôl i mewn i Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o’r Symudiadau yn y Cronfeydd fel nad oes tâl net i dreth y cyngor am y gwariant yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

Cronfeydd Annefnyddadwy – cedwir rhai cronfeydd wrth gefn ar gyfer rheoli'r prosesau cyfrifyddu asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, buddion ymddeol a buddion y gweithwyr ac nid ydynt yn adnoddau y gellir eu defnyddio gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Esbonnir mwy am y cronfeydd wrth gefn yn y polisïau perthnasol o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

20. **Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud**

Mae gwariant y flwyddyn y gellir ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu ased anghyfredol yn cael ei drin fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi penderfynu talu cost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu drwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau a godir fel nad oes unrhyw effaith ar lefel y gwariant refeniw.

21. **Cydnabod Refeniw o’r Trafodion Digyfnewid**

Mae asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion digyfnewid sy’n cael eu cydnabod yn unol â gofynion IAS 20 – Cyfrifyddu ar gyfer Grantiau’r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth, ac eithrio lle y dehonglir neu addasir ef i gyd-fynd â'r sector cyhoeddus, yn cael eu nodi yn y Cod a / neu IPSAS 23, "Refeniw o Drafodion Digyfnewid (Trethi a Throsglwyddiadau)."

**Trafodion Trethiant** – Mae asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion trethiant yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y digwyddodd y digwyddiad trethadwy. Mae hyn ar yr amod bod yr asedau yn bodloni'r diffiniad o ased ac yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer eu cydnabod fel ased.

**Heb fod yn Drafodion Trethiant** – Asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion trosglwyddo sy’n cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r trefniant trosglwyddo yn gyfrwymol. Nid yw gwasanaethau o fath arall yn cael eu cydnabod.

Pan fydd trosglwyddiad yn ddarostyngedig i amodau, os heb eu cyflawni, y bydd yn ofynnol dychwelyd yr adnoddau trosglwyddo, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod ei ymrwymiad nes bod yr amod yn cael ei gyflawni.

**Sail y Mesur o Ddosbarthiadau Mawr o Refeniw o’r Trafodion Digyfnewid** – Mae trethiant refeniw yn cael ei fesur ar y gwerth nominal o arian parod ac arian parod cyfatebol. Mae asedau a refeniw a gydnabuwyd o ganlyniad i drosglwyddo yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg yr asedau a gydnabuwyd ar ddyddiad y gydnabyddiaeth:

- Mae asedau ariannol yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth nominal oni bai bod gwerth arian yr amser yn berthnasol, ac yn yr achos yma mae gwerth presennol yn cael ei ddefnyddio, a gyfrifir gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt sy'n adlewyrchu risg gynhenid dal yr ased;
- Os nad ydynt yn asedau ariannol maent yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg, sy'n cael ei bennu drwy gyfeirio at werthoedd y farchnad weladwy neu drwy werthusiad annibynnol gan aelod o'r proffesiwn prisio. Mae derbyniadau yn cael eu cydnabod pan fydd trefniant trosglwyddo rhwymol yn ei le ond nid yw arian parod neu asedau eraill wedi eu derbyn.

## 22. TAW

Yn gyffredinol, nid yw’r Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr yn cynnwys TAW gan fod unrhyw dreth a gesglir yn cael ei dalu i Gyllid a Thollau EM ac mae unrhyw TAW sydd wedi ei dalu yn cael ei hawlio’n ôl ganddynt. Dim ond os bydd yn anadferadwy y bydd treth ar werth yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Hollgynhwysfawr.

## 23. Gwerth Teg

Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mesur rhai o’i offerynnau ariannol yn ôl eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Gwerth teg yw’r pris a fyddai’n cael ei dderbyn o ganlyniad i werthu ased neu’n cael ei dalu i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng y rhai sy'n cymryd rhan yn y farchnad a'r dyddiad mesur. Mae’r mesuriad gwerth teg yn cymryd bod y trafodyn i werthu’r ased neu drosglwyddo’r ymrwymiad yn cymryd lle naill ai, yn y brif farchnad ar gyfer yr ased neu'r ymrwymiad, neu yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad fwyaf manteisiol ar gyfer yr ased neu’r ymrwymiad. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mesur gwerth teg ased neu ymrwymiad gan ddefnyddio'r tybiaethau y byddai'r rhai sy'n ymwneud â'r farchnad yn eu defnyddio wrth brisio'r ased neu'r ymrwymiad. Mae hyn gan gymryd bod y rhai sy'n ymwneud â'r farchnad yn gweithredu yn y modd mwyaf economaidd.

## Geirfa Termau

**Polisïau Cyfrifyddu**
Dyma'r rheolau a'r codau ymarfer yr ydym yn eu defnyddio wrth baratoi'r cyfrifon.

**Croniad a rhagdaliad**
Swm sy'n cael ei gynnwys yn y cyfrifon terfynol ar gyfer incwm a gwariant sy'n berthnasol i'r cyfnod cyfrifo ond y talwyd/telir/derbynnir taliad mewn cyfnod cyfrifyddu gwahanol.

**Cyllideb**
Datganiad o gynlluniau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn termau ariannol. Bydd y gyllideb yn cael ei pharatoi a'i chymeradwyo gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyn dechrau pob blwyddyn ariannol ac fe'i defnyddir i fonitro'r gwir wariant yn ystod y flwyddyn.

**Gwariant Cyfalaf**
Gwariant ar asedau newydd neu ar wella asedau sydd eisoes yn bodoli er mwyn ymestyn eu bywydau defnyddiol neu fwyhau eu gwerth ar y farchnad.

**Derbyniadau Cyfalaf**
Enillion o £10,000 neu fwy a geir o werthu asedau sefydlog. Gellir eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i dalu dyledion. Ni ellir eu defnyddio ar gyfer ariannu gwariant refeniw o ddydd i ddydd.

**Dyledion/Asedau Digwyddiadol**
Mae'r rhain yn deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol sy'n ddibynnol ar ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol a'u hamseriad cyn y gellir eu cynnwys yn y cyfrifon.

**Credydwyr**

Symiau sy'n daladwy gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar 31 Mawrth am nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a roddwyd ond sydd heb dalu.

**Dyledwyr**
Symiau sy'n ddyledus i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd sydd i'w casglu neu sydd heb eu talu ar 31 Mawrth.

**Dibrisiant**
Dyma'r golled yng ngwerth yr ased oherwydd oed, traul, dirywiad a diffyg defnydd.

**Ariannu'r Cyfalaf yn Uniongyrchol o'r Refeniw**
Cyfraniadau o'r refeniw i ariannu gwariant cyfalaf a thrwy hynny lleihau'r angen i fenthyg arian.

**Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd**
Dyma'r symiau a gedwir wrth gefn ar gyfer pwrpas penodol i dalu am ddyledion yn y dyfodol.

**Gwerth Teg**
Y swm y gallai'r ased gael ei gyfnewid amdano, neu gallai rhwymedigaeth gael ei setlo, rhwng cyfranogwyr y farchnad ar ddyddiad penodol.

**Offerynnau Ariannol**
Unrhyw gontract sy'n creu ased ariannol i un endid ac ymrwymiadau ariannol, neu offeryn ecwiti i endid arall.

**Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS)**
Y Safonau ar gyfer paratoi a chyflwyno datganiadau ariannol a grëwyd gan y Pwyllgor Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol.

**Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**
Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, fel y'i cytunwyd gan broffesiwn cyfrifo'r DU a'r Bwrdd Safonau Cyfrifo. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiadau o Arferion Cyfrifo'r Safonau (SSAPs).

**Lleihad**
Gostyngiad yng ngwerth ased sefydlog sy'n is na'r hyn a nodwyd ar y pryd ar y fantolen (gweler y polisïau cyfrifyddu).

**Adnoddau Hylifol**
Buddsoddiadau ased cyfredol sydd ar gael i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd heb amharu ar ei fusnes ac y gellir naill ai eu trosi'n rhwydd i symiau penodol o arian parod neu sy'n agos at y swm cario, neu sy'n masnachu mewn marchnad weithredol.

**Darpariaeth Isafswm Refeniw**
Y swm gochelgar a ddarparwyd wedi ei osod yn erbyn benthyciadau dan y fframwaith ariannol.

**Dyled Net**
Benthyciadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd llai arian ac adnoddau hylifol.

**Asedau Anghyfredol**
Asedau diriaethol sydd o fudd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i wasanaethau dros gyfnod o flwyddyn neu fwy.

**Trethi Annomestig (NDR)**
Dyma'r tâl a godir ar ddeiliaid adeiladau busnes i ariannu cyfran o wariant refeniw lleol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu. Mae'r swm yn cael ei osod gan y Llywodraeth ganolog trwy ddefnyddio'r lluosydd sy'n berthnasol i'r gwerthoedd trethiannol. Mae'r lluosydd yn gyson trwy Gymru a rhennir y cyfanswm a gesglir gan y Llywodraeth ganolog.

**Asedau Anweithredol**
Asedau sefydlog sydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ond sydd ddim yn cael eu meddiannu'n uniongyrchol, eu defnyddio na'u treulio wrth i wasanaethau gael eu darparu.

**Asedau Gweithredol**
Asedau sefydlog sy'n cael eu dal, eu meddiannu, eu defnyddio neu eu treulio gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth i'r gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb statudol neu ddewisol amdanynt gael eu darparu.

**Alldro**
Y gwir incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol yn hytrach na beth oedd wedi'i gynnwys yn y gyllideb.

**Menter Cyllid Preifat (MCP)**
Contract rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd.

**Praesept**
Arian a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd drwy dreth y cyngor i dalu am wasanaethau.

**Darpariaeth**
Arian o roddir o'r neilltu ar gyfer ymrwymiadau yn y dyfodol pan ni wyddys yn sicr beth fydd y symiau na'r dyddiadau y byddant yn ddyledus.

**Bwrdd Benthyciadau Gwaith y Cyhoedd (PWLB)**
Asiantaeth y llywodraeth sy'n cynnig benthyciadau hirdymor i awdurdodau lleol ar gyfraddau llog sydd ond fymryn yn uwch na'r cyfraddau y gall y llywodraeth fenthyca arnynt.

**Taliadau**
Yr holl symiau a delir i unigolyn neu mae'n eu cael, ac mae'n cynnwys symiau treuliau (cyn belled â'u bod yn ôl gofynion treth incwm y DU) ac amcangyfrif o werth arian unrhyw fuddion eraill a dderbynnir gan weithiwr sydd ddim yn arian parod.

**Cronfeydd Wrth Gefn**
Arian a roddwyd o'r neilltu i dalu am wariant cyffredinol yn y dyfodol. Gall y rhain fod yn gronfeydd defnyddiadwy ac yn gronfeydd annefnyddadwy (cronfeydd sy'n cael eu cadw'n unol â thriniaethau cyfrifyddu).

**Ailbrisio**
Sicrhau bod asedau'n cael eu dangos yn gywir yn y cyfrifon a hynny ar werth teg.

**Gwariant Refeniw**
Gwariant ar eitemau dyddiol megis cyflogau, costau adeiladau, trafnidiaeth a chyflenwadau a gwasanaethau.

**Grant Cynnal Refeniw**
Grant a delir gan y llywodraeth ganolog i gynnal gwariant refeniw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**Llithriant**
Gwariant cyfalaf gohiriedig na gafodd ei gwblhau o fewn yr amserlen wreiddiol.

**Benthyciadau â Chymorth**
Cymeradwyaeth a roddir gan y Llywodraeth sy'n galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i fenthyg arian hyd at swm penodol er mwyn ariannu gwariant cyfalaf.

**Benthyciadau Digymorth**
Benthyciadau wedi'u trefnu dan y cod ariannol sy'n cael eu hariannu o adnoddau cyffredinol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ei hun.

**Derbyniadau Cyfalaf y Gellir eu Defnyddio**
Incwm a geir o werthu asedau sydd ar gael i ariannu gwariant cyfalaf.

**Atodiad 1**

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-2020**

1.1. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl drefniadau llywodraethu ar y cyd. Am y rheswm hwnnw felly mae llawer o'r rheolaethau'n gyffredin i'r ddwy gorfforaeth undyn. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl Bwrdd Cydlywodraethu i sicrhau eu bod yn cyflenwi eu cyfrifoldeb llywodraethu corfforaethol. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Brif Swyddog Cyllid Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn mynychu. Diben y Bwrdd Cyd Lywodraethu, felly, yw galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn drwy sicrhau fod strwythurau, prosesau a gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol SCHTh a'r Heddlu yn gryf, effeithlon ac effeithiol. Dylent gydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaethau, rheoliadau a chanllawiau. Dylent hefyd adlewyrchu arfer gorau. Mae'r Bwrdd hefyd yn casglu a dogfennu'r dystiolaeth i greu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn. Gwnaeth y Bwrdd gyfarfod ddwywaith yn ystod 2019-2020. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon ymgymerwyd ag adolygiad llywodraethu ar wahân. Ystyriwyd canlyniadau'r adolygiad hwn wrth baratoi'r datganiad llywodraethu blynyddol hwn. Mae'r cynllun gweithredu gyda'r gwaith gan yr adolygiad Llywodraethu wedi parhau i symud ymlaen yn ystod 2020-2021.

1.2. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl Gynllun Caniatâd, sydd wedi bod yn ei le ers 1 Ebrill 2014. Cafodd ei adolygu a'i ddiwygio ym mis Medi 2019. Nod y Cynllun hwn yw sicrhau bod trefniadau cywir wedi'u sefydlu ar gyfer rheolaeth gweithgareddau ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl. Mae ar y Comisiynydd ddyletswydd statudol a mandad etholiadol i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon ac i ddal Heddlu Gogledd Cymru yn atebol ar ran y cyhoedd. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am blismona yn ei gyfanrwydd. Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am gyfarwyddyd a rheolaeth amhleidiol pob swyddog heddlu a staff o fewn yr heddlu mae'n ei arwain ac mae'n gyfrifol am gynnal Heddwch y Frenhines. Mae'r Prif Gwnstabl yn dal swydd dan y Goron, ond fe'i penodir gan y Comisiynydd. Bu'r cynllun hwn yn weithredol trwy gydol y flwyddyn ariannol ac fe'i cytunwyd gan bob un o'r Uwch Swyddogion a enwir o fewn y Cynllun a'r Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

1.3. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod â Phrif Swyddogion Cyllid i ymgymryd â dyletswyddau adran 151 statudol. Mae Cydbwyllgor Archwilio wedi'i sefydlu. Diben y Pwyllgor yw darparu cyngor annibynnol a gwneud argymhellion i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl parthed digonoldeb y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol ac adroddiadau ariannol. Mae gan y Cydbwyllgor Archwilio orchwyl parhaus yn olrhain cynnydd yr adolygiad Llywodraethu wrth iddo symud ymlaen yn 2020-2021.

1.4. Mae gan bob ardal heddlu Banel Heddlu a Throsedd i gynorthwyo ymarfer swyddogaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn effeithiol, ac adolygu neu graffu digwyddiadau a wneir, neu gamau a gymerir, gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ran cyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd. Bydd gofyn i'r Comisiynydd hefyd ymgynghori gyda'r Panel ynglŷn â'i gyllideb plismona, yn ogystal â lefel y dreth gyngor a phenodi Prif Gwnstabl, Prif Swyddog Gweithredol, Prif Swyddog Cyllid a Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae'r panel yn cynnwys deg cynghorydd lleol a dau aelod annibynnol a gyfetholwyd. Fodd bynnag ym mis Medi 2016, penododd y Panel drydydd aelod annibynnol cyfetholedig yn dilyn ymgyrch recriwtio. Cafwyd caniatâd am y cynnydd gan yr Ysgrifennydd Cartref. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r 'Awdurdod Cartref' ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac mae'n darparu'r gwasanaethau cefnogi gofynnol er mwyn gweithredu a chyflawni dyletswyddau'r Panel Heddlu a Throsedd.

1.5. Mae llywodraethu yn ymwneud â sut mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysfawr, agored ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n rheoli'r sefydliad a hefyd y gweithgareddau hynny y bydd y sefydliad yn ymgymryd â nhw er mwyn ymgysylltu â, a chael ei ddal yn atebol gan, y gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) hwn ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn disgrifio sut y gall y sefydliad ddangos ei fod wedi cyflawni ei ddwy ddyletswydd statudol gyffredinol yn ystod 2019-2020:

- sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon a

- bod yn atebol am y modd y maen nhw a'r rhai hynny sydd dan eu cyfarwyddyd a'u rheolaeth yn arfer eu swyddogaethau.

1.6 Disgrifiwyd pandemig Covid19 fel "Argyfwng Iechyd Cyhoeddus o Bryder Rhyngwladol" ar 31 Ionawr 2020. Cyhoeddwyd cyfyngiadau ar leihau lledaeniad Covid 19 gan y llywodraeth ar 23 Mawrth 2020 gyda'r Ddeddf Coronafeirws yn derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 25 Mawrth 2020. Gan ystyried y digwyddodd hyn yn eithaf hwyr yn y flwyddyn Ariannol, cyfyngwyd y trefniadau llywodraethu i 2019-2020. Mae'r effaith tu hwnt i'r cyfnod hwn yn cael ei adlewyrchu lle bo'n briodol drwy gydol yr adroddiad hwn.

1.7. Fodd bynnag, gwnaeth Covid-19 barhau i effeithio ar wneud penderfyniadau'n 2019-20 drwy strwythur rheoli ymateb Aur, Arian ac Efydd Covid-19 o fewn yr Heddlu'n cael ei sefydlu. Yn rhanbarthol hefyd, roedd strwythur rheoli fel rhan o Fforwm Cydnerth Lleol Gogledd Cymru gyda'r Grŵp Cydlyniad Strategol (a oedd yn gyfrifol am arwain ar ymateb aml asiantaeth i Covid-19) yn cael ei gadeirio gan Bennaeth Aur o'r Heddlu. Roedd hefyd yn cael ei gynnwys yn ffurfiol o fewn fframwaith rheoli risg yr Heddlu ac yn ffactor allweddol mewn penderfyniadau gweithredol gan ystyried y goblygiadau gallu ar gyfer swyddogaethau amrywiol o fewn yr heddlu. Gwnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gynllun Ymateb Covid-19.

1.8 Ers diwedd blwyddyn ariannol 2019-20, mae Covid-19 wedi parhau i gael perthynas arwyddocaol ar arferion gweithio'r sefydliad gan eu trawsnewid ar gyfer y SCHTh a Heddlu Gogledd Cymru i hwyluso cadw pellter cymdeithasol a mesurau iechyd cyhoeddus eraill. Ar ben hyn, mae gwneud penderfyniadau gweithrediadol o fewn y gwasanaeth heddlu wedi parhau i gael ei arwain gan y strwythurau llywodraethu a sefydlwyd tuag at ddiwedd y flwyddyn. Er mwyn sicrhau y cedwid eglurder ynghylch trefniadau Llywodraethu yn ystod Covid-19, cyhoeddodd y CHTh gynllun ymateb Covid-19 2020/21 ym mis Mai 2020 gan sicrhau fod atebolrwydd eglur yn parhau mewn lle. Yn fwy diweddar mae arolygon HMICFRS sy'n edrych ar effeithiolrwydd gwneud penderfyniadau yn ystod Covid-19 wedi'u cyhoeddi ynghyd â nifer o adolygiadau mwy manwl a wnaiff edrych ar effeithiolrwydd y Llywodraethu a'r gwneud penderfyniadau mewn meysydd eraill.

1.9 Ymhellach at yr uchod, yn dilyn diwedd 2019-2020 fe wnaeth yr heddlu fynd i gyfnod Adfer o ran Covid-19 gyda'r Bwrdd Adfer Strategol, a gadeiriwyd gan y DBG, yn cael ei ychwanegu at strwythur Llywodraethu'r Heddlu gyda SCHTh â chynrychiolydd ar y bwrdd hefyd. Trefnwyd Adrodd ar gynnydd i gynllun gwaith y Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer mis Gorffennaf 2020.

## 2. Diben a chwmpas y cyfrifoldeb dros y Fframwaith Llywodraethu

2.1 Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gynnal yn unol â’r gyfraith a’r safonau priodol a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y cedwir cyfrif cywir ohono ac y caiff ei ddefnyddio’n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae arnynt ddyletswydd hefyd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn y modd y caiff eu swyddogaethau eu harfer.

2.2 Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau cyffredinol, mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu eu busnes ac i’w cynorthwyo i arfer eu swyddogaethau, sy’n cynnwys sicrhau bod system reoli fewnol gadarn yn cael ei chynnal trwy gydol y flwyddyn a bod trefniadau yn eu lle i reoli risg. Mae'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad ar Rôl Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Phrif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl CIPFA a Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref ar gyfer Heddluoedd Cymru a Lloegr ac Awdurdodau Tân ac Achub a grëwyd o dan adran 4A Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2001 (diwygiwyd yn 2018).

2.3 Mae’r datganiad hwn yn egluro sut mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy’n gyson ag egwyddorion y Fframwaith CIPFA/SOLACE: Cyflwyno Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol a ddiweddarwyd yn 2016 ac sydd hefyd yn diwallu gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y’i newidiwyd, mewn perthynas â datganiad o reolaeth fewnol â chyhoeddiad y datganiad llywodraethu blynyddol.

2.4 Mae’r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd y mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl yn cael eu cyfarwyddo a'u rheoli ac mae’r gweithredoedd y mae’n atebol iddo yn ymgysylltu ac yn arwain cymunedau. Mae’r fframwaith yn galluogi’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl i fonitro cyrhaeddiad yr amcanion strategol ac i ystyried a yw’r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost effeithiol ac wedi cyflawni gwerth am arian.

2.5 Mae’r system reoli mewnol yn rhan allweddol o’r fframwaith sydd wedi ei gynllunio i reoli risg at lefel resymol a rhagweladwy. Ni all atal yn gyfan gwbl y risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; ni all ond darparu sicrwydd rhesymol, nid diamod, o effeithiolrwydd. Mae’r system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi’i dylunio i adnabod a blaenoriaethu’r risgiau o safbwynt cyflawniad nodau ac amcanion y sefydliad ac i werthuso pa mor debygol yw hi y bydd y risgiau hynny'n troi’n realiti a beth fyddai eu heffeithiau, a’u rheoli’n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd.

Mae’r fframwaith llywodraethu wedi bod mewn lle drwy gydol y flwyddyn a ddiweddodd ar 31 Mawrth 2020 a hyd at gymeradwyaeth y Datganiad o Gyfrifon. Fodd bynnag, roedd y meysydd Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg yn amodol ar graffu a herio gan y Cydbwyllgor Archwilio yn ystod 2019-2020 wrth i’r ymdriniaeth yn y ddau faes gael ei datblygu gyda gwaith pellach arfaethedig ar gyfer 2020-2021 ac yn cael ei symud ymlaen a’i fonitro wedi hynny.

## 3. Egwyddorion llywodraethu da

Mae’r Fframwaith CIPFA/SOLACE: Cyflwyno Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol yn gosod saith egwyddor o lywodraethu da sy'n gweithredu fel sylfaen i drefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau bod y deilliannau a fwriadwyd ar gyfer rhanddeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni.

Nodir trefniadau sy’n benodol ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl yn y saith egwyddor isod.

### 3.1. **Moeseg ac Uniondeb**

Mae prosesau corfforaethol mewn lle i gefnogi egwyddorion craidd moeseg a gonestrwydd megis protocol Plismona 2011 sy'n gofyn i bawb gydymffurfio â'r saith egwyddor o fywyd cyhoeddus (egwyddorion Nolan). Yn ogystal, mae Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref yn gofyn i’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl sicrhau bod llywodraethu da wedi’i fewnosod o fewn y sefydliadau ac mae Cod Moeseg y Coleg Plismona yn gosod y safonau ymddygiad a ddisgwylir ar gyfer pawb sy'n gweithio ym maes plismona.

Cod ymddygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Chod Moeseg y Prif Gwnstabl sydd mewn lle sy'n gosod sylfaen i'r safonau disgwyliedig o ran ymddygiad. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl bolisïau a gweithdrefnau a rheoliadau mewn lle sy’n cydymffurfio â’r gyfraith ac yn cyd-fynd â’r safonau moeseg priodol a'r safonau

ymddygiad proffesiynol. Mae ystyriaethau moesegol yn rhan o unrhyw benderfyniadau busnes a wneir ac fe'u gosodir o fewn polisïau gweithredol o fewn y ddau sefydliad.

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl bolisi Gwrth Dwyll a Llygredigaeth a threfniadau chwythu chwiban mewn grym sy'n rheoli'r risg o dwyll a llygredigaeth yn effeithiol. Cynhelir a diweddarir prosesau ar gyfer datgan diddordeb a chofrestrfeydd ar gyfer rhoddion a lletygarwch yn ôl yr angen. Gwnaeth y Cydbwyllgor Archwilio a'r Panel Heddlu a Throsedd ryddhau holl swyddogaethau'n llawn yn y cyhoeddiad CIPFA perthnasol ar gyfer Cydbwyllgorau Archwilio. Mae Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio i'w weld ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd weithdrefnau mewn lle ar gyfer derbyn adborth am blismona yng Ngogledd Cymru, a phenderfyniadau a wneir gan neu ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i swyddogion. Mae ganddo hefyd weithdrefnau mewn lle ar gyfer trin cwynion am y Prif Gwnstabl. Yn ogystal, mae'r Panel Heddlu a Throsedd yn cyflawni eu dyletswyddau o ran cwynion a wneir am y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel yr amlinellir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol.

Er mwyn sicrhau yr ystyrir a thrafodir materion a dilemâu moesegol ar bob lefel y briodol, mae strwythur Llywodraethu'r Heddlu yn cynnwys Pwyllgor Moeseg gyda gwahoddiad agored i'r SCHTh fynychu. Gall dilemâu moesegol eu cyflwyno'n anhysbys drwy Fewnrwyd yr Heddlu neu drwy e-bost. Cyhoeddir crynodeb o ganfyddiadau gan y Pwyllgor ar Fewnrwyd yr Heddlu ar y cyd â hysbysu Uwch Reolwyr drwy'r strwythurau Llywodraethu i'w hystyried a'u hadlewyrchu ymhellach yn ôl yr angen.

3.2. **Didwylledd ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn hyrwyddo diwylliant agored a thryloyw ar draws y sefydliad i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion pobl. Mae holl bapurau a chofnodion cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ynghyd ag unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gwnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd dderbyn gwobr tryloywder dair blynedd yn olynol a sicrhaodd hyn am y bedwaredd flwyddyn ym mis Awst 2020. Nid yn unig mae'r gwerthusiad yn asesu a yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyhoeddi gwybodaeth ar y wefan, ond hefyd a ellir dod o hyd iddi ac y ceir mynediad ati'n hawdd.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn atebol i drigolion Gogledd Cymru i ddarparu gwasanaeth heddlu sy'n effeithlon ac yn effeithiol i drigolion Gogledd Cymru. Mae'r Prif Gwnstabl yn atebol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i sicrhau bod gwasanaeth heddlu effeithiol yn cael ei ddarparu i drigolion Gogledd Cymru.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â gwaith a chyflawniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn rheolaidd ynghyd â bodlonrwydd defnyddwyr, gan gynnwyd cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throsedd ac Adroddiad Blynyddol.

Mae strategaeth ymgynghori ac ymgysylltu mewn lle i sicrhau bod ein gwasanaethau'n ymatebol i faterion sy'n cael eu codi. Rydym yn cynnal arolygon yn rheolaidd i fwydo gwybodaeth i ddarpariaeth ein gwasanaeth ac i gynorthwyo i ddatblygu ein blaenoriaethau a'n hamcanion. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl brosesau ymgynghori mewnol ac allanol mewn lle a ddefnyddir i fwydo gwybodaeth a gwella gwasanaethau. Cwblhaodd TIAA (yr archwilydd mewnol) adolygiad o gyfathrebiadau corfforaethol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu ym mis Mehefin 2020. Aseswyd fel sicrwydd "rhesymol", a chanfu *fod trefniadau cynhwysfawr mewn lle er mwyn sicrhau fod strategaethau Cyfathrebiadau Mewnol ac Allanol i'r Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn effeithiol*.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn gweithio mewn partneriaeth ac mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill er mwyn cyflawni amcanion cytûn. Maent yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol ac yn bodloni gofynion y sefydliadau. Mae partneriaethau a threfniadau cydweithio sydd mewn lle yn cael eu monitro a'u hadolygu i sicrhau bod perfformiad yn cael ei gyflawni a bod amcanion yn cael eu bodloni.

Mae gennym swyddogaeth craffu, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth a dadansoddiad data, i herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn modd adeiladol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae pob penderfyniad allweddol a gymerir yn cynnwys asesiad effaith ariannol, effaith cyfreithiol, effaith cydraddoldeb ac asesiad risg gyda'r strwythurau Llywodraethu mewn lle gan roi amlygrwydd yn eu cylch. Cyhoeddir

penderfyniadau'r Comisiynydd ar ei wefan, a hysbysir y Panel Heddlu a Throsedd hefyd. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mynychu pwyllgorau craffu awdurdod lleol yn aml. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn craffu ymhellach. Mae'n rhoi ffocws annibynnol a lefel uchel ar yr archwiliad. Mae'n gosod trefniadau sicrwydd a hysbysu sy'n tanategu llywodraethu da a safonau ariannol gyda holl bapurau pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd. Yn ystod 2019-2020 ymgymerwyd â gwaith i ddatblygu perthnasedd a phriodoldeb y wybodaeth a roddwyd i'r Cydbwyllgor Archwilio gyda gwaith yn parhau yn 2020-2021.

Swydd Prif Weithredwr i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw swydd ddynodedig y Swyddog Monitro ac mae trefniadau i gofnodi unrhyw gyngor proffesiynol angenrheidiol ar gyfer meysydd arbenigol.

Yn ogystal, mae Prif Swyddogion Ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â datganiad CIPFA, sef 'the Role of the Chief Financial Officer of the Police and Crime Commissioner and of the Chief Constable'.

3.3. **Diffinio Canlyniadau**

Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, fel rhan o'r broses cynllunio strategol, yn datblygu strategaethau a chynlluniau sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, sy'n gynaliadwy ac yn ystyried lefel yr adnoddau angenrheidiol i'w darparu mewn modd priodol.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gosod amcanion yr heddlu a throsedd ac mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Heddlu a Throsedd. Mae ein Cynllun Heddlu a Throsedd wedi cael ei gyfathrebu i'r cyhoedd trwy'r wefan a thrwy nifer o weithgareddau ymgysylltu. Mae crynodeb fer wedi'i gynnwyd yn y daflen treth cyngor a anfonwyd i bob cartref, naill ai ar ffurf electroneg neu drwy'r post. Rhoddir crynodeb isod gyda Chynllun Ymateb Covid y Comisiynydd yn cadarnhau perthnasedd parhaus y blaenoriaethau:




Datblygwyd amcanion, blaenoriaethau ac opsiynau ariannol yr heddlu a throsedd o weledigaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a dadansoddiad ar y cyd o'r canlynol:

- Asesiad o'r trosedd a'r lefel gwasanaeth sy'n ofynnol
- Ymgynghoriad gyda phobl leol
- Ymgynghoriad gyda phartneriaid
- Ymgynghoriad rhwng y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl
- Canfyddiadau archwiliad allanol ac adolygiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru ac AHEM
- Asesiad risg

Caiff amcanion heddlu a throsedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd eu cyfeirio a'u darparu gan y Prif Gwnstabl, ac yn ei dro, gan y Bwrdd Cynllunio Strategol yn ystod y flwyddyn. Caiff ein perfformiad ei fonitro a'i hysbysu o fewn yr Adroddiad Blynyddol, y Datganiad o Gyfrifon a'r cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Y Bwrdd Gweithredol Strategol yw'r fforwm ar gyfer craffu ar y Prif Gwnstabl gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae swyddogaethau ychwanegol y Bwrdd yn cynnwys:

- gwneud penderfyniadau fel bo'r angen gan y Cynllun Llywodraethu, i'w cymryd ar y cyd gyda'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl; a
- datblygu cynigion ar gyfer cyflawni amcanion heddlu a throsedd y Comisiynydd fel y nodir yn y Cynllun

Mae'r Bwrdd Gweithredol Strategol a'r Bwrdd Cynllunio Strategol yn craffu ar berfformiad gweithredol ac ariannol, darpariaeth gwasanaeth a chyflawniad o'r amcanion heddlu a throsedd. Mae rhaglen ar gyfer cyflawni cynlluniau mewn lle trwy'r Bwrdd Cynllunio Strategol. Mae'r byrddau hyn wedi parhau i gyfarfod yr un mor aml – o bell er hynny – er gwaethaf effaith Covid-19. Cynhelir cyfarfodydd o bell gan ddefnyddio'r dechnoleg briodol er mwyn sicrhau eu bod yn digwydd.

3.4. **Pennu ymyriadau**

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd yn y modd gorau posibl, bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle i ddarparu gwasanaethau sy'n dangos effeithlonrwydd a gwerth am arian.

Cynhelir cynlluniau adnoddau manwl yn flynyddol ac maent yn cael eu cyhoeddi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r risg hwn yn asesu'r gofyn am adnoddau'n seiliedig ar dybiaethau priodol i alluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i flaenoriaethu galw am wasanaethau.

Mae'r gylchred cynllunio strategol a gweithredol blynyddol yn rhoi ystyriaeth i'r lefel ddisgwyliedig o adnoddau sy'n ofynnol ac yn nodi lle bo angen arbedion a gostyngiadau. Hysbysir hyn hefyd gan y broses Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol, a gyflwynwyd yn 2019-2020 (ar gyfer cyllideb 2020-2021) fel galluogwr gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r adnoddau, arbedion a'r twf yn cael asesiad risg a monitrir cyflawni holl gynlluniau a llif gwaith drwy'r Bwrdd Rheoli Strategol sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl. Mae effaith Covid-19 yn golygu fod yr ymdriniaeth i Gynllunio Strategol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2021-2022 angen cael ei haddasu. Felly mae ymdriniaeth syml – ond eto'n gadarn – tuag at gynllunio strategol wedi cael ei sefydlu gan y Prif Gwnstabl. Mae'n cael ei symud ymlaen yn 2020-2021 gan ddirnad cyd-destun sy'n cynnwys Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr (disgwylir adrodd ym mis Tachwedd 2020) a lefelau ansicrwydd ariannol cynyddol.

Mae byrddau Rhaglen a Phrosiect mewn lle sy'n monitro gweithredu a chyflawni unrhyw fentrau neu gynlluniau a gytunir. Sefydlir y rhain i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cadarn er mwyn cyflawni'r deilliannau gofynnol. Mae rhaglenni fel Trawsnewidiad Digidol a Thrawsnewid Gweithlu'n hanfodol i gyflawni strategaethau sefydliadol yn gyffredinol. Mae gwneud penderfyniadau wedi'i ddatganoli er mwyn galluogi gweithrediad hyblyg ac ymatebol a gwell deilliannau. Mae atebolrwydd yn cael ei fesur yn ôl y strwythur llywodraethu a'r prosesau sydd mewn lle.

Roedd pandemig Covid19 angen mabwysiadu trefniadau gweithio hyblyg cyflym. Mae llawer o staff a swyddogion wedi gallu gweithio o'r cartref ers dechrau'r cyfyngiadau symud. Roedd gwaith i ganiatáu gweithio hyblyg ar waith eisoes, ac roedd prosesau a llywodraethu wedi cael ei ystyried eisoes yn ystod y cyfnod cynllunio. Roedd y cyfyngiadau symud, felly, angen cyflymu'r prosiect yn hytrach na newid hanfodol i'n cynlluniau. Gweithiodd trefniadau llywodraethu'n dda yn ystod y trosglwyddiad ac yn barhaus gydag adolygiadau parhaus o'r trefniadau yn digwydd fel rhan o'r llif gwaith Adfer.

3.5. **Datblygu Arweinyddiaeth**

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl strwythurau a rolau penodol o fewn y sefydliadau i alluogi arweinyddiaeth effeithiol. Caiff yn ei gefnogi gan y Canllaw Llywodraethu sy'n amlinellu'r rolau a'r cyfrifoldebau ac sy'n hanfodol er mwyn galluogi'r strategaethau a'r cynlluniau sydd mewn lle i gael eu gweithredu.

Mae’r trefniadau llywodraethu wedi cael eu datblygu’n unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, Gorchymyn Protocol Plismona 2012 statudol, Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref (FMCP) a chanllawiau presennol yn ymwneud â materion ariannol a llywodraethu sy'n parhau i fod ar waith. Mae strwythurau Llywodraethu’r Heddlu wedi’u craffu’n 2019-2020 hefyd fel rhan o’r adolygiad Llywodraethu, gyda’r gwaith hwnnw’n parhau yn 2020-2021.

Mae cynllun caniatâd cymeradwy mewn lle sy’n ffurfioli dyletswyddau a dirprwyo rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae’r strwythur llywodraethu yn cefnogi gweithrediad gweithgareddau a deilliannau a gynllunnir, ac mae strwythur cyfarfodydd mewn lle er mwyn sicrhau bod y deilliannau a gynllunnir yn cael eu cyflawni’n brydlon.


Ein pobl yw ein buddsoddiad mwyaf ac rydym yn sicrhau bod rhaglenni hyfforddi a datblygu aelodau a swyddogion ar gael er mwyn cadw gwybodaeth yn gyfredol, gan gynnwys unrhyw ofynion datblygiad proffesiynol. Mae ein prosesau recriwtio a chynllunio olyniaeth yn sicrhau ein bod yn penodi’r bobl iawn gyda'r sgiliau iawn i rolau o fewn y sefydliad.

Mae telerau ac amodau cenedlaethol yn bodoli ar gyfer swyddogion a staff gyda graddfeydd cyflog a system gwerthuso swyddi wedi'u cytuno. Mae gennym fframwaith rheoli perfformiad y mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn ei ddefnyddio er mwyn asesu perfformiad a mynd i’r afael ag unrhyw welliannau angenrheidiol. Yn ogystal, ceir asesiadau blynyddol o effeithlonrwydd ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd a’r Cydbwyllgor Archwilio.

3.6. **Rheoli risg a monitro perfformiad**

Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhan hanfodol o'r system rheoli perfformiad yn y ddau sefydliad. Mae’r broses rheoli risg yn gosod sylfaen i’r trefniadau rheolaeth ariannol a’r prosesau llywodraethu ac yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r deilliannau a fwriedir ac yn cefnogi ein gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru fwy diogel.

Mae’r isod yn cynrychioli’r camau rheoli risg fel y nodir yn ISO31000 ac mae trefniadau risg HGC yn dilyn y model hwn.




Mae diwylliant rheoli risg wedi’i wreiddio ar draws y sefydliad ar bob lefel. Mae cofrestrau risg corfforaethol ac ar gyfer meysydd unigol sy’n cydymffurfio â methodoleg genedlaethol gymeradwy ac sy’n cael eu hadolygu a’u diweddaru’n rheolaidd a’u hysbysu’n ôl yn eu cylch i bwyllgorau a byrddau ar draws y sefydliad. Mae rheoli risg yn eitem reolaidd ar yr agenda ar bob bwrdd ar draws yr heddlu. Mae’r Cydbwyllgor Archwilio wedi parhau i roi her a chymorth i wella ein prosesau rheoli risg, gyda phrosesau’n cael eu datblygu’n ystod 2019-2020 – gan gynnwys dogfen Chwant Risg Ffurfiol. Mae datblygiad pellach sy’n parhau ar gyfer 2020-2021 i gynnwys datblygu ein Fframwaith Sicrwydd Risg ymhellach.

Mae ein cynlluniau, ein prosesau a'n polisïau yn cael eu llunio gan dalu'r sylw dyledus i'r risgiau a ddaw i'r amlwg. Mae fframwaith partneriaeth mewn lle i sicrhau bod unrhyw bartneriaethau'n cael eu rheoli'n briodol gan gynnwys rheoli risg.

Mae risgiau strategol a'r broses rheoli risg yn cael eu goruchwylio a'u monitro gan y Cydbwyllgor Archwilio. Mae aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'n gallu adolygu pob risg er mwyn sicrhau tryloywder.

Mae Archwilio Mewnol yn asesu digonoldeb ein rheoliadau mewnol ac yn adrodd yn llawn i'r Cydbwyllgor Archwilio annibynnol. Archwiliodd ac adroddodd archwilwyr mewnol ac allanol ar gydymffurfiad â rheoliadau a rheolaethau mewnol perthnasol.

Mae'r Bwrdd Gweithredol Strategol a'r Bwrdd Cynllunio Strategol yn craffu ar berfformiad gweithredol ac ariannol, darparu gwasanaeth a chyflawni amcanion heddlu a throsedd. Mae rhaglen ar gyfer cyflawni cynlluniau mewn lle trwy'r Bwrdd Rheoli Strategol.

Mae holl bapurau a chofnodion y Cydbwyllgor Archwilio a Phanel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gael ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae trefniadau effeithiol mewn lle i sicrhau bod data'n cael ei ddiogelu ac yn cael ei gasglu, ei ddefnyddio, ei storio a'i rannu mewn modd priodol. Mae'r holl ddata yn cydymffurfio â pholisïau cadw a gytunwyd ac mae'r cynllun dosbarthiad diogelwch ar waith trwy gydol yr heddlu. Mae Bwrdd Diogelwch Gwybodaeth mewn lle i fonitro trefniadau ac effeithiolrwydd.

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bolisïau diogelu data a diogelu gwybodaeth mewn lle sy'n cael eu profi a'u cynorthwyo'n rheolaidd gyda rhaglen hyfforddiant i holl staff. Mae ein gwasanaeth Archwilio Mewnol ac AHEM yn darparu craffu cyfnodol pellach yn y maes hwn.

Mae protocolau rhannu gwybodaeth mewn lle rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a hefyd gyda'n partneriaid.

3.7. **Arddangos atebolrwydd effeithiol**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn atebol iddyn nhw trwy'r prosesau sydd mewn lle yn y ddau sefydliad. Mae'r fframwaith Llywodraethu a'r fframwaith rheoli Mewnol cysylltiedig yn darparu mecanwaith cadarn ar gyfer cynnal trosolwg o'r penderfyniadau allweddol sy'n cael eu gwneud.

Defnyddir templedi adrodd safonol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei gofnodi mewn modd digonol a galluogi gwneud penderfyniadau effeithiol. Mae adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi sy'n asesu perfformiad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae gwefannau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyhoedd ac i randdeiliaid, gan sicrhau fod y tryloywder sydd ei angen i atebolrwydd allanol fod yn effeithiol mewn lle. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn adrodd i'r Cydbwyllgor Archwilio ac mae ganddo fynediad uniongyrchol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Prif Gwnstabl ac aelodau. Mae argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth yn cael eu gweithredu ac yn cael eu hadrodd i'r pwyllgor.

Cynhelir adolygiadau ac archwiliadau annibynnol ac allanol yn rheolaidd gan gyrff rheoleiddio ac mae'r adroddiadau'n cael eu cyhoeddi, ac unrhyw argymhellion a wneir yn cael eu gweithredu.

## 4. Adolygiad Effeithiolrwydd

4.1. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gyfrifoldeb am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu yn flynyddol o leiaf, gan gynnwys y system o reolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei hysbysu gan waith y rheolwyr gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal a chadw'r amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol. Hysbysir hefyd drwy sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol, y Panel Heddlu a Throsedd, y Cyd Bwyllgor Archwilio ac asiantaethau ac arolygiaethau

adolygu eraill. Mae’r adolygiad Llywodraethu yn 2019-20 wedi arwain at nifer o argymhellion ac mae’r gweithredu’n parhau.

4.2. Yn unol â’r rheoliadau, mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl wedi adolygu effeithiolrwydd ei wasanaeth archwilio mewnol. Y casgliad oedd bod y gwasanaeth wedi cydymffurfio’n llawn â holl safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus (PSIAS).

4.3. Fel rhan o’n fframwaith llywodraethu ac er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu ein trefniadau am effeithiolrwydd, gwnaethom sefydlu Bwrdd Cyd Lywodraethu, sy’n gyfrifol am fonitro’r trefniadau ar gyfer cydymffurfiad a gwneud argymhellion ar gyfer datblygiad y trefniadau llywodraethu fel sy’n angenrheidiol. Yn ystod 2019-2020 roedd llywodraethu’n sefydlog ar y cyfan – er yr adolygiad Llywodraethu parhaus – er y datgysylltwyd y Bwrdd Cyd Lywodraethu. Fodd bynnag, fe’i hailgyfansoddwyd ym mis Mawrth 2020 er mwyn sicrhau y gallai’r datganiad llywodraethu blynyddol hwn gael ei lunio’n gywir ac yn amserol. Penderfynwyd ailsefydlu’r Bwrdd Cyd Lywodraethu yng nghyfarfod mis Mawrth 2020, gyda chylch gorchwyl diwygiedig. Amcanion y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn awr yw:

- Sicrhau adolygiad parhaus o ddigonoldeb a phriodoldeb y trefniadau llywodraethu gan sicrhau eu bod yn gweithredu’n effeithlon ac yn effeithiol.
- Goruchwylio creu, rheoli ac adolygu’r dogfennau llywodraethu corfforaethol lefel uchel SCHTh a’r Heddlu (yn ôl yr angen), yn benodol y Llawlyfr Llywodraethu a’i rannau cyfansoddiadol.
- Cydlynu, goruchwylio ac adolygu strwythurau llywodraethu corfforaethol SCHTh a’r Heddlu a’u prosesau a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Adolygu holl argymhellion sy’n berthnasol i lywodraethu corfforaethol sy’n codi o archwiliadau ac arolygon mewnol ac allanol ac ystyried eu goblygiadau ar gyfer trefniadau llywodraethu corfforaethol SCHTh a’r Heddlu.
- Adolygu unrhyw Nodiadau Briffio Cleientiaid a roddir gan yr Archwilydd Mewnol. Ystyried eu goblygiadau am drefniadau llywodraethu corfforaethol SCHTh a’r Heddlu.
- Goruchwylio a chydlynu paratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl.
- Gwneud unrhyw argymhellion i’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl ar unrhyw fater sy’n berthnasol i drefniadau llywodraethu corfforaethol SCHTh a’r Heddlu lle mae angen gweithredu neu wella.

4.4. Cynhaliodd Archwilio Mewnol eu hadolygiad gwasanaeth blynyddol o’n prif systemau ariannol yn 2019-2020 a darparwyd adroddiadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn. Daeth eu hadroddiad blynyddol i'r casgliad canlynol:

*BARN FLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL*

*Rwyf yn fodlon bod gwaith archwilio mewnol digonol wedi'i ymgymryd i ganiatáu i mi ddod i gasgliad cadarnhaol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risgiau, rheolaeth a llywodraethu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl. Yn fy marn i, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl brosesau rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol mewn lle i reoli cyflawniad eu hamcanion.*

*Mae’r farn hon yn seiliedig ar y materion a ddaeth i sylw'r TIAA ystod adolygiadau archwiliad mewnol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ac nid yw’n farn ar yr holl elfennau o reoli risg, prosesau rheoli a llywodraethu neu ddilysrwydd ariannol parhaus sy’n rhaid eu cynnal gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a’r Prif Gwnstabl oddi wrth nifer o ffynonellau sicrwydd.*

4.5. Rhoddodd llythyr archwilio blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2018-2019 farn ddiamod ar gyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gan gofnodi nad oeddynt wedi gweld unrhyw wendidau arwyddocaol yn y fframwaith cyffredinol. Dywedodd hefyd fod gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl drefniadau digonol yn eu lle i sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac economi yn eu defnydd o adnoddau. Hefyd, roedd yn nodi ei Raglen Gwelliant Gweithredol fel maes arfer da.

**5. Cynllun Gweithredu Llywodraethu a chynnydd**

5.1. Wrth asesu'r trefniadau llywodraethu sydd mewn lle, bydd y Bwrdd Llywodraethu hefyd yn datblygu ac yn monitro unrhyw gynlluniau gweithredu er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion llywodraethu a ddaw i'r amlwg neu pan fo angen

gwella trefniadau presennol. Mae'r meysydd i'w gofalu amdanynt yng nghynllun 2020-2021 i’w gweld yn yr Atodiad isod.

5.2. Roedd y cynllun gweithredu ar gyfer 2019-2020 yn cynnwys meysydd i'w gwella. Caiff y rhain eu manylu isod gyda’u cynnydd a’u statws presennol.

| Argymhelliad | Gweithrediad | Statws presennol – wedi cwblhau Do/Naddo? |
|---|---|---|
| Cynllun Cyflawni’r Heddlu | Bydd Cynllun Cyflawni’r Heddlu yn cael ei greu yn gan fynegi’r weledigaeth. Bydd y cynllun yn cael ei drosglwyddo a’i gynorthwyo gan gynlluniau manwl.<br>Bydd y prosesau rheoli newid yn cael eu gwella gan ddefnyddio dulliau arfer gorau derbyniol a’u cynorthwyo gan strwythur llywodraethu glir. Bydd y cynllun gydag adnoddau priodol er mwyn sicrhau fod y cynlluniau’n realistig. | Do |
| Adolygiad Llywodraethu | Ymgymerir ag adolygiad llywodraethu annibynnol.<br>Crëir a gweithredir cynllun gweithredu llywodraethu.<br><br>Bydd yr adolygiad yn cysylltu ag adolygiad o drefniadau partneriaeth a gychwynnodd yn 2018/2019. | Do<br><br>Mae’r cynllun gweithredu wedi’u cwblhau, ond maent angen cael eu gweithredu.<br><br>Do |
| Fframwaith Sicrwydd | Bydd cynllun peilot o fframwaith sicrwydd gwell yn dechrau o fewn y Gyfarwyddiaeth Cyllid ac Adnoddau. Yn amodol ar ganlyniad y peilot, bydd fframwaith sicrwydd diwygiedig yn cael ei gyflwyno ledled Heddlu Gogledd Cymru.<br><br>Cytunir a dogfennir ein Chwant Risg. | Naddo – Mae’r Peilot Sicrwydd Risg wedi’i ymgymryd ond mae cyflwyno’r fframwaith sicrwydd yn ehangach eto i ddigwydd.<br><br>Do – Mae Chwant Risg wedi’i gytuno a’i ddogfennu. |
| Arweinyddiaeth | Cwblheir arolwg staff. Dadansoddir y canlyniadau a datblygir cynllun gweithredu. Cyflawnir cynllun gweithredu drwy raglen trawsnewid gweithlu. | Do – Goruchwylir gweithredu’r cynllun gweithredu gan grŵp llywio DPS. |

**6. Casgliad**

6.1. Ni all unrhyw ddatganiad o reolaeth fewnol roi sicrwydd diamod na cheir colledion materol. Bwriad y datganiad hwn yw rhoi sicrwydd rhesymol.

6.2. Fodd bynnag, ar sail yr adolygiad o sicrwydd a nodwyd yn y datganiad hwn, rydym yn fodlon bod gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru drefniadau llywodraethu boddhaol mewn lle, gan gynnwys systemau priodol o ran rheolaeth fewnol a rheoli risg sy’n hwyluso ymarferiad effeithiol ei swyddogaethau.


Llofnod:





**Arfon Jones**
Comisiynydd Heddlu a Throsedd

**Stephen Hughes**
Prif Swyddog Gweithredol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd



**Kate Jackson**
Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

**ATODIAD**

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL – CYNLLUN

Mae'r adolygiad llywodraethu wedi cydnabod fod ein trefniadau llywodraethu yn foddhaol ac yn bodloni ein hanghenion. Bydd cyflwyno ein gweledigaeth newydd yn herio ein trefniadau llywodraethu a'n sylw at nifer o broblemau yn cynorthwyo wrth gryfhau'r trefniadau hynny. Bydd y meysydd canlynol yn cael sylw yn 2020-2021:

| Mater | Gweithrediadau |
|---|---|
| Cydymffurfio gyda Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA | Mae'r Cod Rheolaeth Ariannol wedi'i lunio i gynorthwyo arfer da mewn rheoli ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol wrth arddangos cynaliadwyedd ariannol. Y flwyddyn gydymffurfio lawn gyntaf yw 2021-2022. Y nod erbyn 31 Mawrth 2021 felly yw adolygu prosesau presennol yn erbyn y Cod a gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol. |
| Adolygiad Llywodraethu | Ymgymerwyd ag adolygiad llywodraethu yn ystod 2019-2020. Mae argymhellion yr adolygiad hwn i'w gweithredu yn ystod 2020-2021. Monitrir ac asesir hyn drwy'r Bwrdd Rheoli Strategol, y Bwrdd Gweithredu Strategol a'r Bwrdd Cyd Lywodraethu. |
| Datblygu Fframwaith Sicrwydd Risg | Yn dilyn cynllun peilot Cyllid ac Adnoddau yn 2019-2020 bydd yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r fframwaith sicrwydd Risg ledled yr Heddlu'n cael ei sefydlu yn erbyn cyd-destun Covid-19.<br><br>Bydd y fframwaith sicrwydd Risg yn cael ei gyflwyno wedyn ledled yr Heddlu. |
| COVID-19<br><br>Mae pandemig y coronafeirws yn peri nifer o heriau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl. Mae angen cynnal llywodraethu drwy gydol y cyfnod o ansicrwydd hwn, mewn ffordd nad yw'n rhwystro ymateb yr heddlu i'r sefyllfa, ac nid yw'n rhoi swyddogion, staff neu'r cyhoedd mewn perygl diangen.<br><br>Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyhoeddi Cynllun Ymateb Covid-19 | Sicrhau fod effaith parhaus Covid-19 ar drefniadau Llywodraethu'n cael eu hadolygu a'u hasesu.<br><br>Sicrhau y gwreiddir y Bwrdd Adfer Strategol fel ffordd o roi trosolwg cadarn o broses Adfer y sefydliad.<br><br>Gwreiddio'r Bwrdd Adfer Strategol |

# Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

## Barn

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;
- Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a;
- Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru.

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn cynnwys Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn y Grŵp, Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp, a Datganiad o Lifoedd Arian Parod y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru'n cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-2020 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2020 ac o'u hincwm a'u gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-2020.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Pwyslais ar Fater – effeithiau COVID-19 ar brisiadau o asedau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Tynnaf sylw at Nodyn 12 yn y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio'r cymal ansicrwydd prisio perthnasol yn yr adroddiad prisio ar eiddo Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru sy'n deillio o amgylchiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Nid yw fy marn archwilio wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.

## Pwyslais ar Fater – effeithiau COVID-19 ar brisiadau o gronfa bensiwn eiddo Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Tynnaf sylw at Nodyn 34 yn y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio'r cymal ansicrwydd prisio perthnasol yn yr adroddiad prisio ar Gronfeydd Eiddo Cyfunol a ddelir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd sy'n deillio o amgylchiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Nid yw fy marn archwilio wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.

### Casgliadau sy’n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i’w nodi o ran y materion canlynol y mae’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw’r swyddog cyllid cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn y Datganiad Cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn y Datganiad Cyfrifon ac eithrio’r datganiadau ariannol a’m hadroddiad i fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac mae’r Adroddiad Naratif wedi’i baratoi yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20; ac
- mae’r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi’i baratoi yn unol â’r canllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth am Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru a’u hamgylcheddau a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw’r datganiadau ariannol yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

| | |
|---|---|
| Adrian Compton | 24 Heol y Gadeirlan |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 7 Hydref 2020 | CF11 9LJ |

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*

**Atodiad A**

## Crynodeb o Wariant a Chyllid Cyfalaf 2019-2020

| 2018-2019 Presennol £0 | Disgrifiad | 2019-2020 Cyllideb Ddiwygiedig £0 | 2019-2020 Presennol £0 |
|---|---|---|---|
| | **Gwaith Adeiladu** | | |
| 2,468 | Cyfleuster Pencadlys Rhanbarthol Wrecsam | 96 | 114 |
| 1,520 | Cyfleuster Tref Wrecsam | 619 | 485 |
| 2,806 | Prynu Canolfan Reoli ar y Cyd, Llanelwy | 0 | 0 |
| 0 | Gwaith Cynaliadwyedd | 255 | 253 |
| 0 | Dargadwadau | 25 | 0 |
| 0 | Adnewyddu Gorsaf Heddlu Pwllheli | 200 | 101 |
| 69 | Gwaith Rhuddlan/Prestatyn | 0 | 0 |
| 0 | Ardal Ystadau'r Gorllewin | 40 | 0 |
| 19 | CCC Dalfeydd | 33 | 27 |
| 0 | Gwaith Maes Drylliau Tanio | 103 | 99 |
| **6,882** | **Cyfanswm Gwaith Adeiladu** | **1,371** | **1,079** |
| | **Cerbydau ac Offer Eraill** | | |
| 1,691 | Prynu Cerbydau | 2,071 | 1,760 |
| 130 | Offer | 271 | 118 |
| **1,821** | **Cyfanswm Cerbydau ac Offer Eraill** | **2,342** | **1,878** |
| | **Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | | |
| 672 | Amnewid Gliniaduron a Dangosfwrdd | 1,273 | 1,238 |
| 0 | Cypyrddau clo ar gyfer gwefru a chadw | 200 | 0 |
| 122 | Amnewid EIS | 0 | 0 |
| 132 | Amnewid gweinydd DFU | 0 | 11 |
| 392 | Airwave (unedau newydd) | 13 | 0 |
| 970 | Amnewid Technoleg Ystafell Reoli'r Heddlu | 531 | 406 |
| 96 | Hybwr Airwave Pencadlys Rhanbarthol Wrecsam | 0 | 0 |
| 106 | Teclynnau Data Symudol | 15 | 19 |
| 0 | Ap Ymatebwr Symudol | 200 | 114 |
| 0 | Rhaglen Alluogi Genedlaethol | 1,180 | 689 |
| 0 | Meddalwedd Cysylltedd | 85 | 0 |
| 0 | Wifi | 250 | 94 |
| 0 | Gweledol Gweithlu Digidol | 200 | 74 |
| 0 | Cudd-wybodaeth ac Ymchwiliad Digidol | 18 | 0 |
| 0 | Rheoli Tystiolaeth Ddigidol | 125 | 0 |
| 0 | Offer Ffôn | 250 | 0 |
| 0 | Uwchraddio Cof Nexus | 50 | 0 |
| 0 | Uwchraddio wrth gefn | 156 | 127 |
| 0 | Rhwydwaith Ardal Leol | 80 | 0 |
| 0 | Cleient Tenau | 50 | 0 |
| 0 | Cofrestr Risg | 74 | 0 |
| 0 | Uwchraddio Gorchymyn a Rheoli | 100 | 42 |
| 0 | Camera Corff | 535 | 533 |
| 0 | Uwchraddio GIS | 78 | 70 |
| 80 | Uwchraddio CHORUS | 0 | 0 |
| **2,570** | **Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | **5,463** | **3,417** |
| | | | |
| **11,273** | **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **9,176** | **6,374** |

| 2018-2019 Presennol<br><br>£000 | Disgrifiad | 2019-2020 Cyllideb Ddiwygiedig £000 | 2019-2020 Presennol<br><br>£000 |
|---|---|---|---|
| | **Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf** | | |
| 462 | Grantiau Cyfalaf Cyffredinol y Swyddfa Gartref | 462 | 472 |
| 2,350 | Cyfraniad Refeniw | 2,269 | 2,271 |
| 970 | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | 3,536 | 1,460 |
| 1,702 | Derbynebau Cyfalaf | 475 | 310 |
| 5,789 | Benthyca a ariannwyd o refeniw | 2,434 | 1,861 |
| **11,273** | **Cyfanswm y Cyllid** | **9,176** | **6,374** |